Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Proses ffedereiddio ysgolion a gynhelir yng Nghymru

Canllawiau i gyrff llywodraethu ac awdurdodau lleol

www.cymru.gov.uk



## Canllawiau

Cylchlythyr Llywodraeth Cymru rhif: 011/2014
Dyddiad cyhoeddi: Mai 2014
Yn disodli cylchlythyr rhif: 070/2012

# Proses ffedereiddio ysgolion a gynhelir yng Nghymru

| | |
|---|---|
| **Cynulleidfa** | Cyrff llywodraethu'r holl ysgolion ac ysgolion meithrin a gynhelir; awdurdodau lleol; consortia; awdurdodau esgobaethol ac undebau staff ysgolion. |
| **Trosolwg** | Mae'r canllawiau hyn yn cynnwys gwybodaeth a chyngor ymarferol i gyrff llywodraethu ac awdurdodau lleol ar y broses ffedereiddio ar gyfer ysgolion a gynhelir. |
| **Camau i'w cymryd** | Rhaid i gyrff llywodraethu ac awdurdodau lleol roi sylw i'r canllawiau hyn wrth ystyried ffedereiddio ysgolion a meithrinfeydd a gynhelir. |
| **Rhagor o wybodaeth** | Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:<br>Y Gangen Llywodraethu a Threfniadaeth Ysgolion<br>Yr Is-adran Rheolaeth ac Effeithiolrwydd Ysgolion<br>Yr Adran Addysg a Sgiliau<br>Llywodraeth Cymru<br>Parc Cathays<br>Caerdydd<br>CF10 3NQ<br>Ffôn: 029 2082 6051<br>e-bost: SMED2@cymru.gsi.gov.uk |
| **Copïau ychwanegol** | Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn www.cymru.gov.uk/addysgasgiliau |
| **Dogfennau cysylltiedig** | Mesur Addysg (Cymru) 2011<br>*Darparu gwasanaethau addysg yng Nghymru yn y dyfodol* (2013) Adolygiad gan Robert Hill<br>http://wales.gov.uk/consultations/education/future-delivery-of-education-services-in-wales/?skip=1&lang=cy<br>*Leadership of more than one school* (Ofsted, 2011) Arolwg gan Ofsted<br>www.ofsted.gov.uk/resources/leadership-of-more-one-school |

ISBN digidol 978 1 4734 1209 5
© Hawlfraint y Goron 2014
WG21510

# Cynnwys


**Trosolwg** **3**

**1. Cyflwyniad** **6**

**2. Rheoliadau Ffedereiddio newydd 2014** **10**

**3. Beth yw ffederasiwn?** **11**

**4. Crynodeb o brif bwyntiau ffedereiddio** **14**

**5. Pa bethau y dylid eu hystyried wrth sefydlu ffederasiwn?** **19**

**6. Y broses ffedereiddio** **21**

**7. Ffedereiddio ysgolion newydd** **33**

**8. Ffedereiddio ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir, ysgolion gwirfoddol a reolir ac ysgolion sefydledig** **34**

**9. Ffedereiddio ysgolion bach** **39**

**10. Ysgolion sy'n gadael ffederasiwn neu ddiddymu ffederasiwn** **42**

**11. Pwerau Gweinidogion Cymru i gyfarwyddo ffedereiddio ysgolion sy'n peri pryder** **50**

**12. Cyfansoddiad ac aelodaeth cyrff llywodraethu ffederal** **52**

**13. Offerynnau llywodraethu** **58**

**14. Penodi penaethiaid a dirprwy benaethiaid** **60**

**Atodiad 1: Camau sydd i'w cymryd cyn ffedereiddio** **62**

**Atodiad 2: Llunio adroddiad ar gyfer cyrff llywodraethu ysgolion ac ALlau sy'n arwain at gynnig i ffedereiddio, a chynnwys yr adroddiad sy'n gofyn barn y rhanddeiliaid** **63**

**Atodiad 3: Llunio adroddiad ar yr ymatebion a gafwyd gan randdeiliaid i gynigion ffedereiddio a arweinir gan gyrff llywodraethu ac ALlau** **67**

**Atodiad 4: Ffederasiynau – safonau, lles a gwella ysgolion** **69**

**Atodiad 5: Ffederasiynau – risg a rheoli risgiau** **71**

**Atodiad 6: Cyfansoddiad arfaethedig cyrff llywodraethu ffederasiwn o hyd at chwe ysgol, a gymerwyd o Reoliadau Ffedereiddio 2014** **76**

**Atodiad 7: Offeryn llywodraethu a awgrymir ar gyfer ysgolion ffederal a gynhelir** **82**

**Atodiad 8: Ffedereiddio – rôl a gweithgaredd yr ALlau/consortia yn ystod y broses ffedereiddio** **86**

**Atodiad 9: Ffedereiddio – cwestiynau cyffredin** **90**

**Atodiad 10: Gwybodaeth i rieni** **100**

# Trosolwg

Mae'r canllawiau hyn yn darparu cyngor a gwybodaeth i gyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir ac i awdurdodau lleol (ALlau) ar y prosesau o sefydlu corff llywodraethu ysgol ffederal ac a'r agweddau ymarferol hynny.

Amcan polisi Llywodraeth Cymru yw hyrwyddo cydweithio rhwng pob rhan o'r system addysg er mwyn sicrhau gwell canlyniadau. Mae ffedereiddio ysgolion yn ffordd fwy ffurfiol o estyn cydweithio a hyrwyddo perthnasau gwaith agosach rhwng ysgolion; a hon yw'r brif fenter ar gyfer hyrwyddo a sefydlu partneriaethau a fydd yn gwella perfformiad ac yn lleihau'r bwlch cyrhaeddiad ar gyfer disgyblion difreintiedig.

Ers 2010, bu modd i ysgolion ffedereiddio trwy ddilyn proses a bennir yn Rheoliadau Ffedereiddio Ysgolion a Gynhelir a Diwygiadau Amrywiol (Cymru) 2010 (‘Rheoliadau Ffedereiddio 2010’). Mae Rheoliadau Ffedereiddio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2014 (‘Rheoliadau 2014’), a wnaed o dan Fesur Addysg (Cymru) 2011 yn dirymu ac yn disodli Rheoliadau Ffedereiddio ac, yn ychwanegol, yn darparu mecanwaith i'r ALlau ffedereiddio ysgolion. Mae Rheoliadau Ffedereiddio 2014 yn pennu'r modd y gall cyrff llywodraethu rhwng dwy a chwech o ysgolion a gynhelir ffedereiddio. Yn ychwanegol, maent yn pennu'r modd y galla ALlau ffedereiddio ysgolion. Mae'r rheoliadau'n pennu sut y ceir cynnig ffederasiwn, ei sefydlu a'i gyfansoddi, a sut y caiff un, neu bob un, o'r ysgolion adael y ffederasiwn.

Ymgynghorwyd ar y darpariaethau yn Rheoliadau Ffedereiddio 2014 rhwng 17 Ionawr a 14 Mawrth 2013.

Nid yw'r broses o ffedereiddio ysgolion pan wneir hynny o dan arweiniad ALl wedi newid ers yr ymgynghoriad. Fodd bynnag, gwnaed y newidiadau canlynol yn y cynigion yr ymgynghorwyd arnynt, i adlewyrchu'r ymatebion i'r ymgynghoriad a chanlyniad yr Adolygiad ar Ddarparu Gwasanaethau Addysg yng Nghymru yn y Dyfodol gan Robert Hill:

- Gosodwyd cap o ddim mwy na chwech ar nifer yr ysgolion a gaiff ffedereiddio.

- Mae aelodaeth y gwahanol fodelau o gyrff llywodraethu Ffederal wedi ei halinio'n nes at yr hyn a bennid yn Rheoliadau Ffedereiddio 2010, er bod cyfyngiadau wedi eu gosod ar niferoedd y llywodraethwyr ym mhob categori.
- Bydd y nifer lleiaf o lywodraethwyr a ganiateir mewn corff llywodraethu yn parhau'n 15, ond cynyddwyd y nifer mwyaf a ganiateir i 27.
- Cedwir y ddarpariaeth ar gyfer athro-lywodraethwyr a staff-lywodraethwyr fel categorïau ar wahân.
- Bydd Gorchymyn Ysgolion Bach yn diffinio ysgol fach fel ysgol sydd â llai na 91 o ddisgyblion yn hytrach nag ysgol sydd â llai na 100.
- Y dyddiad ffedereiddio ar gyfer ffederasiwn o ysgolion bach yn unig yw 100 diwrnod o leiaf ar ôl y dyddiad y cyhoeddir y cynigion ffedereiddio, yn hytrach na'r 125 diwrnod sy'n gymwys ar gyfer ffederasiynau eraill.
- Ni chaiff ysgolion a sefydlwyd ar sail ffydd neu ymddiriedolaeth, megis ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir, ysgolion gwirfoddol a reolir neu ysgolion sefydledig, ffedereiddio gydag ysgolion cymunedol a meithrinfeydd a gynhelir. Caiff ysgolion sefydledig ffedereiddio gydag ysgolion sefydledig eraill. Bydd modd i ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion gwirfoddol a reolir ffedereiddio â'i gilydd os ydynt yn rhannu statws elusennol a/neu ethos crefyddol cyffelyb. Bydd llywodraethwyr sefydledig yn parhau i ffurfio mwyafrif o aelodau'r corff llywodraethu.
- Caiff cyrff llywodraethu ddewis penodi un pennaeth i fod â chyfrifoldeb cyffredinol am bob un o'r ysgolion yn y ffederasiwn neu, yn absenoldeb penodiad o'r fath, gael pennaeth ym mhob un, neu rai, o'r ysgolion yn y ffederasiwn.

Mae'r broses a'r egwyddorion a ddilynwyd gan ysgolion i ffedereiddio ers 2010 wedi eu hatgynhyrchu yn Rheoliadau Ffedereiddio 2014 ar gyfer ffederasiynau a ysgogir gan ALlau. O ganlyniad, mae rhan helaeth o'r canllawiau a ddyroddwyd gan Lywodraeth Cymru yng Nghylchlythyr 070/2012 'Canllawiau ar Broses Ffedereiddio Ysgolion a Gynhelir' ('Canllawiau 2012') yn parhau'n berthnasol, ac wedi ei hatgynhyrchu yn y canllawiau diwygiedig hyn. Mae'r canllawiau hyn, felly, yn gymwys i ysgolion yn ogystal ag i ALlau sy'n dymuno ffedereiddio.

**Ymholiadau ynghylch canllawiau hyn neu faterion ffedereiddio**

Dylid cyfeirio unrhyw gwestiynau neu ymholiadau ynghylch y canllawiau hyn, neu ynghylch unrhyw agwedd ar y broses ffedereiddio, at SMED2@wales.gsi.gov.uk, neu ffonio 02920 826051.

# 1. Cyflwyniad

1.1 Mae ffedereiddio ysgolion yn broses gyfreithiol sy'n galluogi ysgolion i gydweithio trwy broses strwythuredig ffurfiol, trwy rannu un corff llywodraethu, a fydd yn gwneud penderfyniadau er budd pennaf yr holl ysgolion, staff a disgyblion o fewn y ffederasiwn hwnnw. Nid cysyniad newydd yw'r cysyniad o ysgolion yn rhannu corff llywodraethu. Cyn cychwyn y darpariaethau yn Neddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (‘Deddf 1998’), a oedd yn gwneud yn ofynnol bod gan bob ysgol ei chorff llywodraethu ei hunan, caniateid i ysgolion rannu corff llywodraethu. Manteisiodd llawer o ysgolion, yn enwedig ysgolion cynradd bach mewn ardaloedd gwledig, ar y darpariaethau yn Neddf 1998 ond cafodd llawer o'r rheini anhawster i recriwtio llywodraethwyr; a bu rhai lleoedd yn wag am gyfnodau hir ar lawer o'u cyrff llywodraethu oherwydd y gofyniad bod gan bob ysgol gorff llywodraethu ei hunan.

1.2 Yn yr hinsawdd bresennol o gydweithio, er bod ysgolion hwyrach yn gyfarwydd â chydweithio a sefydlu cyd-bwyllgorau (sy'n rhoi i'r 'rhiant-gyrff' llywodraethu rywfaint o reolaeth dros benderfyniadau a chanlyniadau), gallent fod yn llai brwdfrydig ynghylch cydweithio mewn proses ffedereiddio mwy strwythuredig a ffurfiol, gyda chynrychiolaeth llywodraethwr ar gorff llywodraethu sengl a rennir gyda'r ysgolion eraill yn y ffederasiwn.

1.3 Gall ysgolion fod yn pryderu, yn ddealladwy, y gall pŵer newydd yr ALl i ffedereiddio ysgolion olygu y bydd rhaid iddynt ffedereiddio a rhannu corff llywodraethu. Dichon y bydd llywodraethwyr, staff yr ysgol a'r rhieni'n ofni y trinnir eu hysgol yn llai ffafriol nag ysgolion eraill yn y ffederasiwn. Fodd bynnag, mae'r adborth gan benaethiaid a llywodraethwyr ysgolion sydd wedi ffedereiddio yn dangos bod yr ysgolion a'r llywodraethwyr yn fwy cysurus a thawelach eu meddwl gyda'r trefniadau, ac mewn gwell sefyllfa i ddeall manteision ffedereiddio.

1.4 Felly, ni ddylai ffedereiddio ysgolion gan ALlau byth fod yn ddigwyddiad sy'n annisgwyl neu'n peri syndod i'r ysgolion dan sylw. Er mwyn sicrhau bod y broses o ffedereiddio'n mynd ymlaen yn rhwydd a'r ysgolion perthnasol yn derbyn ac yn cefnogi'r bwriad, mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i'r ALlau ymgysylltu'n llawn â'r

ysgolion a'u rhanddeiliaid mor fuan ag y bo modd, er mwyn trafod y cynigion ac ymateb i unrhyw bryderon. Dylent esbonio pam y mae ffedereiddio dan ystyriaeth a'r manteision a enillir drwy ffedereiddio.

1.5 Dylai'r ysgolion neu'r ALlau sy'n ystyried ffedereiddio baratoi ystod o ddeunyddiau i roi gwybodaeth i randdeiliaid. Gallai hyn gynnwys taflen o wybodaeth a anelir yn benodol at rieni a disgyblion, i ateb unrhyw gwestiynau a lliniaru unrhyw bryderon sydd ganddynt ynghylch effaith ffedereiddio ar eu hysgol. (Cynhwysir enghraifft isod yn Atodiad 10). Dylid ystyrid hefyd cynnal cyfres o gyfarfodydd gyda'r rhanddeiliaid, gan gynnwys ymddiriedolwyr, er mwyn trafod yn uniongyrchol unrhyw gwestiynau neu bryderon sydd ganddynt.

1.6 Yn yr adroddiad ar ei adolygiad o Ddarparu Gwasanaethau Addysg yng Nghymru yn y Dyfodol, dywed Robert Hill fod ffederasiynau a mathau eraill o bartneriaethau ffurfiol rhwng ysgolion yn darparu llwyfan cryf ar gyfer cynyddu ymreolaeth a dyrchafu cyrhaeddiad ysgolion. Er hynny, mae ffedereiddio wedi cychwyn yn araf yng Nghymru.

1.7 Mae profiad yr ysgolion sydd weddi ffedereiddio yn Lloegr yn dangos y gall ffedereiddio gynnig llawer o fanteision i ysgolion.

1.8 Mewn arolwg a wnaed gan Ofsted (y Swyddfa Safonau mewn Addysg, Gwasanaethau Plant a Sgiliau) ym Medi 2011, o'r effaith ar ysgolion a ffedereiddiwyd yn Lloegr, canfuwyd gwelliannau amlwg yn tri maes allweddol o addysgu a dysgu, ymddygiad, a chyflawniad disgyblion[1].

1.9 Dywed yr adroddiad fod yr arweinwyr a'r llywodraethwyr a holwyd yn gadarnhaol ynghylch manteision ffedereiddio. Ystyrient mai datblygiad proffesiynol, cadwraeth staff, gwell argaeledd adnoddau, a'r gallu i ddenu arweinwyr o ansawdd uchel oedd y rhesymai allweddol pam yr oedd ffedereiddio yn arwain at welliannau yn y ddarpariaeth.

1.10 Rhoddid tri phrif reswm dros ffedereiddio. Mewn rhai achosion roedd ALl wedi gofyn i ysgol helpu ysgol arall a oedd mewn trafferthion; roedd eraill yn ysgolion bach

---

[1] http://www.ofsted.gov.uk/resources/leadership-of-more-one-school

a oedd mewn perygl o gau, neu'n methu â recriwtio staff o ansawdd uchel; tra oedd eraill eto yn ceisio cryfhau addysg disgyblion yn gyffredinol o fewn eu cymunedau.

1.11 Roedd y ffederasiynau a sefydlwyd i wella galluedd ysgolion bach yn llwyddo i ehangu a chyfoethogi'r cwricwlwm yn ogystal â'r gofal, arweiniad a chefnogaeth a roddid i ddisgyblion. Roedd y rhain hefyd yn llwyddo i wella cyflawniad grwpiau o ddisgyblion hyglwyf, a rhai ag anghenion addysgol arbennig a/neu anableddau.

1.12 Mewn ysgolion lle'r oedd y ffederasiwn yn rhychwantu'r grwpiau oedran cynradd ac uwchradd, roedd y pontio rhwng ysgolion yn haws ac yn amharu llai ar gynnydd y disgyblion. Ym mhob achos, defnyddid system sengl i asesu ac olrhain cynnydd y disgyblion.

1.13 Mewn ffederasiynau da, roedd yr arweinwyr yn manteisio i'r eithaf ar y cynnydd yn yr adnoddau a'r cyfleoedd i ddatblygu yn broffesiynol, ac yn defnyddio'r cynnydd hwnnw i wireddu eu blaenoriaethau. Roedd yr hyfforddi a'r datblygu, yn eu hanfod, wedi eu teilwra'n ofalus i gwrdd ag anghenion yr ysgol.

1.14 Roedd y rhwystrau a wynebid gan ysgolion wrth ffurfio ffederasiynau i'w priodoli gan amlaf i ansicrwydd ynghylch effaith y newid a ffactorau ymarferol megis cyllid a'r pellter daearyddol rhwng rhai o'r ysgolion.

1.15 Bron bob amser, roedd cyfathrebu ac ymgynghori effeithiol yn lliniaru pryderon cynnar y staff, y rhieni a'r plant ynglŷn â ffederasiynau. Yn aml iawn, penodi rheolwr busnes neu fwrsar oedd y cam allweddol a oedd yn datrys problemau ymarferol ynghylch cyllid a'r safle.

1.16 Mae'r adroddiad yn argymell y dylai ysgolion sy'n ystyried ffedereiddio ganolbwyntio'n eglur ar y buddion i addysg y disgyblion, sicrhau bod cyrff llywodraethu'n sefydlu gweithdrefnau cadarn i ddal yr arweinwyr yn atebol, a chyfathrebu ac ymgynghori'n effeithiol, mor gynnar ag y bo modd, â'r rhieni, y staff, y disgyblion a'r gymuned.

1.17 Gellir gweld copi o'r adroddiad yn:
http://www.ofsted.gov.uk/resources/leadership-of-more-one-school

1.18 Yn y canllawiau hyn, darperir cyngor cam wrth gam ar y broses ffedereiddio fel

y'i pennir yn Rheoliadau Ffedereiddio 2014 a chynhwysir cyfres o Atodiadau sy'n rhoi mwy o fanylion am: yr hyn y mae ffedereiddio yn ei olygu; llunio cynnig i ffedereiddio; y gofynion i gasglu safbwyntiau rhanddeiliaid; a sefydlu corff llywodraethu ar gyfer ffederasiwn o ysgolion.

1.19 Mae dull cam wrth gam yn yr Atodiadau yn cwmpasu'r canlynol:

1. Camau sydd i'w cymryd cyn ffedereiddio.
2. Llunio adroddiad ar gyfer cyrff llywodraethu ysgolion ac ALlau sy'n arwain at gynnig i ffedereiddio, a chynnwys yr adroddiad sy'n casglu safbwyntiau rhanddeiliaid.
3. Llunio adroddiad ar yr ymatebion a geir gan randdeiliaid i gynigion am ffederasiynau a arweinir gan gyrff llywodraethu ac ALlau.
4. Ffederasiynau: Gwella safonau, lles ac ysgolion.
5. Ffederasiynau: Risgiau a Rheoli Risg.
6. Cyfansoddiad arfaethedig cyrff llywodraethu ffederasiwn a gymerwyd o Reoliadau Ffedereiddio 2014.
7. Offeryn Llywodraethu a awgrymir ar gyfer ysgolion ffederal a gynhelir.
8. Ffedereiddio – rôl a gweithgarwch ALlau /consortia yn ystod y broses ffedereiddio.
9. Ffedereiddio - Cwestiynau cyffredin.
10. Gwybodaeth ar gyfer rhieni.

## 2. Rheoliadau Ffedereiddio newydd 2014

2.1 Mae'r gallu i ffedereiddio wedi bod ar gael i'r ysgolion ers 2010, trwy ddilyn proses a bennir yn Rheoliadau Ffedereiddio Ysgolion a Gynhelir a Diwygiadau Amrywiol (Cymru) 2010. Mae Rheoliadau Ffedereiddio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2014, a ddaeth i rym ar 22 Mai 2014 bellach yn disodli Rheoliadau 2010. Diben y canllawiau hyn yw cynorthwyo'r rheoliadau newydd.

2.2 O dan Reoliadau Ffedereiddio 2014, bydd y gallu i ffedereiddio'u hysgolion, os dymunant wneud hynny, yn parhau ar gael i gyrff llywodraethu. Yn ychwanegol, mae Rheoliadau 2014 yn rhoi pŵer i ALlau i ffedereiddio ysgolion. Bydd modd i'r ALlau ffedereiddio ysgol, gan gynnwys ysgol newydd arfaethedig, gydag ysgol neu ysgolion eraill, neu ffedereiddio ysgol neu ysgolion gyda ffederasiwn sy'n bodoli eisoes. Mae'r Rheoliadau newydd hyn hefyd yn cynnwys proses i'r ALlau ffedereiddio ysgolion bach; mewn Gorchymyn a wnaed gan Weinidogion Cymru, diffiniwyd ysgol fach fel ysgol sydd â nifer ei disgyblion yn llai na 91 (rhoddir mwy o wybodaeth am ysgolion bach yn Adran 9)

2.3 Mae Rheoliadau 2014 yn debyg iawn i Reoliadau 2010 i'r graddau y maent yn pennu'r broses ar gyfer sut y caiff ysgolion ac ALlau gynnig, sefydlu a chyfansoddi ffederasiwn; sut y gallai ysgol (neu ysgolion) adael ffederasiwn; a sut y gellid diddymu ffederasiwn.

2.4 Yn yr adran ‘Trosolwg’ rhestrir y newidiadau a gynhwysir yn Rheoliadau Ffedereiddio 2014.

## 3. Beth yw ffederasiwn?

3.1 Mae'r term ffederasiwn yn disgrifio cytundeb ffurfiol a chyfreithiol lle mae nifer o ysgolion (rhwng dwy a chwech) yn rhannu trefniadau llywodraethu ac yn meddu ar gorff llywodraethu sengl. Gall ffederasiynau gynnwys cymysgedd o ysgolion cymunedol a chymunedol arbennig sydd naill ai'n ysgolion meithrin, cynradd, arbennig neu uwchradd a gynhelir. Fodd bynnag, o dan y Rheoliadau Ffedereiddio 2014 newydd, ni chaiff ysgolion a sefydlwyd ar sail ffydd a/neu ymddiriedolaeth, megis ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir neu ysgolion gwirfoddol a reolir, ffedereiddio ac eithrio gydag ysgolion o'r un categori neu gydag ysgolion o'r un statws ymddiriedolaeth elusennol a/neu'r un ethos crefyddol. Ni chaiff ysgolion sefydledig ffedereiddio ac eithrio gydag ysgolion sefydledig eraill.

3.2 Nid oes unrhyw lasbrint penodol ar gyfer ffedereiddio a bydd cynllun neu weithrediad unrhyw ffederasiwn yn dibynnu'n llwyr ar amgylchiadau'r ysgolion unigol a ffocws neu ddiben eu hawydd i gydweithio, ond mae rhai manteision amlwg mewn ffedereiddio.

3.3 Y rheswm pwysicaf dros ystyried ffedereiddio yw y byddai trefniant o'r fath yn sicrhau manteision i'r plant a'r bobl ifanc yn yr ysgolion sy'n ffedereiddio drwy wella'r ddarpariaeth addysgol. Wrth i ffedereiddio ymsefydlu'n gadarnach fel ffordd fwy cyffredin o weithio, daw mwy a mwy o ysgolion i sylweddoli bod cydweithio a rhannu adnoddau mewn ffederasiwn yn darparu sylfaen ar gyfer datblygu a gwella yn gynaliadwy dros dymor hir. Ar y dechrau, gall ysgolion ganfod 'cymhellion' pwysig eraill i ffedereiddio, megis y gallu i rannu cyllidebau, er mwyn darparu adnoddau na ellid eu fforddio o gyllideb ysgol unigol. Yn y pen draw, fodd bynnag, dylai'r manteision a enillir gan yr ysgolion wella'r ddarpariaeth o addysg a chodi lefelau cyrhaeddiad y disgyblion.

### Beth sy'n gwneud ffederasiwn llwyddiannus?

3.4 Er mwyn llwyddo, rhaid i ffederasiwn fod yn seiliedig ar ymrwymiad i gydweithio fel grŵp o ysgolion a'r parodrwydd i wneud pethau mewn ffordd wahanol er mwyn

ychwanegu at fudd cyffredinol, lles a chyflawniad pob un o'r disgyblion. Mae'r profiad mewn ysgolion sydd wedi ffedereiddio yn dangos y bydd datblygiad pob un o'r ysgolion a'u cymunedau o fewn y ffederasiwn, a rhannu'r arferion gorau, yn gymorth i godi'r safonau a gwella'r perfformiad. Mae Atodiadau 4 a 5 yn cynnwys rhagor o wybodaeth am y cymhellion i ffedereiddio, yn ogystal â rhai o'r risgiau a sut i'w lliniaru.

3.5 Un o fanteision ffedereiddio yw y bydd ysgolion sy'n ffedereiddio yn aros yn eu cymunedau ac yn cadw eu hunaniaeth unigol. Fodd bynnag, bydd y cyrff llywodraethu presennol yn cael eu diddymu, a chorff llywodraethu sengl newydd yn cymryd eu lle, a fydd yn goruchwylio ac yn ymgymryd â chyfrifoldeb cyfartal am waith pob un o'r ysgolion o fewn y ffederasiwn. Bydd aelodaeth corff llywodraethu ar gyfer ffederasiwn o ysgolion bron yr un fath ag aelodaeth corff llywodraethu cyffredin, gyda chynrychiolaeth ar gyfer pob rhanddeiliad, ond caniateir mwy o hyblygrwydd yng nghyfrannau'r gynrychiolaeth gan bob categori o lywodraethwr. Ystyr hyn yw y caiff corff llywodraethu ffederasiwn ddewis cyfansoddiad ac aelodaeth sy'n addas i'w amgylchiadau penodol, ar yr amod bod ganddo o leiaf 15 ond dim mwy na 27 o lywodraethwyr, a'i fod yn cydymffurfio â'r niferoedd lleiaf a mwyaf o lywodraethwyr a bennir yn y rheoliadau. Bydd modd hefyd i ysgolion unigol mewn ffederasiwn gynnal eu cyllideb ddirprwyedig eu hunain, yn ogystal ag enw, cymeriad, gwisg ysgol ac ethos yr ysgol; ond gallant hefyd ymchwilio i fanteision rhannu adnoddau megis cyfleusterau, TG, staff, adeiladau ysgol, etc.

3.6 Bydd penderfynu ar aelodaeth y corff llywodraethu sengl yn gam pwysig i'r llywodraethwyr, gan y bydd angen sicrhau cydbwysedd priodol o sgiliau a phrofiad i fodloni anghenion pob un o'r ysgolion, a helpu i leihau'r baich ar uwch-aelodau o'r staff. Er bod hyfforddiant i lywodraethwyr yn bwysig er mwyn eu helpu i ddeall eu rolau a'u cyfrifoldebau yn well, ni fydd yr hyfforddiant hwnnw, o anghenraid, yn darparu'r sgiliau penodol, megis sgiliau rheolaeth ariannol, y bydd eu hangen, hwyrach, ar y corff llywodraethu er mwyn gwella'i effeithiolrwydd. Gyda hyn mewn golwg, awgrymir y dylai ysgolion sy'n ffedereiddio gynnal awdit o sgiliau'r lywodraethwyr presennol, er mwyn canfod yn union pa sgiliau ac arbenigedd sydd ar gael, ac os oes bylchau, datblygu strategaeth i'w cyflenwi. I gynorthwyo'r ysgolion a'r ALlau, mae Atodiad 6 isod yn nodi'r aelodaeth arfaethedig ar gyfer y gwahanol fodelau ffedereiddio.

3.7 Mae sefydlu a datblygu ffederasiwn yn galw am lefel uchel o ymddiriedaeth rhwng y llywodraethwyr, yr ysgolion a'u cymunedau. Bydd ymgorffori'r cysyniad o ffedereiddio a chynnwys y staff yn y gwaith hwnnw ar bob lefel yn hollbwysig i lwyddiant y ffederasiwn. Hwyrach y bydd y staff yn ochelgar a phryderus ynghylch newid eu telerau cyflogaeth. Rôl uwch aelodau o'r staff yn yr ysgolion sy'n ffedereiddio fydd esbonio'r manteision posibl wrth y staff, megis cyfle i wella datblygiad proffesiynol athrawon, gwella'u harbenigedd yn eu pwnc ac ehangu a chyfoethogi'r cwricwlwm i'r holl ddisgyblion.

3.8 Bydd angen i'r ysgolion ddangos parodrwydd hefyd i weld y potensial a'r manteision mewn partneriaeth ffurfiol, tra'n deall a chydnabod yr un pryd fod y bartneriaeth yn cryfhau yn hytrach nag yn bygwth niweidio a rhinweddau yr ysgolion unigol o fewn y ffederasiwn.

3.9 Mae Rheoliadau Ffedereiddio 2014 yn pennu proses ffurfiol, y bydd rhaid i'r ysgolion a'r ALlau ei dilyn, ar gyfer casglu safbwyntiau'r rhanddeiliaid. Y rhanddeiliaid yw'r rhieni, y penaethiaid a'r staff, y disgyblion trwy gyngor yr ysgol, yr ALl, undebau ysgolion, awdurdodau esgobaethol a phersonau priodol eraill megis ymddiriedolwyr.

3.10 Rhaid i'r ALlau gadw mewn cof na fydd unrhyw benderfyniad i ffedereiddio, naill ai gan yr ysgolion neu gan ALlau, yn trechu'r angen i ALl ymyrryd neu weithredu mewn materion gwella ysgolion neu drefniadaeth ysgol.

# 4. Crynodeb o brif bwyntiau ffedereiddio

4.1 Mae'r wybodaeth a gynhwysir yn y blychau canlynol yn crynhoi rhai o'r ffeithiau allweddol a allai fod yn ysgogiad i ysgolion nac ALlau sy'n ystyried ffedereiddio. Roddir crynodeb o'r wybodaeth hon hefyd yn Atodiad 2.

## Ffeithiau allweddol

- Sefydlir corff llywodraethu sengl a fydd yn gyfrifol am gadw trosolwg strategol ar bob ysgol yn y Ffederasiwn.
- Bydd pob ysgol yn cadw ei henw, ei chategori, ei chyllideb a'i staff ac yn aros yn ei chymuned.
- Rhannu staff - Caiff pob ysgol gadw ei phennaeth os yw'n dymuno, ond hwyrach y bydd rhai ffederasiynau yn dymuno rhannu pennaeth. Gallai hyn fod yn arbennig o fuddiol mewn ysgolion bach; ond mewn ffederasiynau o ysgolion mwy, gellir penderfynu penodi pennaeth ar y ffederasiwn neu, os na wneir penodiad o'r fath, gellir cadw'r penaethiaid ym mhob ysgol.
- Os crëir swydd pennaeth sengl a swydd dirprwy bennaeth i reoli'r holl ysgolion yn y ffederasiwn, nid oes rhaid hysbysebu'r swyddi hynny yn genedlaethol os yw un o'r penaethiaid neu'r dirprwy benaethiaid yn mynegi diddordeb yn y swydd (Gweler Adran 14 am ragor o wybodaeth).
- Bydd pob ysgol unigol yn cael ei harolygu gan Estyn, er bod tuedd gynyddol i gydgysylltu'r arolygiadau hyn fel bod holl ysgolion yn y Ffederasiwn yn cael eu harolygu yr un pryd er mwyn lleihau'r ymyrraeth a'r straen.
- Caiff y corff llywodraethu ffederal ddefnyddio ei gyllideb, ei adnoddau a'i staff ledled y Ffederasiwn er mwyn gwella'r canlyniadau addysgol i bob disgybl. Mae'n rhaid cynnal trywydd archwilio, a pharatoi cyfrifon ar wahân ar gyfer pob ysgol yn y ffederasiwn.
- Ni chaiff corff llywodraethu ffederal orfodi staff i weithio ar draws yr holl ysgolion yn y Ffederasiwn, ond caiff negodi gydag undebau'r staff yn yr ysgolion ynglŷn â

chyflwyno contractau hyblyg. Ceir penodi aelodau newydd o staff i weithio ledled yr ysgolion yn y Ffederasiwn.

- Pennir modelau ar gyfer cyfansoddiad ac aelodaeth corff llywodraethu ffederal yn Rheoliadau Ffedereiddio 2014 a hefyd yn Atodiad 6.
- Mae casglu safbwyntiau rhanddeiliaid ynglŷn â chynigion i ffedereiddio yn ofyniad statudol, boed y cynnig i ffedereiddio wedi ei wneud gan gyrff llywodraethu'r ysgolion cydrannol neu gan yr ALl.
- Rhaid i ALlau ganiatáu 20 diwrnod ysgol (heb gynnwys unrhyw ddiwrnodau HMS) i gyrff llywodraethu a chynghorau ysgol ysgolion bach i ymateb i gynigion, ac ni chânt sefydlu ffederasiwn cyn diwedd cyfnod o 100 diwrnod o leiaf o'r diwrnod y cyhoeddir y cynigion. Defnyddir gweddill yr amser i ddiddymu'r cyrff llywodraethu blaenorol a sefydlu'r corff a ddaw yn gorff llywodraethu cydnabyddedig fel y pennir yn yr Offeryn Llywodraethu, ac i drosglwyddo'r adnoddau, tir, asedau, hawliau a rhwymedigaethau.
- Yn achos ffederasiynau arferol, rhaid i'r dyddiad ffedereiddio fod ymhen 125 diwrnod o leiaf ar ôl dyddiad cyhoeddi'r cynigion, yn achos ffederasiwn dan arweiniad naill ai ALl neu gorff llywodraethu. Rhaid i'r awdurdod lleol ganiatáu 6 wythnos i'r ymgyngoreion ymateb i'r cynigion. Dylai'r awdurdod lleol ddefnyddio'r amser sy'n weddill i ddiddymu'r cyrff llywodraethu blaenorol a sefydlu'r corff a ddaw yn gorff llywodraethu cydnabyddedig fel y pennir yn yr Offeryn Llywodraethu, ac i drosglwyddo'r adnoddau, tir, asedau, hawliau a rhwymedigaethau.
- Ni chaiff ysgolion sydd â'u cyrff llywodraethu yn ymddiriedolaethau elusennol ffedereiddio gydag ysgolion cymunedol (gweler Deddf Elusennau 2011, Atodlen 3, paragraff 9).

## Manteision ffedereiddio

- Cysondeb o ran y fethodoleg addysgu a dysgu yn enwedig ar draws cyfnodau.

- Llai o ostyngiadau ym mherfformiad disgyblion wrth bontio.
- Symleiddio polisïau a strwythur.
- Rhannu arferion gorau, deunyddiau paratoi ac adnoddau.
- Cyfleoedd gwell ar gyfer gweithgareddau disgyblion – ehangu'r dewisiadau cwricwlaidd a'r opsiynau i fyfyrwyr wrth i ysgolion ddarparu mynediad i gyrsiau a chyfleusterau ei gilydd, a gwella ansawdd y dysgu i'r staff a'r disgyblion
- Cyfleoedd gwell ar gyfer datblygiad proffesiynol staff.
- Mwy o gyfle i ddatblygu rheolwyr canol.
- Opsiynau i'r ysgolion ddewis y strwythur o uwch arweinwyr sy'n addas i'w hamgylchiadau, a hwyluso'r broses o recriwtio staff a phenaethiaid, yn enwedig os cafwyd anawsterau yn y gorffennol.
- Cyfleoedd i ymgeisio am arweinyddiaeth ysgol y tu hwnt i ysgol unigol.
- Cyfleoedd i greu rolau newydd y gellir eu rhannu rhwng ysgolion, e.e. bwrsar, technegydd TGCh, athro drama, athrawon peripatetig.
- Cyfleoedd cymdeithasol gwell i ddisgyblion.
- Cyfleoedd i fanteisio i'r eithaf ar adnoddau ac arbenigedd proffesiynol yn enwedig os oes anawsterau ariannol neu os yw niferoedd disgyblion yn fach, a sicrhau effeithlonrwydd ariannol trwy ddarbodion maint
- Mae'n meithrin gwybodaeth – mae rhai ysgolion yn rhy fach i fod yn hunangynhaliol fel sefydliadau dysgu effeithiol i'r staff sy'n addysgu ynddynt.
- Mae'n ychwanegu galluedd ac yn darparu effeithlonrwydd trwy ddarbodion maint wrth ymgymryd â gweithgareddau allweddol.
- Mae'n hyrwyddo lles ehangach y myfyrwyr trwy ddwyn at ei gilydd y gwasanaethau bugeiliol, iechyd, gyrfaoedd, ieuenctid ac eraill, i ddiwallu'r anghenion ar y cyd.
- Cymorth i ysgolion sydd mewn trafferthion.
- Gall ysgolion cryf gyfrannu at ddysgu eraill.
- Mae'n helpu ysgolion i wella trwy'u galluogi i ddefnyddio adnoddau ysgolion

eraill i fynd i'r afael â phroblemau, rhannu arbenigedd, codi disgwyliadau a diwallu anghenion grwpiau penodol o ddisgyblion.

- Gwell cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith i benaethiaid sydd â baich addysgu trwm.
- Posibilrwydd y bydd recriwtio llywodraethwyr yn haws, a nifer y lleoedd gwag gorff llywodraethu yn is.

**Gall ysgolion bach yn benodol gael budd ychwanegol trwy:**

- Ddatblygu rhwydweithiau cymorth personol.
- Rhannu arbenigedd ac adnoddau.
- Trefnu datblygiad proffesiynol.
- Trefnu gweithgareddau i ddisgyblion ar y cyd.

## Ffactorau allweddol i lwyddiant

- Sefydlu ymddiriedaeth rhwng ALlau, llywodraethwyr a chymunedau ysgolion, sy'n anhepgorol i lwyddiant ffederasiynau, a rhaid meithrin hyn ar bob lefel o reolaeth
- Pob ysgol sy'n rhan o'r ffederasiwn yn cyfrannu amser ac adnoddau
- Bwriad cyffredin a gweledigaeth gyffredin o'r hyn y mae angen ei wneud, a sut i wella cyrhaeddiad a chyflawniad ar bob lefel.
- Hunaniaeth ar y cyd rhwng yr ysgolion h.y. yn ddaearyddol gyfagos, gyda nodau cyffredin mewn gweithgareddau cwricwlaidd a gweithgareddau eraill
- Arweinyddiaeth a  strwythurau rheoli eglur.

- Rhoi digon o amser i bob parti ddygymod â'r newidiadau arfaethedig a theimlo'n gyffyrddus yn eu cylch.
- Pawb yn teimlo fel partneriaid cyfartal.
- Ymdeimlad o berchenogaeth ar y broses gan yr ysgolion.
- Cyfathrebu da â'r rhieni a'r staff ynglŷn â'r newidiadau a ddaw yn sgil ffedereiddio.

**Anfanteision ffedereiddio**

- Cynnydd ym maich gwaith y llywodraethwyr ar ddechrau'r broses ffedereiddio ac yn ystod y flwyddyn gyntaf.
- Y posibilrwydd o golli llywodraethwyr profiadol.
- Drwgdybiaeth ar y dechrau ymhlith llywodraethwyr, rhieni a staff – angen amser i'r ffederasiwn sefydlogi.
- Pennaeth sengl nad yw'n rhannu ei amser yn deg rhwng yr ysgolion.

# 5. Pa bethau y dylid eu hystyried wrth sefydlu ffederasiwn?

5.1 Ni ddylai cynigion gan ALl i ffedereiddio ysgolion byth gael eu rhoi gerbron yn annisgwyl na pheri syndod i'r ysgolion dan sylw. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i'r ALlau roi gwybod i'r ysgolion am eu bwriadau ac i ymgysylltu â'r ysgolion mor gynnar ag y bo modd. Mae'n bosibl y bydd rhai ysgolion yn ochelgar, drwgdybus a hyd yn oed yn amharod i newid, a gall y rhestr cwestiynau isod fod yn ysgogiad defnyddiol i gyrff llywodraethu, ALlau, penaethiaid a staff i'w hystyried pan roddir cynigion gerbron ar gyfer ffedereiddio:

- Os ffedereiddio yw'r ateb, beth yw'r cwestiwn?
- Oes yna ddewisiadau amgen?
- Beth yw'n gweledigaeth o'r dyfodol ar gyfer y ffederasiwn hwn?
- Beth fyddai diben a ffocws y ffederasiwn arfaethedig?
- Sut y gallai'r staff a'r disgyblion fanteisio fwyaf?
- Sut y gallai ffedereiddio wneud y defnydd gorau o'r adnoddau, fel bod arian yn cael ei wario'n uniongyrchol ar y disgyblion?
- Sut y gallai ffedereiddio gynnig dewis ehangach o gyfleoedd dysgu, megis teithiau preswyl, dramâu cerddoriaeth a gweithgareddau chwaraeon?
- Sut y gelli ehangu datblygiad y staff trwy ffedereiddio?
- Pa un yw'r ffordd orau i reoli cyfathrebu fel bod llais pawb i'w glywed?
- Sut y caiff cyrff proffesiynol/undebau eu cynnwys, a pha bryd?
- Beth sydd yn hyn i'r rhieni ac i'r gymuned leol?
- Pa fudd i'n disgyblion fyddai cyflogi pennaeth profiadol sengl i weithio ar draws pob un o'n hysgolion?
- Beth yw'r dewisiadau amgen ar gyfer yr uwch arweinyddiaeth, a sut y byddent yn gweithio?
- Beth fydd effaith y ffedereiddio ar y gymuned ehangach?
- Fel llywodraethwyr, sut y gallwn/ byddwn yn mesur llwyddiant y ffederasiwn yn y dyfodol?
- Sut yr ydym yn gweld y ffederasiwn yn datblygu yn y dyfodol?
- Sut y gall un corff llywodraethu adlewyrchu gweledigaethau a gwerthoedd y

gwahanol ysgolion?

- Sut y bydd y corff llywodraethu yn sicrhau tegwch a thriniaeth gyfartal i bob un o'r ysgolion?
- Sut y gall ffedereiddio helpu i godi'r safonau? A fydd ymuno â ffederasiwn yn effeithio ar enw da ein hysgol?
- Beth fydd yn digwydd os na fydd ffedereiddio yn gweithio?
- Pa gynllunio a pharatoi sydd ei angen er mwyn dechrau sefydlu ffederasiwn?

## Pan fo ysgolion ffydd yn ffedereiddio, hwyrach y bydd y cyrff llywodraethu yn dymuno ystyried y canlynol yn ogystal

- Sut y caiff arwahanrwydd ein ffydd ei ddiogelu os byddwn yn ffedereiddio ag ysgol ffydd arall sy'n arddel ffydd wahanol?
- Sut y byddai'r corff llywodraethu ffederal yn rheoli cyflogaeth, derbyniadau , Addysg Grefyddol ac addoli ar y cyd, ac yn cynnal a rheoli'r adeiladau a'r ystad?
- Sut y bydd modd cynnal y cysylltiad â'r corff Crefyddol a'r cymunedau?

# 6. Y broses ffedereiddio

## Sefydlu ffederasiwn a arweinir gan gyrff llywodraethu

6.1 O dan Reoliadau Ffedereiddio 2010 ceir ysgogi'r broses o ffedereiddio gan gyrff llywodraethu yr ysgolion unigol sydd â diddordeb mewn cydweithio fel rhan o bartneriaeth ffederal. Mae'r ddarpariaeth hyn yn bodoli hefyd yn y rheoliadau newydd arfaethedig, sef Rheoliadau Ffedereiddio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2014 gan y bydd Rheoliadau 2010 wedi eu dirymu pan daw Rheoliadau Ffedereiddio newydd 2014 i rym.

6.2 Gwneir y penderfyniad a ddylid ffedereiddio ai peidio gan y cyrff llywodraethu ar y cyd, ar ôl ymgynghori â'r rhieni; y staff; yr ALl (neu'r ALlau os bydd ysgolion o wahanol awdurdodau lleol yn cymryd rhan); pob undeb staff ysgol; pob llywodraethwr sefydledig (os yw'n briodol) ac unrhyw un arall yng nghymuned yr ysgol. Er mwyn gwneud y broses ffedereiddio yn haws i'w rheoli, gall y cyrff llywodraethu sefydlu cyd-bwyllgor i oruchwylio a rheoli'r broses, rhag gorfod cynnal cyfarfodydd llawn o'r holl gyrff llywodraethu i drafod datblygiadau.

6.3 Mae llywodraethwyr, felly, yn ganolog i'r broses o sefydlu ffederasiwn. Wrth drafod a gwneud penderfyniadau ynglŷn ag a ddylent fynd ymlaen i ffedereiddio, mae'n hanfodol bwysig bod cyrff llywodraethu yn gwneud y canlynol:

- ystyried yn fanwl y manteision a'r risgiau sy'n gysylltiedig â sefydlu ffederasiwn o ran yr effaith ar gyflawniadau plant a phobl ifanc ac ansawdd addysg yn/ar draws yr ysgolion sy'n cymryd rhan yn y trafodaethau;
- casglu ac ystyried gwybodaeth am bob ysgol sy'n cymryd rhan yn y trafodaethau, yn enwedig o ran perfformiad, arian, cyfleusterau ac adeiladau ysgolion, er mwyn sicrhau y caiff penderfyniadau eu gwneud yn agored ac ar sail tystiolaeth gadarn;
- sicrhau bod yr ALlau yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw ddatblygiadau ac yn cymryd rhan yn y datblygiadau hynny;

- sicrhau bod y broses o ymgynghori a gwneud penderfyniadau yn cydymffurfio â Rheoliadau Ffedereiddio newydd 2014.

## Rôl yr ALlau mewn ffederasiynau a arweinir gan gyrff llywodraethu

6.4 Dylai ALlau ddarparu cyngor a chymorth i'r holl gyrff llywodraethu sy'n ystyried ffedereiddio, gan gynnwys:

- cynnal cyswllt rhwng swyddog enwebedig yr ALl, sef person unigol os oes modd, er mwyn cysondeb, a'r cyrff llywodraethu sy'n gysylltiedig;
- cynorthwyo drwy ddarparu'r wybodaeth y gofynnir amdani gan y cyrff llywodraethu, megis gwybodaeth am yr ysgolion, a pharatoi'r adroddiad sydd i'w ystyried gan y cyrff llywodraethu;
- sicrhau bod cyrff llywodraethu ysgolion ffederal wedi eu cynnwys mewn trefniadau cymorth a rhaglenni hyfforddi ar gyfer llywodraethwyr. Rhoddir crynodeb o rôl yr ALl mewn ffederasiynau yn Atodiad 8 yn ogystal.

## Sefydlu ffederasiwn a arweinir gan ALl

6.5 Mae gan yr ALlau gyfrifoldeb statudol am gynllunio darpariaeth ysgolion. Wrth gyflawni'r cyfrifoldeb hwn mae'n bwysig bod gan yr ALlau wybodaeth ac ymwybyddiaeth lawn am unrhyw ddatblygiadau ynglŷn â ffedereiddio o fewn ei ardal. Mae'r broses y byddai ALl yn ei defnyddio i ffedereiddio ysgolion bron yn union yr un fath â'r broses a ddilynid gan gyrff llywodraethu. Os yw ALl yn ystyried ffedereiddio ysgol wirfoddol a gynorthwyir, ysgol wirfoddol a reolir neu ysgol sefydledig, dylai yn gyntaf gysylltu â'r Comisiwn Elusennau i drafod y cynigion. Dylai hefyd gael cydsyniad yr awdurdod esgobaethol neu'r ymddiriedolwyr perthnasol neu'r personau sy'n gyfrifol am benodi'r llywodraethwyr sefydledig, cyn mynd ymlaen i gymryd y camau isod.

6.6 Yn benodol, dylai ALlau:

- ystyried ffedereiddio fel opsiwn yn ei gynlluniau strategol ar gyfer darpariaeth

ysgolion effeithiol ac effeithlon mewn/ar draws cymunedau;

- sicrhau bod cynlluniau trefniadaeth ysgolion yn ddigon manwl a thryloyw i lywio penderfyniadau ynghylch ffedereiddio mewn ac ar draws cyrff llywodraethu ysgolion;
- ystyried effaith eu rhaglen ffedereiddio ar ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir, ysgolion gwirfoddol a reolir ac ysgolion sefydledig, nad ydynt bob amser hawdd i'w ffedereiddio;
- nodi unrhyw ysgolion bach sydd â llai na 91 o ddisgyblion, gan fod y broses o ymgynghori â rhanddeiliaid yn fyrrach ar gyfer ffedereiddio'r ysgolion bach hyn.

6.7 Roedd Mesur Addysg (Cymru) 2011 hefyd yn rhoi'r pŵer i awdurdodau lleol wneud cynigion ar gyfer ffedereiddio. Mae Rheoliadau Ffedereiddio 2014 yn rhoi manylion y modd y caiff ALlau gynnig a chyflawni'r broses ffedereiddio ar gyfer :

- dwy ond dim mwy na chwech o ysgolion cymunedol, cymunedol arbennig neu ysgolion meithrin a gynhelir
- dwy ond dim mwy na chwe ysgol wirfoddol a gynorthwyir
- dwy ond dim mwy na chwe ysgol wirfoddol a reolir
- dwy ond dim mwy na chwech o ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir a gwirfoddol a reolir
- dwy ond dim mwy na chwe ysgol sefydledig
- ehangu ffederasiwn presennol trwy ychwanegu un neu ragor o ysgolion a gynhelir ar yr amod na fydd cyfanswm nifer yr ysgolion yn fwy na chwech
- uno dau neu ragor o ffederasiynau presennol ar yr amod na fydd cyfanswm nifer yr ysgolion yn fwy na chwech.

6.8 Ym mhob achos o ffedereiddio dan arweiniad ALl, gwneir y penderfyniad a ddylid ffedereiddio ai peidio gan yr ALl, ar ôl ystyried yn ofalus a ddylid defnyddio ffedereiddio fel offeryn strategol i sbarduno gwell canlyniadau ac er mwyn defnyddio adnoddau'n effeithlon o fewn ei ardal. Trwy gydol y broses ffedereiddio, o'r cyfnod

ystyried dechreuol hyd at gyflawni ac ymgorffori, mae'n hollbwysig bod yr ALlau ymgysylltu â'r cyrff llywodraethu sy'n ffedereiddio, gan roi cyfle iddynt wneud sylwadau a meithrin yr ymdeimlad o berchnogaeth o'r broses ac o'r ffederasiwn newydd.

6.9 Fel yn achos ffederasiynau a arweinir gan gyrff llywodraethu, mae'n ofynnol bod yr ALl hefyd yn ymgynghori'n ffurfiol gyda'r rhieni; y staff; y disgyblion; holl undebau staff yr ysgolion; llywodraethwyr sefydledig, ALlau eraill (yn achos ffederasiynau trawsffiniol) ac awdurdodau esgobaethol neu bersonau sy'n penodi llywodraethwyr sefydledig (os gofynnwyd am eu cydsyniad ymlaen llaw ar gyfer ffedereiddio).

6.10 Trwy gydol y broses ar gyfer ffederasiynau a arweinir gan ALlau, bydd y llywodraethwyr yn parhau i gyflawni rôl bwysig o ran sefydlu'r cynigion. Yn dra thebyg i'r broses ar gyfer cynigion ffedereiddio a arweinir gan gorff llywodraethu, mae'n hollbwysig bod cyrff llywodraethu, mewn cydweithrediad â'r ALl:

- yn ystyried y manteision a'r risgiau sy'n gysylltiedig â sefydlu ffederasiwn, a sut y gallai hynny effeithio ar ansawdd addysg a chyflawniadau plant a phobl ifanc yn yr ysgolion, ac ar draws yr ysgolion sy'n ffedereiddio.

- yn sicrhau bod y staff, y rhieni a'r disgyblion yn cael gwybod yn gyson am ddatblygiadau yn y broses ffedereiddio, a'u cynnwys yn y datblygiadau hynny.

6.11. Rhoddir canllaw cam wrth gam isod i'r broses y dylai ALlau a chyrff llywodraethu ei dilyn wrth ffedereiddio ysgolion:

## Canllaw cam wrth gam i sefydlu ffederasiynau

### Cam 1: Ystyried

- Datganiadau o ddiddordeb gan ysgolion, a allai ofyn am wybodaeth ac arweiniad gan yr All. Yr ALlau yn cynnal trafodaethau cynnar gyda'r ysgolion a nodwyd ar gyfer ffedereiddio.

- Cyrraedd cytundeb cyffredinol i ystyried opsiynau ffedereiddio. Dylai'r ysgolion sy'n ddarostyngedig i ymyriad gan Weinidogion Cymru neu ALl ddod i gytundeb yn gyntaf gyda Gweinidogion Cymru neu'r ALl.
- Cytuno ar ffactorau sbarduno a diben Ffedereiddio.
- Y cyrff llywodraethu neu'r ALlau yn hysbysu'r staff ac undebau staff yr ysgolion ynglŷn â'r broses ac unrhyw oblygiadau.
- Sefydlu gweithgor o lywodraethwyr sy'n cynnwys cynrychiolwyr o bob ysgol i arwain y broses, er mwyn osgoi cyfarfodydd arferol o'r cyrff llywodraethu, a fyddai'n arafu'r broses.
- Pennu dyddiad i'r ffederasiwn ddechrau gweithredu
- Ystyried holi neu ymweld ag ysgolion eraill sydd wedi ffedereiddio.

**Sylwer: Pan fo ALl yn cynnig bod ysgol yn ymuno â ffederasiwn a gychwynnwyd eisoes gan gyrff llywodraethu, bydd yr ALl yn ymgymryd ag arweinyddiaeth y broses ffedereiddio.**

**Cam 2: Paratoi**

Mae Atodiadau 1, 2 a 3 yn cynnwys crynodeb o'r camau paratoi a restrir yn fanwl isod:

- Yr ALl yn llunio, neu'r llywodraethwyr yn cytuno i lunio adroddiad i ymgynghori arno gyda'r rhanddeiliaid (er mwyn cysondeb, dylid defnyddio'r un adroddiad ar gyfer pob ysgol, ynghyd ag adrannau ar faterion sy'n ymwneud ag ysgolion penodol).
- Y llywodraethwyr a'r ALl yn penderfynu ar y strwythur llywodraethu, sef aelodaeth a chyfansoddiad y corff llywodraethu ffederal (dylai cyrff lywodraethu ofyn am gyngor gan yr ALl).
- Cytuno ar enw ar gyfer y ffederasiwn – os nad oes modd i'r ALl a'r corff llywodraethu gytuno ar enw i'r ffederasiwn (y bydd rhaid ei gynnwys yn yr offeryn llywodraethu), yr ALl fydd yn penderfynu'n derfynol.
- Yr ALl a'r llywodraethwyr yn ystyried strwythur staffio a datblygiad hirdymor strwythur y ffederasiwn.

- Yr ALlau a'r cyrff llywodraethu yn ystyried a thrafod unrhyw faterion ariannol a materion adnoddau dynol.
- Ar yr adeg hon byddai'n ddefnyddiol hefyd ystyried amserlen ar gyfer ethol a phenodi llywodraethwyr i'r corff llywodraethu ffederal, i hwyluso symud ymlaen yn ddiweddarach.

**Cam 3: Yr adroddiad a'r ymgynghoriad**

- Dylai cyrff llywodraethu ofyn am gymorth gan yr ALl ynglŷn â'r broses ar gyfer cyhoeddi cynigion, gan gynnwys yr ymgynghoriad â rhanddeiliaid, a ddylai barhau am o leiaf 6 wythnos, ar gyfer ffederasiynau dan arweiniad cyrff llywodraethu a'r ALl. Er na phennir hynny'n benodol mewn rheoliadau, mae'n arfer da hepgor gwyliau o'r cyfnod hwnnw.

- Pan fo cyrff llywodraethu'n arwain y broses ffedereiddio, rhaid i'r adroddiad drafft fod yn eitem ar agenda cyfarfod o'r corff llywodraethu, y rhoddwyd o leiaf bum diwrnod gwaith clir o rybudd o'i gynnal. Pan fo cyfarfod rheolaidd nesaf y corff llywodraethu wedi ei drefnu ar gyfer dyddiad pell yn y dyfodol, gellir trefnu cyfarfod arbennig i drafod y mater uchod yn unig. Rhaid i bob corff llywodraethu unigol benderfynu a yw' dymuno mynd ymlaen ai peidio.
- Pan fo ALlau yn sefydlu ffederasiwn, caiff lunio adroddiad a mynd ymlaen i ymgynghori â'r rhanddeiliaid.
- Dylai'r adroddiad:
  - gynnwys manylion llawn y cynnig, gan gynnwys maint/cyfansoddiad ac enw'r corff llywodraethu sengl, y trefniadau a'r strwythur staffio, ar awdurdod(au) derbyniadau,
  - cynnwys y terfyn amser ar gyfer sylwadau sef 6 wythnos ar gyfer ffederasiwn a arweinir gan gorff llywodraethu, neu naill ai 20 diwrnod ysgol neu 6 wythnos ar gyfer ffederasiynau dan arweiniad ALl (yn dibynnu ar ba un ai ysgolion bach sy'n cael eu ffedereiddio ai peidio),
  - esbonio'r rhesymau dros y ffedereiddio a'i fanteision (a sut yr

ymdrinnid â heriau posibl),

- cynnwys y dyddiad ffedereiddio - mae'n rhaid iddo fod o leiaf 125 o ddiwrnodau o'r dyddiad y caiff y cynigion eu cyhoeddi, h.y. eu hanfon at randdeiliaid, neu100 ar gyfer ffederasiwn dan arweiniad ALl o ysgolion bach, a
- cynnwys unrhyw faterion eraill yr ystyrir yn briodol eu hanfon at y rhanddeiliaid, sef yr ALl (os cyrff llywodraethu sy'n arwain y ffederasiwn), rhieni, penaethiaid a staff yr holl ysgolion, disgyblion a chynghorau ysgol, undebau staff yr ysgolion, yr esgobaeth neu gorff perthnasol arall yn achos ffederasiwn o gymeriad crefyddol, llywodraethwyr sefydledig neu ymddiriedolwyr pan fônt yn berthnasol, ac unrhyw bersonau eraill a ystyrir yn briodol megis, er enghraifft, y gymuned leol gan gynnwys ysgolion nad ydynt yn rhan o'r ffederasiwn, fel bod y gymuned ehangach wedi ei chynnwys yn yr ymarferiad.

Yn ychwanegol, yn achos ffederasiynau a arweinir gan ALl, rhaid i'r ALl gynnwys yn yr adroddiad :

- cydsyniad unrhyw ALl arall, os oes ysgolion ar draws ffin yr ALl yn rhan o'r ffederasiwn,
- cydsyniad yr awdurdod esgobaethol priodol neu'r personau sy'n penodi llywodraethwyr sefydledig, os yw'r ysgolion a ffedereiddir yn ysgolion gwirfoddol neu'n ysgolion sefydledig.

**Casglu safbwyntiau rhanddeiliaid**

- Rhaid cyhoeddi cynigion i ffedereiddio trwy'u hanfon at y rhanddeiliaid canlynol – unrhyw ALl perthnasol; pennaeth pob ysgol a gynhwysir yn y cynigion; cyngor ysgol pob un o'r ysgolion; yr holl staff a gyflogir i weithio yn yr ysgolion; rheini'r disgyblion cofrestredig; yr holl undebau llafur; yr esgobaeth neu'r corff crefyddol priodol (os yw'n berthnasol); y llywodraethwyr sefydledig ac unrhyw ymddiriedolwyr yn achos ysgolion

sydd â sefydliad; ac unrhyw bersonau perthnasol eraill y tybia'r corff llywodraethu y dylent weld y cynigion.

- Rhaid rhoi'r cynigion ar gael ar ffurf copi caled, i'w harchwilio yn yr ysgolion a gynhwysir yn y cynigion ffedereiddio; ac os yr ALl sy'n cynnig ffedereiddio, rhaid cyhoeddi'r cynigion yn electronig ar wefan yr ALl.
- Yn achos ffederasiwn o ysgolion bach yn unig, nid yw'n ofynnol bod ALlau yn anfon cynigion at, ac yn gwahodd sylwadau gan, neb ond y corff llywodraethu a chyngor yr ysgol ym mhob un o'r ysgolion, gan roi 20 diwrnod ysgol iddynt ymateb.
- Rhaid anfon copïau o'r cynigion at ALlau perthnasol eraill, os oes ysgolion yn y ffederasiwn sydd ar draws ffin yr ALl; at bob pennaeth; os yw'n berthnasol, at awdurdodau esgobaethol neu gyrff crefyddol eraill; ac at y llywodraethwyr sefydledig neu ymddiriedolwyr, os yw'n briodol.
- Bydd angen ystyried sut y bydd y disgyblion a'r cynghorau ysgol yn cael gwybodaeth. Oherwydd bod cynigion ffedereiddio yn fater cymhleth, gellid cyflawni hyn trwy gael aelod o gorff llywodraethu'r ysgol (y pennaeth fyddai'r dewis gorau) neu'r ALl i esbonio'r cynigion wrth gyngor yr ysgol; a/neu baratoi taflen wybodaeth mewn iaith sy'n 'hawdd i'w darllen a'i deall'; a rhoi gwybod i bob disgybl fod copi llawn o'r cynnig i ffedereiddio ar gael i bawb sy'n gofyn am ei weld.
- Ar gyfer ffederasiynau sy'n cynnwys ysgolion bach, hwyrach y bydd ALlau yn dymuno ystyried hefyd ffyrdd y gellir cyflwyno gwybodaeth i rieni, wrth gasglu eu safbwyntiau, gan nad yw rhieni wedi eu cynnwys yn y rhestr o randdeiliaid y mae'n orfodol ymgynghori â hwy o dan y rheoliadau. Gallai hyn gynnwys darparu fersiwn gryno o'r cynigion iddynt.
- Yn ychwanegol, mewn unrhyw ffederasiwn, gallai fod yn fuddiol darparu taflen o wybodaeth i'r rhieni ar ffurf rhestr o gwestiynau ac atebion ynglŷn â'r mathau o faterion a phryderon y mae rhieni (a staff) yn debygol o'u codi. Mae Atodiad 10 yn cynnwys awgrym ar gyfer taflen wybodaeth. Cynhwysir dogfen cwestiynau ac atebion gynhwysfawr hefyd yn Atodiad 9.
- Pan fo llywodraethwyr ac ALlau yn rhoi fersiwn gryno o'r cynigion

ffedereiddio i rieni, staff, disgyblion a chynghorau ysgol, rhaid iddynt eu hysbysu hefyd fod copi cyflawn o'r cynnig ar gael os gofynnir amdano. Byddai'n fuddiol hefyd ddarparu dolen uniongyrchol i wefan yr ALl neu wefan yr ysgol.

**Cam 4: Diffinio**

Dylai arweinwyr ysgolion, yr ALl ar cyrff llywodraethu, ar ôl ymgynghori âi gilydd:

- dechrau ystyried a diffinio rolau'r arweinwyr ledled y ffederasiwn.
- dechrau llunio disgrifiadau swydd a chontractau ar gyfer unrhyw swyddi a rolau newydd
- llunio strwythur staffio arfaethedig

**Cam 5: Camau i'w cymryd ar ôl ymgynghori â'r rhanddeiliaid**

- Cyfarfod ar y cyd o'r cyrff llywodraethu i ystyried ymatebion, os y cyrff llywodraethu sy'n sefydlu ffederasiwn. Byddai'n fuddiol cynllunio'r cyfarfod ar ddechrau'r broses ymgynghori fel y gellir ei gynnal gyda'r holl aelodau yn bresennol cyn gynted â phosibl ar ôl hynny.
- Os oes cyd-bwyllgor o'r cyrff llywodraethu wedi ei sefydlu, gallai lunio adroddiad cryno o'r ymatebion ar ;gyfer ei ystyried gan y cyrff llywodraethu llawn. Pe gofynnid iddo, gallai'r ALl lunio'r adroddiad cryno.
- Ar gyfer ffederasiwn a arweinir gan yr ALl, rhaid i'r ALl ystyried yr ymatebion a chyhoeddi crynodeb ohonynt ynghyd â sylwadau'r ALl, ar wefan yr ALl.

**Cam 6: Gweithredu**

- Ar gyfer ffederasiynau dan arweiniad y cyrff llywodraethu, rhaid i'r cyrff llywodraethu unigol gyfarfod ar y cyd i benderfynu'n derfynol a ddylid mynd

ymlaen ai peidio, neu a ddylid addasu'r cynnig. Rhaid i unrhyw addasiadau beidio â chynnwys newid yr ysgolion sy'n ffedereiddio (h.y. tynnu ysgol allan a chynnwys un newydd). Gellid gwneud addasiad megis newid y dyddiad ffedereiddio, ar yr amod na fyddai'n gwneud y cyfnod rhwng cyhoeddi'r cynigion a ffedereiddio yn fyrrach na 125 diwrnod; neu newid nifer y llywodraethwyr yn y corff llywodraethu newydd. Er mwyn helpu'r cyrff llywodraethu i gydgysylltu'r rhan hon o'r broses, hwyrach y byddai'n fuddiol pennu dyddiad ar gyfer y cyfarfod hwn ar ddechrau'r broses ffedereiddio. Os nad yw'r cyrff llywodraethu a ffedereiddir yn gwbl gefnogol i'r bwriad i ffedereiddio, hwyrach y byddai'n ddoeth cynnal y cyfarfod mewn cyrchfan niwtral. Rhaid hysbysu'r ALl neu'r ALlau o'r penderfyniad.

- Os ysgogwyd y cynnig i ffedereiddio gan gorff llywodraethu, rhaid i'r corff hwnnw gwblhau'r broses oni fydd ALl yn cynnig bod ysgol neu ffederasiwn arall yn ymuno â'r ffederasiwn sydd dan ystyriaeth; os digwydd hynny, bydd yr ALl yn cymryd arweinyddiaeth y broses ffedereiddio.

- Er na phennir hynny mewn rheoliadau, dylai'r llywodraethwyr hysbysu rhanddeiliaid eraill o'r penderfyniad yn ogystal, h.y. rhieni, disgyblion, staff, etc.

- Os gwnaed cynnig i ffedereiddio gan ALl, yr ALl hwnnw a fydd yn penderfynu'n derfynol a ddylid ffedereiddio ai peidio, a rhaid cyhoeddi'r penderfyniad hwnnw ar wefan yr ALl. Rhaid iddo anfon copïau o'r penderfyniad hefyd at unrhyw ALl perthnasol arall; at bennaeth pob ysgol a gynhwysir yn y cynnig i ffedereiddio; llywodraethwyr sefydledig ac unrhyw ymddiriedolwr (os yw'n briodol); yr awdurdod esgobaethol neu unrhyw gorff crefyddol arall (os yw'n briodol) c at unrhyw berson arall yr ystyria'n briodol. Mae hyn yn gymwys hefyd wrth ffedereiddio ysgolion bach.

- Er nad yw'n ofynnol gwneud hynny, dylai'r ALl hysbysu'r cyrff llywodraethu o'r penderfyniad hefyd, a/neu unrhyw gyd-bwyllgor a sefydlwyd i oruchwylio'r broses o ffedereiddio.

- Pa un a arweinir y ffedereiddio gan gyrff llywodraethu neu gan ALl, byddai'n fanteisiol pe gallai ALlau drafod eu cynllun gweithredu gyda llywodraethwyr a phenaethiaid yr ysgolion perthnasol, fel bod pawb yn gyfarwydd â'r

gwahanol gamau yn natblygiad y ffederasiwn.

- Unwaith y bydd penderfyniad i ffedereiddio wedi ei wneud, dylai'r llywodraethwyr ymgynghori â'r ALl a'r esgobaeth (os yw'n briodol) ynghylch yr Offeryn Llywodraethu newydd, ac ynghylch ethol a phenodi llywodraethwyr newydd. Rhaid anfon copi o'r offeryn llywodraethu newydd at Weinidogion Cymru (gweler Adran 13)
- Rhaid i'r ALl ystyried trefniadau i ddarparu cymorth i lywodraethwyr yn yr ysgolion sy'n ffedereiddio, yn y cyfamser cyn bo'r corff llywodraethu wedi ei sefydlu.
- Rhaid ffurfioli rolau a chyfrifoldebau uwch arweinwyr.
- Os na sefydlwyd un eisoes, byddai'n fuddiol ffurfio cyd-bwyllgor neu weithgor llywodraethwyr i ymgymryd â chynllunio strategol a rhoi'r ffederasiwn ar waith fesul cam.
- Dylid dod i gytundeb gyda chymorth i lywodraethwyr yn yr All, i sicrhau parhad ledled yr ysgolion ffederal.

- **Rhaid i'r ALlau anfon copïau o'r Offerynnau Llywodraethu ar gyfer ffederasiynau at Lywodraeth Cymru yn SMED2, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.**

**Cam 7: Datblygu**

- Y corff llywodraethu sengl yn cyfarfod i ethol cadeirydd ac is-gadeirydd.
- Rolau newydd y staff ar waith (strwythur a phroses rheoli perfformiad).
- Y Cynllun Gwella Ysgolion yn targedu adnoddau ac arbenigedd er mwyn odi safonau ledled y ffederasiwn.
- Cysoni'r calendrau a'r prosesau proffesiynol.
- Ystyried sut y gall technolegau newydd gynorthwyo'r ffederasiwn i ddatblygu.

**Cam 8: Ymgorffori**

- Ceir cyfleoedd i ddefnyddio'r adnoddau a' staff yn hyblyg er mwyn codi safonau yn ysgolion y ffederasiwn. Pan benodir aelodau newydd o'r staff i ysgolion mewn ffederasiwn,  gellir rhoi contractau iddynt sy'n cynnwys 'cymalau symudedd' i'w galluogi i weithio mewn gwahanol ysgolion. Yn achos y staff presennol, byddai angen negodi  gyda'r staff a'r undebau sy'n eu cynrychioli  er mwyn cyrraedd  cytundeb cilyddol ar 'drefniant cludadwy'' o'r fath.
- Trwy ddefnyddio'r systemau monitro, bydd y penaethiaid yn adeiladu trosolwg ar effeithiolrwydd y ffederasiwn. Os penodwyd pennaeth sengl i fod yn gyfrifol am y ffederasiwn, y pennaeth hwnnw fydd gyfrifol am lunio'r trosolwg.  Os na phenodwyd pennaeth sengl o'r fath, gwneir hynny gan bennaeth pob ysgol yn y ffederasiwn.
- Bydd y llywodraethwyr, gyda chymorth yr ALl, yn adolygu'r ffederasiwn ac yn sefydlu systemau a strwythurau sy'n sicrhau gwybodaeth dda  am ysgolion unigol.
- Y llywodraethwyr yn cytuno ar strwythurau pwyllgorau a chalendr cyfarfodydd.

**Cam 9: Datblygu Strategol**

- Gall swyddogion allweddol yr ALl gynnig cymorth hyddysg. Bydd manteision eglur mewn enwebu un swyddog  penodol i weithredu fel y prif cyswllt.
- Trosolwg ar drefniadau'r ffederasiwn a'i effaith ar safonau'r ysgolion a'u gallu i wella.
- Cyfleoedd ehangach i ddatblygu yn broffesiynol ar gael i bob aelod o'r staff.
- Arferion, prosesau, polisïau a dogfennau enghreifftiol ar waith.

## 7. Ffedereiddio ysgolion newydd

7.1 Caiff ALlau ffedereiddio unrhyw ysgol newydd (naill ai ysgol a adeiledir o'r newydd neu ysgol sengl newydd a grëwyd drwy uno neu gau ysgolion blaenorol) gydag ysgol arall neu ysgolion eraill, neu ei ffedereiddio gyda ffederasiwn sy'n bodoli eisoes. Os nad oes corff llywodraethu dros dro wedi ei sefydlu ar gyfer yr ysgol newydd, bydd yr ALl yn gyfrifol am weithredu'r broses y byddai cyrff llywodraethu yn ei dilyn er mwyn ffedereiddio. Os oes corff llywodraethu dros dro wedi ei sefydlu ar gyfer yr ysgol neu ysgolion newydd arfaethedig, y corff llywodraethu dros dro hwnnw sy'n gyfrifol am reoli'r broses ffedereiddio.

7.2 Os yw ALl yn cynnig y dylai dwy neu ragor o ysgolion ffedereiddio, neu y dylent ffedereiddio ag un neu ragor o ysgolion eraill, neu y dylent ymuno â ffederasiwn presennol, caiff yr ALl sefydlu corff llywodraethu sengl dros dro ar gyfer yr ysgolion newydd. Os cynhelir y ddwy ysgol newydd gan wahanol ALlau, rhaid i'r ALlau gytuno rhyngddynt pa un ohonynt gaiff wneud trefniadau ar gyfer cyfansoddi corff llywodraethu sengl dros dro.

7.3 Pan fo ALl yn cynnig ffedereiddio ysgol wirfoddol newydd, rhaid iddo gael cydsyniad yr hyrwyddwyr yn gyntaf, cyn cymryd unrhyw gamau, a rhoi gwybod i'r hyrwyddwyr ar ba ddyddiad y mae'r ALl yn dymuno cychwyn y broses ffedereiddio.

## 8. Ffedereiddio ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir, ysgolion gwirfoddol a reolir ac ysgolion sefydledig

8.1 Nid oes pwerau gan ALlau nac ychwaith gan gyrff llywodraethu i ffedereiddio ysgolion gwirfoddol (a gynorthwyir neu a reolir) nac ysgolion sefydledig gydag ysgolion cymunedol, ysgolion arbennig cymunedol a meithrinfeydd a gynhelir. Esbonnir isod pam na chaniateir trefniant o'r fath.

8.2 Crëwyd cyrff llywodraethu yr ysgolion sefydledig a gwirfoddol, a chyrff sefydledig penodol eraill, o dan Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (DSFfY), a oedd yn darparu bod cyrff llywodraethu'r ysgolion sefydledig a gwirfoddol yn elusennau esempt.

8.3 Mewn cyfraith, corff llywodraethu'r ysgol sefydledig neu wirfoddol yw'r elusen – yr ysgol ei hunan yw gweithgaredd yr elusen honno. Mae Deddf Elusennau 2011 hefyd yn cadarnhau statws cyrff llywodraethu'r ysgolion sefydledig a gwirfoddol fel elusennau esempt; ac ar 1 Awst 2011, penodwyd Gweinidogion Cymru yn brif rheoleiddiwr ar gyfer yr elusennau hyn yng Nghymru. Fel y cyfryw, mae dyletswydd ar Weinidogion Cymru i wneud poeth y gallant yn rhesymol i hyrwyddo cydymffurfiaeth yr elusennau hyn â chyfraith elusennau.

8.4 Mae Llywodraeth Cymru o'r farn mai awdurdodau lleol, oherwydd yr trosolwg sydd ganddynt ar ddatblygiad addysg yn eu hardaloedd, sydd yn y sefyllfa orau i weld ffedereiddio yn ei gyd-destun strategol llawn. Gallant weld opsiynau a chyfleoedd na fyddai modd i ysgolion a chyrff llywodraethu unigol eu canfod. Fodd bynnag, prif ddyletswydd ymddiriedolwyr elusen bob amser yw gweithredu yn unig er budd yr elusen a'i buddiolwyr, a defnyddio adnoddau'r elusen i'r unig ddiben o hyrwyddo'i hamcanion elusennol. Felly, yn achos corff llywodraethu elusennol, rhaid i ymddiriedolwyr yr elusen roi sylw i'r ystyriaethau hynny, yn unig, sy'n berthnasol i fudd pennaf eu helusen, ei buddiolwyr a'i darpar fuddiolwyr. O ganlyniad, gallai rhai o'r ystyriaethau ehangach, sydd o bwys i awdurdodau lleol, fod yn faterion y byddai'r ymddiriedolwyr o dan ddyletswydd i'w hanwybyddu fel materion amherthnasol.

8.5 Pe bai awdurdod lleol neu gorff llywodraethu yn ffedereiddio ysgol, effaith hynny fyddai diddymu ac ailgyfansoddi cyrff llywodraethu. Yn achos corff llywodraethu ysgol sefydliadol neu wirfoddol, byddi hynny'n gyfystyr â diddymu ac ailgyfansoddi'r elusen ei hunan.

8.6 Byddai unrhyw lywodraethwyr a benodid i gorff lywodraethu ffederal ar gyfer ysgolion sefydledig neu wirfoddol yn dod yn ymddiriedolwyr elusen, gan ymgymryd â holl gyfrifoldebau cyfreithiol ymddiriedolwyr elusen mewn perthynas ag adnoddau'r ysgolion hynny. Eu dyletswydd blaenaf fyddai gweithredu er budd yr elusen a'i buddiolwyr. Mewn cyfraith, fodd bynnag, mae'n amhosibl i endid fod yn rhannol elusennol, neu'n elusen ac nid yn elusen yr un pryd. Dyna fyddai'r sefyllfa pe bai awdurdod lleol yn diddymu cyrff llywodraethu cymysgedd o ysgolion gwirfoddol a/neu sefydledig ac ysgolion cymunedol, ac yn cyfansoddi corff llywodraethu sengl ar gyfer y cymysgedd hwnnw o ysgolion.

8.7 Byddai unrhyw gynigion, felly, i ganiatáu i awdurdodau lleol eu ffedereiddio yn arwain ar greu strwythur a fyddai'n anghydnaws â statws elusennol cyrff llywodraethu'r ysgolion sefydledig a gwirfoddol, sydd yn elusennau.

8.8 Caiff elusennau gydweithio gyda chyrff nad ydynt yn elusennau (megis ysgolion cymunedol) a defnyddio'u hadnoddau ar y cyd â chyrff o'r fath, ond i'r graddau yn unig y bodlonir ymddiriedolwyr yr elusen (sef aelodau'r corff llywodraethu yn yr achos hwn) fod hynny'n hyrwyddo amcanion eu helusen. Pe bai awdurdod lleol yn penderfynu ffedereiddio un neu ragor o ysgolion gwirfoddol, byddai'n gosod ei farn ei hunan yn lle barn ymddiriedolwyr yr elusen. Gallai beri goblygiadau cyfreithiol i'r awdurdod lleol, a gallai trefniadau o'r fath i ffedereiddio'r ysgolion hyn wneud sefyllfa'r corff llywodraethu sengl yn anghynaladwy.

8.9 Ni fydd Rheoliadau Ffedereiddio 2014, felly, yn caniatáu ffedereiddio ysgolion of fath, ac eithrio ffedereiddio rhwng ysgolion cyffelyb o ran eu statws elusennol a/neu eu hethos crefyddol. Wrth wneud hynny rhaid i'r ALlau a'r cyrff llywodraethu gydweithio â'r ymddiriedolaethau a'r awdurdodau esgobaethol perthnasol i sicrhau bod pob ystyriaeth gyfreithiol wedi cael sylw, o ran uno ymddiriedolaethau elusennol a'r posibilrwydd o drosglwyddo asedau. Cynghorir awdurdodau lleol a chyrff

llywodraethu yn daer i ofyn am gyngor gan y Comisiwn Elusennau wrth ystyried trefniant o'r fath.

8.10  Pan fo ALl yn dymuno cynnwys ysgol wirfoddol a gynorthwyir, ysgol wirfoddol a reolir neu ysgol sefydledig yn ei gynigion ffedereiddio, rhaid iddo yn gyntaf gael cydsyniad yr esgobaeth a/neu'r ymddiriedolaeth berthnasol, cyn cymryd unrhyw gam pellach.

8.11  Ni chaniateir ffedereiddio ysgolion sefydledig ac eithrio gydag ysgolion sefydledig eraill.

8.12 Fodd bynnag, gŵyr Llywodraeth Cymru fod llawer o'r ysgolion hyn eisoes yn cydweithio'n glòs, a bod disgyblion yn trosglwyddo rhwng yr ysgolion yn aml.  Gallai'r anallu i ffedereiddio ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir, ysgolion gwirfoddol a reolir ac ysgolion sefydledig gydag ysgolion cymunedol effeithio ar gynigion i ad-drefnu ysgolion a gynlluniwyd gan yr awdurdodau lleol, a threfniadau a gytunwyd eisoes i ysgolion o gategorïau cymysg gydweithio o dan ffederasiwn.

## Cydlafurio

8.13. Er nad oed modd i'r ysgolion hyn ffedereiddi'n ffurfiol, gallant gydweithio'n glòs o dan drefniadau cydlafurio. Bydd Rheoliadau Cydlafurio Rhwng Cyrff Addysg (Cymru) 2012 yn caniatáu i gorff llywodraethu ffurfio cyd-bwyllgor o lywodraethwyr gydag ysgolion eraill. Er mwyn i'r cyd-bwyllgorau hyn weithio'n llwyddiannus, dylai'r 'rhiant-gyrff llywodraethu' bennu'r paramedrau ar gyfer cyfrifoldebau ac awdurdod y cyd-bwyllgor a darparu cylch gorchwyl eglur iddo. Dylid ystyried hefyd dirprwyo cyllideb fechan i'r cyd-bwyllgor i hwyluso'i waith.   Dylai'r cyd-bwyllgor adrodd yn ôl wrth y 'rhiant-gyrff llywodraethu' ynghylch unrhyw benderfyniadau a wneir ganddo.

8.14 Byddai cydlafurio trwy gyd-bwyllgor yn caniatáu i ysgolion elwa ar rai o'r manteision a restrir yn Adran 4, megis dull cyffredin o gyflwyno'r cwricwlwm, adolygu a rhannu polisïau a rhannu cyfleusterau. Rhaid i'r swyddogaethau y caiff cyd-bwyllgor eu hystyried gyfateb i'r cyfrifoldebau y caniateir eu dirprwyo i bwyllgor neu unigolyn yn

Rheoliad 50 o Reoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005 (Rheoliadau 2005). Fodd bynnag, ni chaiff cyrff llywodraethu ddirprwyo cyfrifoldeb i'r cyd-bwyllgor am y swyddogaethau penodi, diswyddo a disgyblu staff a'r swyddogaethau disgyblu disgyblion a bennir yn Rheoliadau 2005.

8.15 Caiff y cyd-bwyllgor gynnwys hefyd aelodau nad ydynt yn llywodraethwyr, hynny yw, nid yn llywodraethwyr yr ysgolion sy'n cydlafurio; a cheir rhoi hawliau pleidleisio i'r aelodau nad ydynt yn llywodraethwyr os yw'r cyrff llywodraethu yn cytuno, er na chaiff yr aelodau nad ydynt yn llywodraethwyr bleidleisio ar faterion cyllidebol, derbyniadau na materion sy'n ymwneud â disgyblion unigol neu aelodau unigol o'r os byddant wedi eu gwahardd rhag bod yn bresennol yn y cyfarfod.

## Rhannu llywodraethwyr

8.16 Yn unol ag Atodlen 5 i Reoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005, caniateir i berson fod yn llywodraethwr mewn dwy ysgol. Gallai trefniant o'r fath, sef 'rhannu llywodraethwyr' helpu ysgolion cymunedol ac ysgolion sydd ag ymddiriedolaeth elusennol i gydweithio'n agosach. Er enghraifft, pe bai gan riant blentyn mewn ysgol feithrin gymunedol, y trosglwyddir y mwyafrif o'r disgyblion ohoni i ysgol gynradd wirfoddol a gynorthwyir, a phlentyn arall gan y rhiant hwnnw yn ddisgybl yn yr ysgol wirfoddol honno, gallai'r rhiant hwnnw sefyll i'w ethol yn rhiant-lywodraethwr ar y ddau gorff llywodraethu.

8.17 Yn ogystal, mae'n debygol y byddai gan yr ysgol wirfoddol a gynorthwyir lywodraethwyr sefydledig sy'n cynrychioli'r plwyfi Eglwysig lleol a'r gymuned. Mae'n bosibl y gellid penodi'r llywodraethwyr hynny yn llywodraethwyr cymunedol ar gorff llywodraethu'r ysgol gymunedol. Yn yr un modd, gallai'r awdurdod lleol penodi'r un llywodraethwyr awdurdod ar gyfer y ddwy ysgol.

8.18 Ni chaiff athro-lywodraethwr neu staff-lywodraethwr etholedig fod yn llywodraethwr yn rhinwedd ei statws etholedig mewn unrhyw ysgol heblaw'r ysgol y'i cyflogir ynddi. Fodd bynnag, yn yr enghraifft a ddefnyddiwyd uchod, pe bai athro neu

aelod o'r staff yn athro-lywodraethwr neu'n staff-lywodraethwr yn yr ysgol gynradd wirfoddol a gynorthwyir, a hefyd yn rhiant plentyn sy'n ddisgybl yn yr ysgol feithrin gymunedol, gallai sefyll i'w ethol yn rhiant-lywodraethwr yn yr ysgol gymunedol, ac i'r gwrthwyneb.

8.19 Byddai defnyddio llywodraethwyr yn y modd a ddisgrifir uchod yn rhoi iddynt drosolwg strategol ar y ddwy ysgol, ac yn helpu'r cyrff llywodraethu i ddatblygu cysondeb yn eu hagwedd at lywodraethu, polisïau a gwella ysgolion. Trwy gydweithio'n agos, gallai llywodraethwyr ddefnyddio adnoddau i sefydlu strategaeth gydlynol ar gyfer dysgu a chyfleoedd cwricwlwm a fyddai'n cyflenwi gwell canlyniadau i'r disgyblion yn y ddwy ysgol.

8.20 Gallai sefydlu'r trefniadau hyn fod yn orchwyl pur gymhleth, a chynghorir cyrff llywodraethu ac awdurdodau lleol i drafod sut y gellir ei gyflawni. Mae'n hollbwysig hefyd cael trafodaeth rhwng y cyrff llywodraethu sy'n ceisio cael cytundeb ar drefniadau o'r fath.

## 9. Ffedereiddio ysgolion bach

9.1 Mae Mesur Addysg (Cymru) 2011 yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud Gorchymyn Ysgolion Bach sy'n diffinio maint ysgol fach. Gwnaed Gorchymyn o'r fath, sy'n diffinio ysgol fach fel ysgol sydd â nifer ei disgyblion yn llai na 91 ar y trydydd dydd Mawrth yn Ionawr yn union cyn y dyddiad y gwneir cynnig o dan adran 11 o'r Mesur (sef dyddiad cyhoeddi'r cynigion i ffedereiddio) i ffedereiddio ysgol dan sylw. Dewiswyd y dyddiad hwn i gyd-ddigwydd â'r dyddiad yn Ionawr pan fydd ysgolion yn cwblhau'r ystadegau a'r wybodaeth ar gyfer y Datganiad CYBLD.

9.2 Ceir ffedereiddio unrhyw ysgol sy'n dod o fewn y criterion hwn, ond bydd y broses o ffedereiddio ychydig yn fyrrach ac yn gwahaniaethu oddi wrth y broses ffedereiddio reolaidd yn y ffyrdd a ganlyn:

- ni fydd gofyn i'r ALl ymgynghori ac eithrio gyda'r corff llywodraethu a chyngor yr ysgol
- bydd y cyfnod ymgynghori wedi ei gwtogi o 6 wythnos i 20 diwrnod ysgol
- bydd y cyfnod tan y dyddiad ffedereiddio wedi ei gwtogi o 125 diwrnod ar ôl cyhoeddi'r cynigion i 100 diwrnod.

9.3 Pe bai nifer y disgyblion mewn ysgol a oedd yn ysgol fach yn cynyddu ar ôl cyhoeddi'r cynigion i fwy na 90, caiff yr ALl barhau i ffedereiddio'r ysgol honno fel pe bai'n ysgol fach.

9.4 Pan fo cynnig i ffedereiddio yn cynnwys ysgolion bach ynghyd ag ysgolion o faint cyffredin, rhaid dilyn y broses ffedereiddio arferol, sy'n cynnwys ymgynghori ar y cynigion gyda grŵp ehangach o randdeiliaid am gyfnod o 6 wythnos, ac aros am gyfnod hwy (125 diwrnod) cyn ffedereiddio.

9.5 Rhaid anfon cynigion cyhoeddedig yr ALl ar gyfer ffedereiddio at gorff llywodraethu a chyngor ysgol pob un o'r ysgolion, a rhaid iddynt gynnwys yr wybodaeth ganlynol:

- enwau'r cyrff lywodraethu
- maint arfaethedig y corff llywodraethu ffederal
- y niferoedd arfaethedig ym mhob categori o lywodraethwr
- y trefniadau staffio arfaethedig ar gyfer pob ysgol yn y ffederasiwn
- y dyddiad ffedereiddio arfaethedig, a fydd o leiaf 100 diwrnod ar ôl cyhoeddi'r hysbysiad o'r cynigion i ffedereiddio
- enw'r awdurdod derbyniadau
- cadarnhad y cafwyd cydsyniad unrhyw ALl arall os yw'r ffederasiwn sydd dan ystyriaeth yn croesi ffin yr ALl
- cadarnhad y cafwyd cydsyniad unrhyw esgobaeth, ymddiriedolaeth neu berson sy'n penodi'r llywodraethwyr sefydledig, ac
- unrhyw faterion eraill a ystyrir yn briodol gan yr ALl.

9.6 Dylai'r ALlau ystyried gwneud yr wybodaeth ar gyfer cynghorau ysgol mor ‘gyfeillgar i'r defnyddiwr’ ac mor addas ar gyfer oedran a lefel dealltwriaeth y plant ag y bo modd. Hwyrach y byddai'n fanteisiol hefyd pe bai aelod o'r ALl ar gael i annerch cyngor yr ysgol ac ateb yn uniongyrchol unrhyw bryderon sydd gan y disgyblion ynghylch ffedereiddio a'i effaith arnynt hwy, a'r hyn y gallent ei ddisgwyl ar ôl ffedereiddio. Yn yr un modd, gall yr ALlau ystyried paratoi fersiwn gryno o'r cynigion ar gyfer rhieni, ynghyd â'r wybodaeth ar ffurf cwestiynau ac atebion a awgrymir yn Atodiad 10. Os gwneir hynny, rhaid i'r All esbonio ym mhle ar wefan yr ALl y gellir gweld copi o'r cynigion llawn, neu fod copïau o'r cynigion llawn ar gael i'w harchwilio yn yr ysgol.

9.7 Yn ogystal â chyhoeddi'r cynigion ar wefan yr ALl a rhoi copïau o'r hysbysiad cyhoeddedig ar gael ym mhob ysgol o fewn y ffederasiwn, rhaid i'r ALl anfon copïau ohono at:

- unrhyw ALl perthnasol,
- pennaeth pob ysgol a gynhwysir yn y cynigion,
- llywodraethwyr sefydledig ac ymddiriedolwyr (os yw'n gymwys), ac
- awdurdodau esgobaethol neu gyrff crefyddol eraill (os yw'n gymwys).

9.8 Ar ôl ymgynghori ar y cynigion, rhaid i'r ALl ystyried yr ymatebion a gafwyd a phenderfynu a ddylid mynd ymlaen â'r cynigion fel y'u cyhoeddwyd, ynteu eu diwygio neu'u haddasu, ynteu peidio â mynd ymlaen. Ni chaiff addasiad gynnwys tynnu ysgol allan o'r cynigion, nac ychwanegu ysgol nad oedd yn rhan o'r cynigion gwreiddiol. Rhaid anfon y penderfyniad hwn at y personau hynny a restrir ym mharagraff 9.7 ac i unrhyw berson arall a ystyrir yn briodol gan yr ALl, ac awgrymir y dylai hynny gynnwys cyrff llywodraethu'r ysgolion dan sylw.

9.9 Mae'r 20 diwrnod ysgol, y gwneir yn ofynnol yn y rheoliadau bod awdurdodau lleol yn eu caniatáu ar gyfer anfon ymatebion i'r cynigion at yr awdurdod lleol, yn cynnwys yn unig y diwrnodau pan fo'r ysgol yn agored, ac nid ydynt yn cynnwys unrhyw ddiwrnodau HMS. Yn ymarferol, mae 20 diwrnod ysgol fel arfer yn gyfystyr â 4 wythnos ysgol. Ni cheir sefydlu ffederasiwn o ysgolion bach cyn diwedd cyfnod o 100 diwrnod ar ôl cyhoeddi'r cynigion i ffedereiddio. Ar ôl caniatáu 20 diwrnod ysgol ar gyfer ymgynghori, defnyddir gweddill yr amser gan yr awdurdod lleol i ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad a gwneud trefniadau i sefydlu'r corff llywodraethu a throsglwyddo'r adnoddau, eiddo, tir, asedau a rhwymedigaethau. Gan gymryd y byddai awdurdodau lleol yn gweithio ar y cynigion hyn yn ystod yr wythnos mae'r cyfnod o 80 diwrnod yn gyfystyr ag 16 wythnos waith.

# 10. Ysgolion sy'n gadael ffederasiwn neu ddiddymu ffederasiwn

10.1 Dylid ystyried ffederasiwn yn drefniant ar gyfer y tymor canol neu'r tymor hir, ac yn aml bydd arnynt angen amser i sefydlogi. Oherwydd hynny, dylai cyrff llywodraethu ac ALlau ystyried yn ofalus iawn cyn cynnig y dylid tynnu ysgol neu ysgolion allan o ffederasiwn, neu ddiddymu'r ffederasiwn rywfodd arall.

## Ysgolion sy'n gadael ffederasiwn a sefydlwyd gan ALl

10.2 Ni chaiff ysgolion sydd wedi eu cynnwys mewn ffederasiwn a sefydlwyd gan ALl adael y ffederasiwn ac eithrio pan fo'r ALl arweiniol yn cydsynio i gais a wnaed mewn ysgrifen. Fodd bynnag, os yw'r ysgol yn ddarostyngedig i ymyriad gan Weinidogion Cymru neu gan ALl, rhaid gofyn am ganiatâd i adael y ffederasiwn gan y personau hynny.

10.3 Wrth ofyn yn ffurfiol am ganiatâd gan yr ALl i ysgol adael ffederasiwn, rhaid i gorff llywodraethu sicrhau bod y cais ysgrifenedig wedi ei lofnodi gan o leiaf un o'r canlynol:

- dau neu ragor o lywodraethwyr,
- yr ALl,
- pumed ran o rieni'r disgyblion cofrestredig yn yr ysgol dan sylw,
- dwy ran o bump o'r staff o dan gontract cyflogaeth yn yr ysgol dan sylw,
- ymddiriedolwyr yr ysgol neu ysgolion (os yw'n berthnasol),
- y corff sydd â hawl ganddo i benodi llywodraethwyr sefydledig (os yw'n berthnasol).

10.4 Pan wneir cais ffurfiol i ALl am gael gadael ffederasiwn, rhaid i'r ALl sy'n cynnal yr ysgol sicrhau y rhoddir hysbysiad o'r cais i bob un o'r personau canlynol, o fewn pum diwrnod clir ar ôl cael y cais am gael gadael y ffederasiwn:

- yr holl ALlau perthnasol,

- pennaeth neu bennaeth gweithredol y ffederasiwn os penodwyd un, neu os na wnaed penodiad o'r fath, pennaeth neu bennaeth gweithredol pob ysgol yn y ffederasiwn,
- pob aelod o'r staff a gyflogir i weithio yn yr ysgol neu ysgolion sy'n dymuno gadael y ffederasiwn,
- rhieni pob disgybl cofrestredig yn yr ysgol neu ysgolion sy'n dymuno gadael y ffederasiwn,
- pob undeb llafur perthnasol,
- ymddiriedolwyr unrhyw ysgol yn y ffederasiwn (nid yr ysgolion hynny'n unig sy'n dymuno gadael y ffederasiwn) (os yw'n berthnasol),
- yr esgobaeth neu gorff crefyddol priodol arall os yw'r ysgol yn ysgol ffydd (os yw'n berthnasol)
- y corff sydd â hawl i benodi llywodraethwyr sefydledig (os yw'n berthnasol).
- unrhyw bersonau eraill a ystyrir yn briodol gan yr ALl.

10.5 Bydd yr ALl wedi cael copi o'r cais os anfonir ef at y Prif Swyddog Addysg.

10.6 Caniateir o leiaf 14 diwrnod i'r ALl, ar ôl y dyddiad y cafwyd yr hysbysiad o'r cais am gael gadael y ffederasiwn, i ystyried y cynigion ac unrhyw sylwadau a wneir gan unrhyw barti a hysbyswyd yn ffurfiol o'r cynigion, fel yr amlinellir ym mharagraff 10.4 uchod.

10.7 Unwaith y bydd penderfyniad wedi ei wneud, dylai'r ALl, o fewn pum diwrnod gwaith, hysbysu'n ffurfiol yr holl bobl berthnasol, fel y pennir ym mharagraff 10.4 uchod, naill ai:

- y dylai'r ysgol neu'r ysgolion adael y ffederasiwn, ac os felly, ar ba ddyddiad, neu
- os dwy ysgol yn unig sydd yn y ffederasiwn ar yr adeg y gwneir y cais, ar ba ddyddiad y diddymir y ffederasiwn, neu
- na ddylai'r ysgol neu'r ysgolion adael y ffederasiwn.

10.8 Os cytunir y dylai ysgol adael ffederasiwn, neu y dylai ffederasiwn gael ei

ddiddymu rywfodd arall, dylai'r ALl gytuno ar y dyddiad y bydd hynny'n digwydd, a rhaid i'r dyddiad hwnnw fod ymhen 125 diwrnod, o leiaf, ar ôl y dyddiad y gwneir y penderfyniad. Mae'r cyfnod hwn o 125 diwrnod yn gymwys hefyd yn achos ysgolion bach sy'n gadael ffederasiwn, gan y bydd yr ALl yn defnyddio'r amser i sefydlu corff llywodraethu dros dro.

10.9 Unwaith y penderfynir bod ysgol i adael ffederasiwn, neu fod ffederasiwn i gael ei ddiddymu, dylai'r ALl sefydlu corff llywodraethu dros dro ar gyfer yr ysgol(ion) a ddadffedereiddiwyd yn unol â Rheoliadau Ysgolion a Gynhelir Newydd (Cymru) 2005 a Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005. Rhaid i'r ALl ystyried hefyd faint y gyllideb y dylid ei dyrannu i gorff llywodraethu dros dro, a throsglwyddo unrhyw dir, eiddo, hawliau neu rwymedigaethau. Caiff y corff llywodraethu dros dro ei ymgorffori fel corff llywodraethu'r ysgol ar y dyddiad dadffedereiddio.

## Ysgolion sy'n gadael ffederasiwn a sefydlwyd gan gyrff llywodraethu

10.10 Ni chaiff ysgolion a gynhwyswyd mewn ffederasiwn a sefydlwyd gan gyrff llywodraethu adael y ffederasiwn ac eithrio pan fo'r corff llywodraethu ffederal yn cydsynio i gais a wnaed mewn ysgrifen, neu pan fo'r corff llywodraethu ffederal yn gwneud y cynnig ei hunan. Os yw'r ysgol yn ddarostyngedig i ymyriad gan Weinidogion Cymru neu gan ALl, ni chaiff wneud cais am gael gadael ffederasiwn gan oni fydd y personau hynny wedi cydsynio ymlaen llaw

10.11 Rhaid i'r ysgol neu'r ysgolion sy'n dymuno gadael y ffederasiwn sicrhau bod y cais ysgrifenedig wedi ei lofnodi gan o leiaf un o'r canlynol:

- dau neu ragor o lywodraethwyr,
- pumed ran o rieni'r disgyblion cofrestredig yn yr ysgol neu ysgolion perthnasol,
- dwy ran o bump o'r staff a gyflogir i weithio yn yr ysgol neu ysgolion perthnasol,
- yr ALl,
- ymddiriedolwyr yr ysgol neu ysgolion (os yw'n berthnasol), neu
- y corff sydd â hawl ganddo i benodi llywodraethwyr sefydledig (os yw'n berthnasol)

10.12 Unwaith y bydd y corff llywodraethu ffederal wedi cael y cais, rhaid iddo anfon hysbysiad o'r cais at y personau canlynol o fewn pum diwrnod gwaith clir ar ôl y dyddiad y cafwyd y cais:

- yr holl ALlau perthnasol,
- pennaeth neu bennaeth gweithredol y ffederasiwn os penodwyd un, neu os na wnaed penodiad o'r fath, pennaeth neu bennaeth gweithredol pob ysgol yn y ffederasiwn,
- pob aelod o'r staff a gyflogir i weithio yn yr ysgol neu ysgolion sy'n dymuno gadael y ffederasiwn,
- rhieni pob disgybl cofrestredig yn yr ysgol neu ysgolion sy'n dymuno gadael y ffederasiwn,
- yr holl Undebau Llafur perthnasol,
- ymddiriedolwyr unrhyw ysgol yn y ffederasiwn (nid yr ysgolion hynny'n unig sy'n dymuno gadael y ffederasiwn) (os yw'n berthnasol),
- yr esgobaeth neu gorff crefyddol priodol arall os yw'r ysgol yn ysgol ffydd (os yw'n berthnasol),
- y corff sydd â hawl i benodi llywodraethwyr sefydledig (os yw'n berthnasol),
- unrhyw bersonau eraill a ystyrir yn briodol gan yr corff llywodraethu.

10.13 Bydd y corff llywodraethu wedi cael copi o'r hysbysiad os anfonir neu os rhoddir ef i gadeirydd y llywodraethwyr neu i glerc y corff llywodraethu.

10.14 Caniateir o leiaf 14 diwrnod, ar ôl y dyddiad y cafwyd y cais, i'r corff llywodraethu ystyried y cynnig. O fewn y cyfnod hwnnw, rhaid i'r corff llywodraethu ystyried hefyd unrhyw sylwadau a wnaed wrtho gan unrhyw barti a hysbyswyd yn ffurfiol o'r cynigion. Rhaid i'r penderfyniad i wneud cais ffurfiol am i ysgol adael ffederasiwn gael ei drafod gan y corff llywodraethu ffederal fel eitem ar yr agenda, mewn cyfarfod y rhoddir o leiaf bum diwrnod gwaith o rybudd ohono ymlaen llaw.

10.15 Unwaith y bydd penderfyniad wedi ei wneud, rhaid i'r corff llywodraethu ffederal, o fewn pum diwrnod gwaith, hysbysu'n ffurfiol mewn ysgrifen yr holl bersonau hynny a restrir ym mharagraff 10.12 uchod, naill ai:

- y dylai'r ysgol neu'r ysgolion adael y ffederasiwn, ac os felly, ar ba ddyddiad,

neu

- os dwy ysgol yn unig sydd yn y ffederasiwn ar yr adeg y gwneir y cais, ar ba ddyddiad y diddymir y ffederasiwn, neu
- na ddylai'r ysgol neu'r ysgolion adael y ffederasiwn.

10.16 Os cytunir y dylai ysgol neu ysgolion adael ffederasiwn, rhaid i'r dyddiad dadffedereiddio fod ymhen cyfnod o 125 diwrnod, o leiaf, ar ôl y dyddiad y gwneir y penderfyniad.

10.17 Unwaith y penderfynir bod ysgol i adael ffederasiwn a sefydlwyd gan gyrff llywodraethu, rhaid i'r ALl sefydlu corff llywodraethu dros dro ar gyfer yr ysgol(ion) a ddadffedereiddiwyd yn unol â Rheoliadau Ysgolion a Gynhelir Newydd (Cymru) 2005 a Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005.

10.18 Rhaid i'r ALl hefyd ystyried rhoi cyllideb ddirprwyedig i'r ysgolion a ddadffedereiddiwyd yn unol â'i Gynllun ar gyfer Ariannu Ysgolion, a throsglwyddo unrhyw dir, eiddo, hawliau neu rwymedigaethau.

## Diddymu ffederasiwn

### Ffederasiynau a sefydlwyd gan gyrff llywodraethu

10.19 Pan fo corff llywodraethu ffederasiwn yn penderfynu diddymu'r ffederasiwn neu'n penderfynu y dylai un o'r unig ddwy ysgol mewn ffederasiwn ymadael, rhaid i'r corff llywodraethu hysbysu'r personau canlynol o hynny o fewn 14 diwrnod ar ôl y penderfyniad i ddiddymu'r ffederasiwn. Rhaid i'r hysbysiad hefyd gynnwys dyddiad y diddymiad arfaethedig, a rhaid i'r dyddiad hwnnw fod ymhen 125 diwrnod, o leiaf, ar ôl y dyddiad y rhoddir yr hysbysiad, er mwyn i'r ALl gael digon o amser i sefydlu cyrff llywodraethu dros dro. Y personau y mae'n rhaid rhoi'r hysbysiad iddynt yw'r canlynol:

- yr holl ALlau perthnasol,
- pennaeth neu bennaeth gweithredol y ffederasiwn os penodwyd un, neu os na wnaed penodiad o'r fath, pennaeth neu bennaeth gweithredol pob ysgol yn y ffederasiwn,

- pob aelod o'r staff a gyflogir i weithio yn yr ysgolion yn y ffederasiwn,
- rhieni pob disgybl cofrestredig yn yr ysgolion yn y ffederasiwn,
- y llywodraethwyr sefydledig (os yw'n gymwys),
- unrhyw ymddiriedolwyr ysgol sydd ag ymddiriedolaeth (os yw'n briodol),
- yr esgobaeth berthnasol neu gorff crefyddol perthnasol arall (os yw'n briodol),
- yr holl undebau llafur perthnasol,
- unrhyw berson arall a ystyrir yn briodol.

10.20 Pan fo ALl yn cael hysbysiad i'r perwyl bod ffederasiwn i gael ei ddiddymu rhaid iddo sefydlu corff llywodraethu dros dro yn unol â Rheoliadau Ysgolion a Gynhelir Newydd (Cymru) 2005 a dyroddi offeryn llywodraethu newydd ar gyfer pob ysgol. Ar y dyddiad diddymu, bydd corff llywodraethu dros dro ym mhob ysgol yn cael ei ymgorffori fel y corff llywodraethu. Rhaid i'r ALlau hefyd benderfynu swm y gyllideb ddirprwyedig y dylai pob ysgol ei chael, a datrys materion ynglŷn ag unrhyw drosglwyddiadau tir, eiddo, hawliau a rhwymedigaethau.

**Ffederasiynau a sefydlwyd gan ALl**

10.21 Ystyrir bod ffederasiwn wedi ei sefydlu gan ALl naill ai os ysgogwyd y cam cyntaf yn y broses ffedereiddio gan All, neu os oedd ALl wedi ychwanegu ysgol at ffederasiwn a oedd yn bodoli eisoes ac a sefydlwyd gan gyrff llywodraethu . Pan fo ALl yn dymuno diddymu'r ffederasiwn neu'n penderfynu y dylai un o'r unig ddwy ysgol mewn ffederasiwn adael y ffederasiwn, rhaid iddo yn gyntaf roi hysbysiad o'i fwriad i wneud hynny o fewn 14 diwrnod clir ar ôl ei benderfyniad. Rhaid anfon yr hysbysiad at y personau canlynol:

- yr holl ALlau perthnasol,
- pennaeth neu bennaeth gweithredol y ffederasiwn os penodwyd un, neu os na wnaed penodiad o'r fath, pennaeth neu bennaeth gweithredol pob ysgol yn y ffederasiwn,
- pob aelod o'r staff a gyflogir i weithio yn yr ysgolion yn y ffederasiwn,
- rhieni pob disgybl cofrestredig yn yr ysgolion yn y ffederasiwn,
- y llywodraethwyr sefydledig (os yw'n gymwys),
- unrhyw ymddiriedolwyr ysgol sydd ag ymddiriedolaeth (os yw'n briodol),

- yr esgobaeth berthnasol neu gorff crefyddol perthnasol arall (os yw'n briodol),
- y corff sydd â hawl ganddo i benodi llywodraethwyr sefydledig,
- yr holl undebau llafur perthnasol,
- unrhyw berson arall a ystyrir yn briodol.

10.22 Ar ôl cyfnod o 14 diwrnod o leiaf rhaid i ALl ystyried yr holl ymatebion i'r cynigion i ddiddymu a phenderfynu a ddylid mynd ymlaen i ddiddymu ai peidio, ac os eir ymlaen, pennu dyddiad y diddymu. Rhaid i'r ALl hysbysu'r bobl a restrir ym mharagraff 10.21 o'i benderfyniad a chwblhau'r broses fel y pennir ym mharagraff 10.20.

10.23 Nid oes terfyn amser wedi ei bennu yn y rheoliadau ar gyfer diddymu ffederasiwn a sefydlu corff llywodraethu dros dro ar gyfer ysgolion gan ALlau. Y rheswm am hyn yw y byddai ALl yn gwybod ymlaen llaw am ei gynlluniau ei hunan i ddiddymu unrhyw ffederasiwn; neu byddai wedi cael cais i ddiddymu ffederasiwn gan gorff llywodraethu, a byddai'r cais hwnnw'n rhoi digon o amser iddo wneud y trefniadau angenrheidiol i sefydlu cyrff llywodraethu dros dro.

**Proses ar gyfer awgrymu, gan gorff llywodraethu, diddymu ffederasiwn a sefydlwyd gan ALl**

10.24 Pan fo corff llywodraethu ffederasiwn a sefydlwyd gan ALl yn penderfynu y dylid diddymu'r ffederasiwn, neu'n penderfynu y dylai un o'r unig ddwy ysgol yn y ffederasiwn ymadael, rhaid i'r corff lywodraethu yn gyntaf gael cydsyniad yr ALl sy'n cynnal.

10.25 Os rhoddir y cydsyniad, rhaid i'r corff llywodraethu roi hysbysiad o hynny ac o'r dyddiad diddymu arfaethedig (y mae'n rhaid iddo fod ymhen 125 diwrnod, o leiaf, ar ôl y dyddiad y cyflwynir yr hysbysiad) i'r personau canlynol, o fewn 14 diwrnod wedi i'r ALl roi ei gydsyniad:

- yr holl ALlau perthnasol,
- pennaeth neu bennaeth gweithredol y ffederasiwn os penodwyd un, neu os na wnaed penodiad o'r fath, pennaeth neu bennaeth gweithredol pob ysgol yn y ffederasiwn,

- pob aelod o'r staff a gyflogir i weithio yn yr ysgolion yn y ffederasiwn,
- rhieni pob disgybl cofrestredig yn yr ysgolion yn y ffederasiwn,
- y llywodraethwyr sefydledig (os yw'n gymwys),
- unrhyw ymddiriedolwyr ysgol sydd ag ymddiriedolaeth (os yw'n briodol),
- yr esgobaeth berthnasol neu gorff crefyddol perthnasol arall (os yw'n briodol),
- yr holl undebau llafur perthnasol,
- unrhyw berson arall a ystyrir yn briodol.

## 11. Pwerau Gweinidogion Cymru i gyfarwyddo ffedereiddio ysgolion sy'n peri pryder

11.1 O dan Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 ('Deddf 2013') mae pŵer gan Weinidogion Cymru i ymyrryd yn y modd y cynhelir ysgol sy'n peri pryder, a chyfarwyddo ffedereiddio ysgol o'r fath pan fo un neu ragor o'r seiliau isod ar gyfer ymyrryd yn gymwys, a'r ysgol wedi methu â chydymffurfio â hysbysiad rybuddio a ddyroddwyd gan yr ALl:

(1) safonau perfformiad disgyblion yn yr ysgol yn annerbyniol o isel; neu

(2) methiant yn y ffordd y rheolir neu y llywodraethir yr ysgol; neu

(3) ymddygiad neu weithredoedd disgyblion yn yr ysgol neu eu rhieni yn peryglu'n ddifrifol, neu'n debygol o beryglu'n ddifrifol, addysg unrhyw ddisgyblion yn yr ysgol; neu

(4) diogelwch disgyblion neu staff yr ysgol dan fygythiad (boed oherwydd methiant disgyblaeth neu fel arall); neu

(5) y corff llywodraethu neu'r pennaeth wedi methu, neu'n debygol o fethu, cydymffurfio â dyletswydd o dan y Deddfau Addysg; neu

(6) y corff llywodraethu neu'r pennaeth wedi gweithredu, neu'n bwriadu gweithredu, yn afresymol wrth arfer unrhyw un o'u swyddogaethau o dan y Deddfau Addysg.

11.2 Yn ychwanegol, caiff Gweinidogion Cymru ymyrryd heb roi hysbysiad rhybuddio:

- os bodlonir hwy fod un neu ragor o'r seiliau a restrir yn 1-6 ym mharagraff 11.1 uchod yn bodoli, a bod perygl cysylltiedig i iechyd a diogelwch sy'n galw am ymyrryd ar frys, neu
- os ystyriwyd, gan Estyn, fod gofyn i'r ysgol wella'n sylweddol neu weithredu mesurau arbennig.

11.3 Ni fydd Gweinidogion Cymru yn defnyddio'u pwerau i ymyrryd, oni fydd yr ALl

wedi methu ar ymyrryd, neu wedi ymyrryd yn annigonol.

11.4 Cyn dyroddi cyfarwyddyd ysgrifenedig, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r holl randdeiliaid perthnasol, a ddiffinnir yn adran 15 o Ddeddf 2013 fel y canlynol:

- Yr All,
- Y Cyrff Llywodraethu perthnasol,
- Y person sy'n penodi llywodraethwyr sefydledig (os yw'n gymwys), a'r
- Corff crefyddol priodol (os yw'n gymwys).

11.5 Unwaith y bydd cyfarwyddyd wedi ei roi, rhaid i gorff llywodraethu'r ysgol neu'r ALl sicrhau y cydymffurfir ag ef.

## 12. Cyfansoddiad ac aelodaeth cyrff llywodraethu ffederal

12.1 Roedd ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y Rheoliadau Ffedereiddio 2014 arfaethedig, a gynhaliwyd yn 2013, wedi ei seilio ar ganiatáu i nifer digyfyngiad o ysgolion ffedereiddio. Roedd aelodaeth arfaethedig y gwahanol fodelau ffedereiddio a bennwyd yn yr ymgynghoriad yn seiliedig ar y cysyniad hwnnw, ac yn edrych yn dra gwahanol i'r math o aelodaeth corff llywodraethu ffederal a bennid yn y Rheoliadau Ffedereiddio 2010 blaenorol.

12.2 Roedd mwyafrif o'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn gwrthwynebu cael ffederasiwn a fyddai'n cynnwys nifer digyfyngiad o ysgolion, gan y tybid y byddai ffederasiwn o'r fath yn amhosibl i'w reoli, ac yn ormod o waith i gorff llywodraethu ffederal, sengl gyda'i aelodau i gyd yn wirfoddolwyr. Nid oedd ymatebwyr yn gefnogol ychwaith i'r awgrym a gynigiwyd yn yr ymgynghoriad ynglŷn ag aelodaeth corff llywodraethu ffederal, oherwydd nad oedd yn caniatáu cydraddoldeb cynrychiolaeth ar y corff llywodraethu. Mewn ffederasiwn mawr, er enghraifft, ni fyddai gan rai ysgolion unrhyw riant-lywodraethwr i'w cynrychioli. Teimlai'r ymatebwyr fod cynrychiolaeth o'r fath yn bwysig i'r ysgolion, ac y byddai'n atgyfnerthu'r dull newydd o weithio trwy gorff llywodraethu ar y cyd. Awgrymwyd y dylid gosod cap ar y nifer o ysgolion a ganiateir mewn ffederasiwn.

12.3 Ers yr ymgynghoriad ar y Rheoliadau Ffedereiddio 2014 arfaethedig, mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu Robert Hill i gynnal adolygiad o Ddarparu Gwasanaethau Addysg yng Nghymru yn y Dyfodol. Yn ei Adroddiad, mae Hill hefyd yn awgrymu y dylai corff llywodraethu ffederal, er mwyn bod yn effeithiol, lywodraethu a goruchwylio tua 6 ysgol.

12.4 Cytunodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau, yng ngoleuni'r ymatebion i'r ymgynghoriad a'r awgrymiadau yn Adroddiad Hill, y dylai'r rheoliadau osod cap o ddim mwy na 6 ar y nifer o ysgolion mewn ffederasiwn. Mae hyn yn caniatáu alinio aelodaeth corff lywodraethu ffederal yn nes at y cymarebau aelodaeth a bennir yn y Rheoliadau Ffedereiddio 2010 presennol.

12.5 Mae Hill yn ei adroddiad yn cyfeirio hefyd at yr angen i gyrff llywodraethu gynnal awdit o'r sgiliau a feddir gan y llywodraethwyr cyfredol e.e. profiad yn y maes ariannol neu adnoddau dynol, gan nodi unrhyw fylchau ac arbenigeddau a fyddai'n gwella'u

heffeithiolrwydd. Byddai hynny'n galluogi cyrff llywodraethu i recriwtio llywodraethwyr gyda sgiliau sy'n cyfateb i anghenion penodol y corff llywodraethu.

12.6  Nodir manylion  aelodaeth y gwahanol fodelau ffedereiddio yn Atodiad 6. Er bod y rhain yn debyg iawn i'r manylion aelodaeth corff llywodraethu a bennir yn Rheoliadau Ffedereiddio  2010, mae yna rai gwahaniaethau:

- gosodir terfyn o ddim mwy na dau riant-lywodraethwr i bob ysgol, ar gyfer pob math o  ysgol ar wahân i ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir,
- gosodir terfyn o ddim mwy na phedwar llywodraethwr ALl
- gosodir terfyn o ddim mwy na phedwar llywodraethwr cymunedol
- er mwyn cadw'r mwyafrif o lywodraethwyr sefydledig a sicrhau nad eir dros ben yr uchafswm o 27 o lywodraethwyr, ni chaniateir i ffederasiwn o ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir gael noddwr-lywodraethwr
- y pennaeth-lywodraethwr fydd naill ai pennaeth neu bennaeth gweithredol y ffederasiwn, os oes pennaeth wedi ei benodi ac nad yw wedi ymddiswyddo o fod yn llywodraethwr. Neu, os na phenodwyd person o'r fath, bydd pennaeth neu bennaeth gweithredol pob ysgol yn y ffederasiwn yn llywodraethwr, os nad yw'r person hwnnw wedi ymddiswyddo o fod yn llywodraethwr. Hepgorir o hyn unrhyw berson nad yw'n bennaeth cymwysedig a benodwyd yn priodol.

## Rhiant-lywodraethwyr

12.7  Mae'r rheoliadau'n gwneud yn ofynnol bod o leiaf un rhiant-lywodraethwr o bob ysgol yn y ffederasiwn yn aelod o'r corff llywodraethu.  Os nad oes rhiant-lywodraethwr yn sefyll i'w ethol, caiff corff llywodraethu'r ffederasiwn benodi:

a)  rhiant-lywodraethwr sy'n rhiant disgybl cofrestredig yn yr ysgol y mae'r lle yn wag ynddi;

b) rhiant disgybl cofrestredig arall mewn unrhyw ysgol yn y ffederasiwn; neu

c) rhiant plentyn sydd mewn oedran ysgol gorfodol (neu o dan oedran ysgol gorfodol

yn achos ysgol feithrin) o unrhyw le yn ardal yr awdurdod lleol

12.8 Rhaid i gyrff lywodraethu beidio â phenodi rhiant o (b) neu (c ) oni fyddant yn gyntaf wedi sicrhau nad oes unrhyw riant o'r ysgol y mae'r lle yn wag ynddi yn dymuno cael ei benodi fel yn (a) uchod.

12.9 Yn achos categorïau eraill o lywodraethwyr, fodd bynnag, nid oedd modd gwneud trefniadau cyffelyb er mwyn tegwch heb wneud maint y corff llywodraethu yn rhy fawr ac anhylaw, yn enwedig pan fo ffederasiwn yn cynnwys pedair, pump neu chwe ysgol. O ganlyniad, bydd rhaid i'r cyrff lywodraethu a'r awdurdodau lleol wneud rhai penderfyniadau ynglŷn â'r modd y penodir neu yr etholir llywodraethwyr eraill. Rhaid i gyrff llywodraethu gadw mewn cof fod yr holl ysgolion mewn ffederasiwn i'w hystyried yn gyfartal, waeth beth fo niferoedd y disgyblion neu'r staff. Yr egwyddor yw fod rhaid i bob llywodraethwr ar gorff lywodraethu ffederal weithio er budd yr holl disgyblion ac aelodau o'r staff yn yr ysgolion. Mae Gweinidogion Cymru yn disgwyl i ba bynnag system a fabwysiedir fod yn un deg. Wrth wneud dewisiadau, gall y cyrff llywodraethu a'r rhai sy'n penodi llywodraethwyr gadw mewn cof hefyd y manteision o gael llywodraethwyr sy'n meddu sgiliau penodol, a allai wella ac ychwanegu at effeithiolrwydd y corff llywodraethu.

## Athro-lywodraethwyr a Staff-lywodraethwyr a etholir

12.10 Hwyrach na fydd modd cael athro-lywodraethwr a staff-lywodraethwr o bob ysgol yn y ffederasiwn, ac y bydd rhain i gyrff lywodraethu ac awdurdodau lleol ofyn i staff yr holl ysgolion yn y ffederasiwn a ydynt yn dymuno sefyll ar gyfer eu hethol. Pan fo ysgolion gyda niferoedd mwy o staff wedi eu ffedereiddio ag ysgolion bach, gall y staff mewn ysgol fach fod yn pryderu nad oes digon o bleidleisiau ganddynt i sicrhau yr etholir aelod o staff eu hysgol yn llywodraethwr.

12.11 Mae'r rheoliadau ffedereiddio newydd yn cydnabod yr anhawster hwn. Mae rheoliad 36(5) yn pennu mai dwy flynedd yn hytrach na phedair blynedd fydd cyfnod swydd pob athro-lywodraethwr a staff-lywodraethwr. Nid yw rheoliadau 15 a 16 yn

caniatáu ethol athrawon neu aelodau eraill o'r staff yn llywodraethwr:

- os buont yn llywodraethwr ar y corff llywodraethu dan sylw o fewn y ddwy flynedd flaenorol, neu
- os cyflogir hwy i weithio yn yr un ysgol ffederal ag unrhyw athro neu aelod o'r staff a etholwyd yn llywodraethwr ar y corff llywodraethu hwnnw o fewn y ddwy flynedd flaenorol.

12.12 Dylai'r trefniadau hyn ddarparu rhywfaint o hyblygrwydd i'r ysgolion, a byddant yn gymorth i sicrhau rota o gyfleoedd i athrawon a staff ym mhob un o'r ysgolion i sefyll ar gyfer eu hethol yn llywodraethwyr.

## Llywodraethwyr awdurdod lleol a llywodraethwyr sefydledig

12.13 Mater i'r awdurdod lleol ac i'r corff sy'n penodi llywodraethwyr sefydledig fyddai pennu criteria ar gyfer penodi llywodraethwyr i gynrychioli eu buddiannau. Pan fo'r nifer sy'n gymwys i'w penodi'n llywodraethwyr yn fwy na'r nifer sydd ei angen, rhaid i'r penodwyr ystyried sut y gellir dewis y llywodraethwyr hynny gan ddefnyddio criteria cyfartal a theg, a chan gymryd i ystyriaeth anghenion y corff lywodraethu a'r sgiliau a fyddai'n eu helpu i fod yn effeithiol wrth wella perfformiad yr ysgolion.

## Llywodraethwyr cymunedol ychwanegol

12.14 Enwebir y llywodraethwyr hyn gan y cyngor cymuned i gynrychioli ei fuddiannau ar gorff llywodraethu ffederasiwn, pan fo'r ffederasiwn yn cynnwys ysgolion cynradd neu feithrin, o unrhyw gategori, a leolir o fewn ardal y cyngor cymuned. Mae'r llywodraethwyr hyn o dan ddyletswydd i ganolbwyntio ar wella ansawdd bywyd a'r amgylchedd lleol i breswylwyr o fewn yr ardal. Maent yn cyflawni rôl cwbl wahanol i i'r llywodraethwyr awdurdod lleol a'r llywodraethwyr cymunedol penodedig.

12.15 Mae aelodaeth corff lywodraethu ffederasiwn yn cynnwys cynrychiolaeth ar gyfer un llywodraethwr cymunedol ychwanegol. Os oes mwy nag un cyngor cymuned yn gwasanaethu ffederasiwn, ac felly mwy nag un person yn gymwys i'w enwebu i'r corff llywodraethu, caiff y corff llywodraeth wahodd enwebiadau gan bob un o'r cynghorau cymuned ac yna dewis llywodraethwr.

## Llywodraethwyr cymunedol a llywodraethwyr partneriaeth

12.16 Mae'n anochel y bydd ffederasiwn yn cwmpasu mwy nag un gymuned ysgol; a chyda'r niferoedd o lywodraethwyr a bennir yn y rheoliadau, hwyrach na fydd yn bosibl cael llywodraethwyr cymunedol i gynrychioli buddiannau pob un o'r cymunedau. Er mwyn bod yn effeithiol, mae angen llywodraethwyr medrus ar bob corff llywodraethu; ac y mae penodi llywodraethwyr cymunedol yn un ffordd y gall y corff llywodraethu 'ychwanegu gwerth' at gronfa sgiliau'r llywodraethwyr, a rheoli pwy all ddod yn llywodraethwr. Cyn penodi'r llywodraethwr cymunedol, byddai'n fuddiol pe bai'r corff llywodraethu'n cynnal awdit o sgiliau'r llywodraethwyr presennol, er mwyn canfod pa sgiliau ychwanegol sydd eu hangen arnynt i'w helpu i gyflawni eu swyddogaethau.

12.17 Yn yr un modd, pan fo corff llywodraethu yn gwahodd enwebiadau ar gyfer llywodraethwyr partneriaeth gan rieni disgyblion cofrestredig a'r gymuned ysgol, yr un egwyddorion sy'n gymwys a dylai'r corff llywodraethu fod yn gwbl eglur ynglŷn â'r criteria cymhwystra ar gyfer enwebu.

## Llywodraethwyr dros ben

12.18 Wrth wneud penderfyniadau ynglŷn â'r niferoedd o lywodraethwyr yr hoffent eu cael, neu'r niferoedd y mae'r rheoliadau yn caniatáu iddynt eu cael, gall beri pryder i'r llywodraethwyr fod y cyfyngiadau ar niferoedd yn eu rhwystro rhag cynnwys pob person y byddent yn dymuno. Fodd bynnag, nid oes raid i'r corff llywodraethu golli arbenigedd ac adnoddau dynol ychwanegol o'r fath; oherwydd gellid gwneud defnydd ohonynt mewn pwyllgorau.

12.19 Mae llywodraethwyr yn gwybod bod llawer o'r trafod a'r gwaith beunyddiol yn

digwydd ar lefel pwyllgor, er mwyn gadael i'r corff llywodraethu ganolbwyntio ar ei rôl strategol. Mae hyn yn arbennig o berthnasol yn achos ffederasiwn, pan fo'r corff llywodraethu yn gyfrifol am reolaeth mwy nag un ysgol. Er mwyn gwneud hynny'n llwyddiannus, bydd y corff llywodraethu'n dibynnu ar strwythur o bwyllgorau cefnogol a dibynadwy, a fydd yn cynnwys llywodraethwyr ac efallai eraill, nad ydynt yn llywodraethwyr ond sy'n meddu'r cymhelliad, yr arbenigedd a'r wybodaeth berthnasol i nweud penderfyniadau ac i adrodd yn ôl arnynt. Mewn ffederasiwn newydd, hwyrach y byddai defnyddio cyn-lywodraethwyr o bob un o'r ysgolion unigol yn y modd hwn yn helpu aelodau'r corff llywodraethu ffederal newydd i gydweithio yn haws.

## 13. Offerynnau llywodraethu

13.1 Mae'n ofynnol bod ALlau yn sicrhau bod gan ffederasiwn o ysgolion offeryn llywodraethu wedi ei fabwysiadu erbyn y dyddiad ffedereiddio, sef dyddiad ymhen 125 diwrnod, o leiaf, ar ôl y dyddiad y cyhoeddir y cynigion i ffedereiddio, neu 100 diwrnod o leiaf os yw'r ffederasiwn a sefydlir yn ffederasiwn o ysgolion bach.

13.2 Mae rheoliad 43 o reoliadau ffedereiddio 2014 yn pennu'r wybodaeth y mae'n rhaid ei chofnodi yn yr offeryn llywodraethu, sy'n cynnwys enw'r ffederasiwn ac enwau a chategorïau'r ysgolion a ffedereiddir.

13.3 Mae rheoliad 46 hefyd yn gwneud yn ofynnol bod ALlau yn anfon copïau o'r offeryn llywodraeth, yn ddi-dâl, at **Weinidogion Cymru** ac at y bobl ganlynol:

- pob aelod o gorff llywodraethu'r ffederasiwn,
- pennaeth y ffederasiwn os penodwyd pennaeth. Os na wnaed penodiad o'r fath, pennaeth pob ysgol yn y ffederasiwn, pa un a yw'r pennaeth yn aelod o'r corff llywodraethu ai peidio,
- yr esgobaeth neu'r corff crefyddol perthnasol (os yw'n briodol).

13.4 Rhaid rhoi gwybod hefyd i'r personau hyn unrhyw amrywiadau yn yr offeryn, gan gynnwys, ond nid yn gyfyngedig i'r canlynol:

- newidiadau yn niferoedd y llywodraethwyr,
- newid enw'r ffederasiwn,
- enw unrhyw ysgol sy'n gadael y ffederasiwn, a'r dyddiad ymadael,
- y dyddiad y mae'r ffederasiwn i gael ei ddiddymu.

13.5 Disgwylir i'r ALl a'r corff llywodraethu ddod i gytundeb ar unrhyw newidiadau yn yr offeryn llywodraethu. Fodd bynnag, mae rheoliad 44 (6) yn gwneud yn eglur, pe digwyddai unrhyw anghydfod ynglŷn â'r wybodaeth a gynhwysir yn yr offeryn, mai'r ALl sydd i wneud y penderfyniad terfynol.

13.6 Er mwyn bodloni'r gofyniad i anfon copïau o'r offeryn llywodraethu at Weinidogion Cymru, dylid anfon copïau electronig i smed2@wales.gsi.gov.uk
Ac anfon copïau papur i:

SMED2,
Llywodraeth Cymru,
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

## 14. Penodi penaethiaid a dirprwy benaethiaid

14.1 Swyddi'r pennaeth a'r dirprwy bennaeth mewn ysgol yw'r penodiadau pwysicaf y mae'n rhaid i'r llywodraethwyr eu gwneud. Mae sicrhau pennaeth a dirprwy sy'n meddu'r profiad yr wybodaeth a'r sgiliau yn fater critigol os yw'r ysgol i wella'i pherfformiad. Dichon fod hynny bwysicach byth mewn ffederasiwn lle y gall un pennaeth a'i ddirprwy fod yn gyfrifol am nifer o ysgolion.

14.2 Er mwyn cynorthwyo ysgolion sy'n ffedereiddio i greu strwythur uwch reoli sy'n addas i'w hanghenion, bydd cyrff lywodraethu yn awyddus i sicrhau mai'r personau mwyaf addas s benodir i'r swyddi hyn. Bydd y Rheoliadau Staffio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) (Diwygio) 2014 newydd, y disgwylir iddynt ddod i rym ym mis Gorffennaf 2014, yn diwygio Rheoliadau Staffio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2006 (‘rheoliadau staffio 2006’) i ganiatáu i gyrff llywodraethu benderfynu peidio â hysbysebu swyddi penaethiaid a dirprwy benaethiaid yn genedlaethol o dan rai amgylchiadau, fel y nodir isod.

### Penodi pennaeth a dirprwy bennaeth sengl ffederasiwn

14.3 Lle y caiff pennaeth a dirprwy bennaeth sengl eu penodi fel rhai a fydd yn gyfrifol am yr holl ddisgyblion sy’n rhan o’r ffederasiwn gallai pennaeth neu ddirprwy bennaeth bresennol o fewn yr ysgolion sy’n cael eu ffedereiddio fynegi diddordeb mewn ymgeisio am y swyddi pennaeth/dirprwy bennaeth sengl yn ysgrifenedig i gyrff llywodraethu’r ysgolion sy’n cael eu ffedereiddio. Pan fo mwy nag un pennaeth neu ddirprwy bennaeth presennol yn mynegi diddordeb mewn ymgeisio am y swydd wag o bennaeth sengl neu ddirprwy bennaeth sengl, dylid cyfweld yr ymgeiswyr er mwyn dewis y person mwyaf priodol. Caiff yr ysgolion sy'n ffedereiddio sefydlu cyd-banel cyfweld a fyddai'n cynnwys llywodraethwyr o'r ysgolion sy'n ffedereiddio. Os nad oes ond un pennaeth neu ddirprwy bennaeth o'r ysgolion sydd i'w ffedereiddio yn mynegi diddordeb mewn ymgeisio am swyddi'r pennaeth /dirprwy bennaeth, dylai'r cyrff llywodraethu, er gwaethaf hynny, barhau i ystyried cyfweld y person hwnnw er mwyn sicrhau y dewisir yr ymgeisydd cywir

14.4 Os nad oes pennaeth neu ddirprwy bennaeth yn mynegi diddordeb mewn ymgeisio am swyddi'r pennaeth sengl a'r dirprwy bennaeth sengl, rhaid hysbysebu'r swyddi hynny yn genedlaethol yn unol â Rheoliadau Staffio 2006. Byddai angen i gyrff llywodraethu'r ysgolion sydd i'w ffedereiddio ffurfio panel penodi, a allai gynnwys llywodraethwyr sy'n gynrychiolwyr o'r ysgolion sy'n ffedereiddio, i sifftio'r ymgeiswyr a chynnal cyfweliadau.

14.5 Nid yw'r broses addasedig ym mharagraff 14.2 yn caniatáu i ddirprwy bennaeth neu bennaeth gweithredol ysgol yn y ffederasiwn, sydd wedi mynegi diddordeb yn swydd y pennaeth sengl, gael ei gyfweld yn syml ar gyfer y swydd honno. Er mwyn i ddirprwy bennaeth neu bennaeth gweithredol ymgeisio am swydd pennaeth, rhaid hysbysebu'r swydd yn genedlaethol.

## Penodi penaethiaid a dirprwy benaethiaid ym mhob un o'r ysgolion a ffedereiddiwyd

14.6 Pan fo cyrff llywodraethu'r ysgolion sydd i'w ffedereiddio yn penderfynu eu bod yn dymuno cadw pennaeth a dirprwy bennaeth ym mhob ysgol yn y ffederasiwn a bod un o’r penaethiaid/dirprwy benaethiaid yn gadael y swyddi ar ôl y ffedereiddio gall un o’r penaethiaid/dirprwy benaethiaid o fewn ysgol arall sy’n rhan o’r ffederasiwn gamu i mewn i swydd y pennaeth neu’r dirprwy bennaeth, a gallai’r corff llywodraethu benderfynu peidio â hysbysebu’r swyddi hynny’n genedlaethol. Nid yw’r broses hon yn caniatáu i ddirprwy bennaeth drosglwyddo i swydd pennaeth sy’n wag.

14.7 Os na fydd unrhyw bennaeth (neu ddirprwy bennaeth) o fewn un o’r ysgolion eraill sy’n rhan o’r ffederasiwn yn mynegi diddordeb yn y swyddi gwag bydd rhaid i'r swyddi pennaeth a'r swyddi dirprwy bennaeth ym mhob un o'r ysgolion unigol gael eu hysbysebu yn genedlaethol pan ânt yn wag. Bydd rhaid i gorff llywodraethu'r ffederasiwn ffurfio panel penodi yn unol â Rheoliadau Staffio 2006 i sifftio'r ymgeiswyr a chynnal cyfweliadau.

## Atodiad 1: Camau sydd i'w cymryd cyn ffedereiddio

Wrth baratoi ar gyfer ffedereiddio dylai cyrff llywodraethu ac ALlau (pan fônt yn sefydlu'r ffederasiwn) ystyried a yw'r canlynol ar waith:

- nodau a pholisïau'r ysgol, mewn perthynas â'r cwricwlwm; derbyniadau disgyblion; disgyblaeth disgyblion; Anghenion Dysgu Ychwanegol a gofal bugeiliol gan gynnwys lles ac ymddygiad, wedi'u pennu;
- y cwricwlwm yn cael ei ddarparu ac mae disgyblion yn ymdrechu i lwyddo yn yr ysgol;
- penderfyniadau ynghylch cyllideb yr ysgol wedi'u gwneud;
- digon o staff wedi'u penodi, a chydymffurfir â pholisïau Adnoddau Dynol;
- cydberthnasau da yn cael eu hyrwyddo rhwng yr ysgol a'r gymuned;
- rhieni yn cael y wybodaeth ddiweddaraf;
- y llywodraethwyr yn llunio Adroddiad Blynyddol ei lunio sy'n crynhoi'r camau a gymerwyd i gyflawni eu swyddogaethau.

Dylid cynnwys yr wybodaeth hon wedyn yn yr adroddiad sy'n cael ei lunio at ddibenion ymgynghori â rhanddeiliaid.

## Atodiad 2: Llunio adroddiad ar gyfer cyrff llywodraethu ysgolion ac ALlau sy'n arwain at gynnig i ffedereiddio, a chynnwys yr adroddiad sy'n gofyn barn y rhanddeiliaid

| **Penawdau** | **Manylion a awgrymir** |
|---|---|
| Cynnig | Nodi'r gofyniad i ffedereiddio o dan Reoliadau Ffedereiddio 2014, ac enw arfaethedig y ffederasiwn, os cytunwyd arno |
| Cefndir | Hanes byr o'r sefyllfa yn yr ysgolion dan sylw.<br><br>Unrhyw fanylion am y ffactorau sy'n sbarduno newid |
| Beth mae'n ei olygu i'ch ysgol | Gwella'r hyn sydd eisoes ar gael<br><br>Gwella disgyblion – gwella perfformiad yr ysgol<br><br>Yr holl fanteision<br><br>Unrhyw bryderon a sut y dylid mynd i'r afael â hwy |
| Y broses ffedereiddio | Manylion y broses fel y'u pennir yn y rheoliadau |
| Y broses ymgynghori | Gyda phwy yr ymgynghorir, a'r amserlen ar gyfer ffedereiddio, a ddylai gynnwys yr amserlen ar gyfer ymateb i'r ymgynghoriad.<br>Unrhyw drefniadau ar gyfer cyfarfodydd yn enwedig ar gyfer staff, undebau llafur a rhieni. |
| Cyfansoddiad y corff llywodraethu | Diffinio cyfansoddiad y corff llywodraethu newydd fel y'i nodir yn y Rheoliadau |
| Amodau ar gyfer ffedereiddio ysgolion yn llwyddiannus | • Hunaniaeth a rennir (h.y. daearyddiaeth neu ysgolion ffydd).<br>• Diben cyffredin (h.y. ethos a rennir; gweledigaeth ar y cyd o'r hyn y mae angen ei wneud i wella cyrhaeddiad) |

| | |
|---|---|
| | • Arweinyddiaeth gydlynol<br>• Datblygu a gwella diwylliant rheoli cryf<br>• Creu hinsawdd o ymddiriedolaeth, bod yn agored a pharodrwydd i gydweithio<br>• Neilltuo amser ac adnoddau i gynnal a datblygu'r ffederasiwn |
| Buddiannau a manteision y cyfleoedd a gynigir gan y ffederasiwn | Gan adeiladu ar lwyddiannau bydd y Ffederasiwn yn gwneud y canlynol:<br><br>• Datblygu ffocws cryf a chyson ar godi safonau a gwella perfformiad ysgolion<br>• Sicrhau y caiff llywodraethwyr ddigon o gymorth a chyfle i ddatblygu<br>• Creu cyfleoedd i ymestyn y cwricwlwm a gweithgareddau allgyrsiol<br>• Rhannu a meithrin gwybodaeth a sgiliau<br>• Sicrhau diwylliant o ddysgu rhwydweithiol<br>• Arweinyddiaeth wedi'i dosbarthu;<br>• Rhannu llety, cyfleusterau a chyfarpar<br>• Osgoi dyblygu<br>• Sicrhau arbedion maint<br>• Meithrin gallu<br>• Bod â pholisïau sengl |
| Arweinyddiaeth a Staffio | • Cyfle i wella strwythurau Arwain a Rheoli<br>• Adolygu pob agwedd ar staffio gan gynnwys addysgu a staff ategol |
| Derbyniadau | Polisïau cyfredol |

## Atodiad 2 (Parhad) - Cynnwys yr Adroddiad sy'n gofyn barn y rhanddeiliaid - Crynodeb

1. Amlinelliad byr o'r ysgol a'r corff llywodraethu.

2. Nodau a pholisïau'r ysgol:

- Cadarnhad bod gan yr ysgol ddatganiad o nodau a pholisïau mewn perthynas â'r cwricwlwm; derbyniadau disgyblion; disgyblaeth disgyblion; anghenion dysgu ychwanegol a gofal bugeiliol gan gynnwys lles ac ymddygiad

- Unrhyw fylchau a meysydd sylweddol ar gyfer datblygu polisi

3. Cadarnhad bod gofynion y cwricwlwm cenedlaethol yn cael eu bodloni a sylwadau pwysig ynghylch cyrhaeddiad a chyflawniad disgyblion sy'n seiliedig, er enghraifft, ar asesiad athrawon ac adroddiadau arolygu diweddar.
4. Materion allweddol o ran cyllideb yr ysgol, er enghraifft, y sefyllfa/datganiad ariannol presennol a rhagamcanion o ran nifer y disgyblion.

5. Cydymffurfiaeth â pholisïau adnoddau dynol ac unrhyw faterion staffio fel y bo'n berthnasol ac yn briodol i'r adroddiad hwn.

6. Unrhyw eitemau pwysig o ran cyflwr yr adeilad a'r safle y bydd angen mynd i'r afael â hwy, o bosibl, yn y dyfodol.
7. Disgrifiad byr o natur ac ansawdd cydberthnasau rhwng yr ysgol a'r gymuned.
8. Cadarnhad bod y corff llywodraethu wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran llunio Adroddiad Blynyddol.
9. Unrhyw wybodaeth ac eitemau eraill y mae corff llywodraethu'r ysgol o'r farn ei bod yn bwysig eu cofnodi cyn iddo gael ei ddiddymu a chyn y dyddiad ffedereiddio.

Os bydd ysgol yn ymuno â Ffederasiwn sy'n bodoli eisoes, gwneir datganiad byr sy'n cadarnhau y darperir holl gofnodion a phapurau corff llywodraethu'r ysgol i gorff llywodraethu'r ysgol ffederal.

Llofnodwyd:……………………… ……….(Cadeirydd y Llywodraethwyr)

Llofnodwyd: ……..........................................(Pennaeth)

Dyddiad:…………………………………………

## Atodiad 3: Llunio adroddiad ar yr ymatebion a gafwyd gan randdeiliaid i gynigion ffedereiddio a arweinir gan gyrff llywodraethu ac ALlau

Argymhellir y dylai'r adroddiad hwn gynnwys enwau'r ysgolion ac ymdrin â'r eitemau canlynol:

### Cyflwyniad

- Dyddiad cyhoeddi'r cynnig, dyddiad derbyn yr ymatebion a hyd y cyfnod ymgynghori.
- Dyddiad y cyfarfod i ystyried a dadansoddi ymatebion i'r cynnig.
- Cofnod o'r rhai a oedd yn bresennol yn y cyfarfod i ystyried/dadansoddi'r ymatebion.

### Dadansoddiad o'r ymatebion i'r ymgynghoriad

Er mwyn sicrhau bod y rhan hon o’r broses yn haws, pan fydd cyrff llywodraethu’n sefydlu ffederasiwn awgrymir bod gweithgor yn cael ei sefydlu yn cynnwys cynrychiolwyr o’r cyrff llywodraethu er mwyn ystyried yr ymatebion i’r cynnig a pharatoi crynodeb ar gyfer yr Awdurdodau Lleol a’r cyrff llywodraethu perthnasol. Gall fod yn union yr un grŵp â'r un a luniodd yr adroddiad cychwynnol ar y cynnig i ffedereiddio. O safbwynt ffederasiynau a gaiff eu harwain gan awdurdod lleol, bydd yr awdurdod lleol yn ystyried yr ymatebion ac yn penderfynu a ddylid bwrw ymlaen â’r ffedereiddio ai peidio.

### Nifer yr ymatebion a gafwyd

| Unigolion/sefydliad | Nifer yr ymatebion |
|---|---|
| ALl | |
| Corff llywodraethu neu lywodraethwyr | |
| Staff yr ysgol | |
| Rhieni | |
| Undebau llafur | |

| | |
|---|---|
| Awdurdodau esgobaethol neu gyrff crefyddol eraill | |
| Llywodraethwyr sefydledig, ymddiriedolwyr neu bersonau eraill sy'n gymwys i benodi llywodraethwyr sefydledig | |
| Personau/sefydliadau eraill | |
| **Cyfanswm** | |

## Crynodeb o'r sylwadau a gafwyd

Argymhellir y dylai'r adran hon grynhoi'r canlynol:

- sylwadau pwysig o blaid y cynnig
- materion sy'n achosi pryder a sylwadau yn erbyn y cynnig
- y farn gyffredinol.

Os na chafwyd unrhyw ymateb dylid nodi hynny. Fodd bynnag, dylid cynnwys hefyd sylw sy'n nodi'r rheswm pam na chafwyd unrhyw ymatebion, os yw'n hysbys.

Rhaid i weithgorau a sefydlwyd i ystyried cynigion ffedereiddio a arweinir gan gyrff llywodraethu adrodd yn ôl i'w rhiant-gyrff llywodraethu mewn cydgyfarfod o'r cyrff llywodraethu perthnasol fel sy'n ofynnol gan Reoliadau Ffedereiddio 2014. Os na cheir unrhyw ymatebion ynglŷn â'r cynnig, rhaid cynnal cydgyfarfod o'r cyrff llywodraethu, er mwyn penderfynu a yw'r ysgolion yn dymuno mynd ymlaen â'r ffedereiddio ai peidio

## Atodiad 4: Ffederasiynau – safonau, lles a gwella ysgolion

Wrth ystyried ffedereiddio, dylai cyrff llywodraethu ac ALlau roi'r brif flaenoriaeth i **sut** y gall ffedereiddio eu hysgolion gefnogi cynnydd a datblygiad plant a phobl ifanc a chodi eu safonau cyflawniad.

| **Agweddau allweddol** | **Manteision allweddol** |
|---|---|
| Cynnydd a datblygiad plant a phobl ifanc<br><br>Codi eu safonau cyflawniad | Gall Ffederasiynau effeithiol wneud y canlynol:<br>• llywio'r gwaith o wella ysgolion:<br>• rhoi ystod ehangach o opsiynau a phrofiadau addysgol i blant a phobl ifanc:<br>• sicrhau manteision i ddisgyblion drwy ddod â hwy at ei gilydd i gael eu haddysgu o fewn band oedran cul;<br>• trefnu ystod ehangach o weithgareddau y tu allan i'r ysgol ar gyfer eu disgyblion;<br>• ehangu profiadau cymdeithasol plant a phobl ifanc;<br>• cynnig amrywiaeth ehangach o ddeunyddiau,<br>• cyfarpar a chyfleusterau i blant a phobl ifanc;<br>• datblygu polisïau a chynlluniau gwaith cyffredin a hyrwyddo cysondeb a pharhad o ran addysgu, dysgu a gwaith asesu ymhlith yr ysgolion ffederal;<br>• osgoi dyblygu ymdrech;<br>• defnyddio arbenigedd staff ym mhob ysgol yn y Ffederasiwn<br>• darparu cyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol staff; a<br>• sicrhau ffocws cliriach ar weithgarwch |

| | |
|---|---|
| | arwain a rheoli strategol. |

# Atodiad 5: Ffederasiynau – risg a rheoli risgiau

| Risg - Sefydlu'r Ffederasiwn | Mesurau Rheoli i Liniaru Risg |
|---|---|
| Nid yw pob ymgynghorai yn ymwybodol o'r ymgynghoriad ac y gwahoddir eu sylwadau | • anfonir llythyrau a chrynodeb o'r cynnig i ffedereiddio at bob rhiant, pob aelod o staff, undebau staff ysgol, llywodraethwyr ac ymddiriedolwyr sefydledig (os yw'n gymwys), yr ALlau, yr awdurdod esgobaethol ac eraill yng nghymuned yr ysgol ynghyd â dolen i wefan yr ALl neu wefan yr ysgol, lle y gellir gweld y cynnig llawn.<br>• Gellir anfon briff ar ffurf cwestiynau ac atebion at bob rhanddeiliaid, a'i osod hefyd ar y gwefannau perthnasol.<br>• Gwahoddir rhanddeiliaid i gyfarfodydd, lle gallant ofyn cwestiynau a mynegi unrhyw bryder |
| Nid yw prosesau cyfathrebu yn ddigon cadarn yn ystod y cyfnod o newid sy'n arwain at ansicrwydd | • Cyrff llywodraethu neu ALlau yn sefydlu Tîm Strategol/ Gweithgor i sicrhau bod yr holl staff yn gwybod sut y bydd ffedereiddio yn effeithio arnynt; a rhoi gwybod i  rieni, staff a disgyblion am y manteision a'r cyfleoedd.<br>• Cyswllt helaeth â rhanddeiliaid a |

| | |
|---|---|
| | chymuned yr ysgol gyfan, gan esbonio a rhoi enghreifftiau o’r manteision y gellir eu hennill, fel bod pawb yn cael ymdeimlad o berchnogaeth ac yn deall y canlyniadau positif. |
| Nid yw staff a theuluoedd yn yr ysgolion yn derbyn y trefniadau newydd ac ni roddir gwelliannau ar waith yn ddigon cyflym | • Trafodaeth agored ar y manteision, sydd hwyrach wedi eu sefydlu eisoes trwy gydweithredu anffurfiol. Paratoi taflen o wybodaeth a/neu gwestiynau ac atebion ar gyfer rhieni a theuluoedd – rhoddir enghraifft yn Atodiad 10. Esboniad eglur ac enghreifftiau o'r manteision yn y dyfodol e.e. gwell cyfleoedd yn arwain at gadw a recriwtio staff; manteision i'r staff a'r plant oherwydd cydweithio.<br>• Yn y rhan fwyaf o ffederasiynau, gall aelodaeth y corff llywodraethu ffederal ddarparu cynrychiolaeth gyfartal i ysgolion o ran rhiant-lywodraethwyr, er mwyn tegwch yn y modd y bodlonir anghenion yr ysgolion; mae'r modd y gwneir penderfyniadau yng nghyfarfodydd y corff llywodraethu yn dryloyw; a chofnodir pob penderfyniad yn ofalus ynglŷn â'r defnydd o adnoddau, gan |

| | |
|---|---|
| Diffyg ymddiriedaeth rhwng ysgolion oherwydd pryder y byddai ysgol ar ei cholled oherwydd y trefniant | gynnwys cyllidebau a staff<br>• Uwch aelodau o'r staff yn cydweithio'n glòs gyda rhieni a theuluoedd a'r staff mewn ysgolion eraill yn y ffederasiwn.<br>• Dylai'r pennaeth sengl rannu ei amser yn deg rhwng yr ysgolion yn y ffederasiwn.<br>• Y pennaeth sengl a'r ALl yn cydweithio'n glòs gyda'r llywodraethwyr |

| **Risg – ar ôl sefydlu'r ffederasiwn** | **Mesurau Rheoli i Liniaru Risg** |
|---|---|
| Yr  uwch dîm rheoli wedi'i wasgaru'n rhy denau rhwng y ddwy ysgol | • Y Tîm Strategol/ Gweithgor Ffedereiddio yn pennu rolau pendant ar gyfer staff uwch.<br>• Creu strwythur ar gyfer staff uwch sy'n gweithio ym mhob rhan o'r ffederasiwn er mwyn sicrhau y gellir ymateb i bob digwyddiad posibl.<br>• Angen sicrhau bod systemau eglur ar waith a phennu disgwyliadau eglur o'r dechrau er mwyn tawelu pryderon.<br>• Angen rhoi prosesau cynllunio clir |

| | |
|---|---|
| | ar waith er mwyn sicrhau y gwneir y defnydd gorau o amser staff pan fydd staff yn symud yn rheolaidd rhwng ysgolion. |
| Diffyg ymdeimlad o hunaniaeth a rennir rhwng yr ysgolion | • Byddai'r strwythur arfaethedig yn darparu arweinyddiaeth gref ag amcanion a rolau pendant i ysgolion a staff uwch ym mhob ysgol yn y ffederasiwn.<br>• Cynlluniau i staff a disgyblion ysgolion gydweithio'n agos ac i ddisgyblion ymweld ag ysgolion eraill yn y ffederasiwn i fanteisio ar gwricwlwm estynedig.<br>• Rhieni a theuluoedd yn cymryd rhan mewn digwyddiadau ym mhob ysgol. |
| Nid yw prosesau rhannu adnoddau yn cael eu rheoli'n gywir neu mae'r gyllideb yn annigonol | • Dylid cofnodi'r strwythur a ragwelir ar gyfer cyfrifoldeb ariannol yn llawn o ddechreuad y ffederasiwn.<br>• angen creu adnodd cynllunio ariannol strategol a ddylai gynnwys goruchwylio systemau a gweithdrefnau ariannol.<br>• Rhaid darparu trywydd archwilio eglur ar gyfer yr holl waith cynllunio a phenderfyniadau cyllidebol.<br>• Byddai'r broses ar gyfer gwneud penderfyniadau strategol ar draws y |

| | |
|---|---|
| | cyllidebau ysgol yn darparu gwell hyblygrwydd i ymateb i amgylchiadau cyfnewidiol.<br>• Gellid rhannu costau staffio ar draws y cyllidebau.<br>• Dylai'r corff llywodraethu adolygu'r cyllidebau yn rheolaidd. |
| Pwysau ar amser y corff llywodraethu, gan ei fod yn goruchwylio mwy nag un ysgol. | • Dylai'r corff llywodraethu gytuno ar amcanion a rolau pendant o'r dechreuad ac ystyried sefydlu cydbwyllgorau i oruchwylio'r broses ffedereiddio<br>• Dylai'r ALl gydweithio'n glòs gyda'r corff lywodraethu mewn ffederasiynau a arweinir gan gyrff llywodraethu, a chynnig cymorth, cyngor a hyfforddiant.<br>• Agendâu a chyfarfodydd sydd wedi'u paratoi a'u strwythuro'n dda. |

## Atodiad 6: Cyfansoddiad arfaethedig cyrff llywodraethu ffederasiwn o hyd at chwe ysgol, a gymerwyd o Reoliadau Ffedereiddio 2014

*Rhaid i'r offeryn llywodraethu ar gyfer ffederasiwn bennu maint aelodaeth corff llywodraethu'r ffederasiwn, sef nifer na chaiff fod yn llai na 15 nac yn fwy na 27 o lywodraethwyr, yn unol â Rheoliad 25 o Reoliadau Ffedereiddio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2014*

| **Ffederasiwn sy'n cynnwys ysgolion cymunedol, ysgolion arbennig cymunedol ac ysgolion meithrin a gynhelir yn unig** | **Ffederasiwn sy'n cynnwys ysgolion sefydledig yn unig** |
|---|---|
| (a) ar gyfer pob ysgol ffederal, o leiaf un ond dim mwy na dau riant-lywodraethwr a etholir neu a benodir i gynrychioli buddiannau rhieni disgyblion cofrestredig yn yr ysgol honno; | (a) ar gyfer pob ysgol ffederal, o leiaf un ond dim mwy na dau riant-lywodraethwr a etholir neu a benodir i gynrychioli buddiannau rhieni disgyblion cofrestredig yn yr ysgol honno; |
| (b) o leiaf un ond dim mwy na dau athro-lywodraethwr; | (b) o leiaf un ond dim mwy na dau athro-lywodraethwr: |
| (c) o leiaf un ond dim mwy na dau staff-lywodraethwr; | (c) o leiaf un ond dim mwy na dau staff-lywodraethwr; |
| (d) o leiaf dau ond dim mwy na phedwar llywodraethwr ALl; | (d) o leiaf dau ond dim mwy na phedwar llywodraethwr ALl; |

| | |
|---|---|
| (e) o leiaf dau ond dim mwy na phedwar llywodraethwr cymunedol, y disodlir un ohonynt gan lywodraethwr cynrychiadol os yw'r ffederasiwn yn cynnwys o leiaf un ysgol arbennig gymunedol<br><br>(f) pennaeth neu bennaeth gweithredol y ffederasiwn os penodwyd un, neu bennaeth neu bennaeth gweithredol pob ysgol yn y ffederasiwn oni fydd y personau hynny yn ymddiswyddo o fod yn llywodraethwr.<br><br>Ar gyfer unrhyw ysgol gynradd neu ysgol feithrin a leolir mewn ardal cyngor cymuned, rhaid i'r corff llywodraethu gynnwys un llywodraethwr cymunedol ychwanegol, yn ychwanegol at y llywodraethwyr a restrir uchod.<br><br>Caiff y corff llywodraethu, yn ychwanegol—<br><br>a. penodi un noddwr-lywodraethwr; a<br>b. penodi hyd at ddau ddisgybl-lywodraethwr cyswllt os yw'r ffederasiwn yn cynnwys ysgolion uwchradd (ni chyfrifir y | (e) o leiaf dau ond dim mwy na phedwar llywodraethwr cymunedol;<br><br>(f) o leiaf dau ond dim mwy na phum llywodraethwr sefydledig (neu lywodraethwyr partneriaeth, fel y bo'n briodol mewn perthynas ag unrhyw ysgol heb sefydliad); ac<br><br>(g) pennaeth neu bennaeth gweithredol y ffederasiwn os penodwyd un, neu bennaeth neu bennaeth gweithredol pob ysgol yn y ffederasiwn oni fydd y personau hynny yn ymddiswyddo o fod yn llywodraethwr.<br><br>Ar gyfer unrhyw ysgol gynradd neu ysgol feithrin a leolir mewn ardal cyngor cymuned, rhaid i'r corff llywodraethu gynnwys un llywodraethwr cymunedol ychwanegol, yn ychwanegol at y llywodraethwyr a restrir uchod.<br><br>Caiff y corff llywodraethu, yn ychwanegol—<br><br>a. penodi un noddwr-lywodraethwr; a |

| | |
|---|---|
| llywodraethwyr cyswllt hyn wrth gyfrifo nifer y llywodraethwyr er mwyn cydymffurfio â'r niferoedd mwyaf a lleiaf a ganiateir). | b. penodi hyd at ddau ddisgybl-lywodraethwr cyswllt os yw'r ffederasiwn yn cynnwys ysgolion uwchradd (ni chyfrifir y llywodraethwyr cyswllt hyn wrth gyfrifo nifer y llywodraethwyr er mwyn cydymffurfio â'r niferoedd mwyaf a lleiaf a ganiateir).<br>. |
| **Ffederasiwn sy'n cynnwys ysgolion gwirfoddol a reolir** | **Ffederasiwn sy'n cynnwys ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir yn unig** |
| a) ar gyfer pob ysgol ffederal, o leiaf un ond dim mwy na dau riant-lywodraethwr a etholir neu a benodir i gynrychioli buddiannau rhieni disgyblion cofrestredig yn yr ysgol honno;<br><br>(b) o leiaf un ond dim mwy na dau athro-lywodraethwr;<br><br>(c) o leiaf un ond dim mwy na dau staff-lywodraethwr;<br><br>(d) o leiaf dau ond dim mwy na phedwar llywodraethwr ALl;<br><br>(e) o leiaf dau ond dim mwy na phedwar llywodraethwr cymunedol; | (a) o leiaf un rhiant-lywodraethwr a etholir neu a benodir i gynrychioli buddiannau'r holl rieni disgyblion cofrestredig yn holl ysgolion y ffederasiwn;<br><br>(b) o leiaf un ond dim mwy na dau athro-lywodraethwr;<br><br>(c) o leiaf un ond dim mwy na dau staff-lywodraethwr;<br><br>(d) o leiaf un ond dim mwy na dau lywodraethwr ALl;<br><br>(e) pennaeth neu bennaeth gweithredol y ffederasiwn os penodwyd un, neu bennaeth neu bennaeth gweithredol pob ysgol yn y ffederasiwn oni fydd y personau hynny yn ymddiswyddo o fod yn llywodraethwr. |

| | |
|---|---|
| (f) o leiaf dau ond dim mwy na phum llywodraethwr sefydledig; ac<br><br>(g) pennaeth neu bennaeth gweithredol y ffederasiwn os penodwyd un, neu bennaeth neu bennaeth gweithredol pob ysgol yn y ffederasiwn oni fydd y personau hynny yn ymddiswyddo o fod yn llywodraethwr.<br><br>Ar gyfer unrhyw ysgol gynradd neu ysgol feithrin a leolir mewn ardal cyngor cymuned, rhaid i'r corff llywodraethu gynnwys un llywodraethwr cymunedol ychwanegol, yn ychwanegol at y llywodraethwyr a restrir uchod.<br><br>Caiff y corff llywodraethu, yn ychwanegol—<br><br>a. penodi un noddwr-lywodraethwr; a<br>b. penodi hyd at ddau ddisgybl-lywodraethwr cyswllt os yw'r ffederasiwn yn cynnwys ysgolion uwchradd (ni chyfrifir y llywodraethwyr cyswllt hyn wrth gyfrifo nifer y llywodraethwyr er mwyn cydymffurfio â'r niferoedd mwyaf a lleiaf a ganiateir). | (f) un llywodraethwr cymunedol ychwanegol pan fo'r ffederasiwn yn cynnwys ysgol neu ysgolion cynradd a leolir o fewn ardal cyngor cymuned<br><br>(g) Caiff y personau sydd â hawl i benodi llywodraethwyr sefydledig benodi'r nifer o lywodraethwyr sefydledig a fydd yn eu gwneud yn fwy niferus na chyfanswm y llywodraethwyr yn (a) – (f) o un, ar yr amod nad eir dros ben y cyfanswm o 27 llywodraethwr.<br><br>.<br><br>Caiff y corff llywodraethu, yn ychwanegol, benodi hyd at ddau ddisgybl-lywodraethwr cyswllt os yw'r ffederasiwn yn cynnwys ysgolion uwchradd. (Ni chyfrifir y llywodraethwyr cyswllt hyn wrth gyfrifo nifer y llywodraethwyr er mwyn cydymffurfio â'r niferoedd mwyaf a lleiaf a ganiateir, nac ychwaith wrth gyfrifo nifer y llywodraethwyr sefydledig, oherwydd nad oes gan y disgybl-lywodraethwyr cyswllt bleidlais). |

| | |
|---|---|
| | |
| **Ffederasiwn sy'n cynnwys ysgolion gwirfoddol a reolir ac ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir** | |
| (a) o leiaf un rhiant-lywodraethwr a etholir neu a benodir i gynrychioli buddiannau'r holl rieni disgyblion cofrestredig yn holl ysgolion y ffederasiwn;<br><br>(b) o leiaf un ond dim mwy na dau athro-lywodraethwr;<br><br>(c) o leiaf un ond dim mwy na dau staff-lywodraethwr;<br><br>(d) o leiaf un ond dim mwy na dau lywodraethwr ALl;<br><br>(e) o leiaf un ond dim mwy na dau lywodraethwr cymunedol;<br><br>(f) un llywodraethwr cymunedol ychwanegol ar gyfer unrhyw ysgol gynradd yn y ffederasiwn sydd o fewn ardal cyngor cymuned | |

| | |
|---|---|
| (g) pennaeth neu bennaeth gweithredol y ffederasiwn os penodwyd un, neu bennaeth neu bennaeth gweithredol pob ysgol yn y ffederasiwn oni fydd y personau hynny yn ymddiswyddo o fod yn llywodraethwr.<br><br>(h) caiff y personau sydd â hawl i benodi llywodraethwyr sefydledig benodi'r nifer o lywodraethwyr sefydledig a fydd yn eu gwneud yn fwy niferus  na chyfanswm y llywodraethwyr yn (a) – (g)  o ddim mwy nag un, ar yr amod nad eir dros ben y cyfanswm o 27 llywodraethwr.<br><br>Caiff y corff llywodraethu, yn ychwanegol, benodi hyd at ddau ddisgybl-lywodraethwr cyswllt os yw'r ffederasiwn yn cynnwys ysgolion uwchradd. (Ni chyfrifir y llywodraethwyr cyswllt hyn wrth gyfrifo nifer y llywodraethwyr er mwyn cydymffurfio â'r niferoedd mwyaf a lleiaf a ganiateir, nac ychwaith wrth gyfrifo nifer  y llywodraethwyr sefydledig, oherwydd nad oes gan y disgybl-lywodraethwyr cyswllt bleidlais).<br><br>. | |

# Atodiad 7: Offeryn llywodraethu a awgrymir ar gyfer ysgolion ffederal a gynhelir

***Sylwer: Yn unol â rheoliadau  42 a 46 o Reoliadau Ffedereiddio 2014 rhaid anfon copïau o offeryn llywodraethu pob ffederasiwn at Weinidogion Cymru yn SMED2, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ. Byddai'n hwylus pe bai modd gwneud hyn o fewn dwy wythnos  i'r dyddiad ffedereiddio.***

**Enghraifft**

Enw'r Ffederasiwn yw: …………………………………………

Enwau a chategorïau'r ysgolion yn y Ffederasiwn yw::

| **Enw** | **Categori** |
|---|---|
| 1. [nodwch enw'r ysgol] | [Nodwch gategori'r ysgol] |
| 2. [nodwch enw'r ysgol] | [Nodwch gategori'r ysgol] |
| 3. etc. | |

Enw'r corff llywodraethu yw ……………………………….................................

4. Bydd y corff llywodraethu yn cynnwys y canlynol gan ddibynnu ar nifer a chategorïau'r ysgolion yn y Ffederasiwn. Categori o lywodraethwr.

| Categori o lywodraethwr | Nifer ym mhob categori |
|---|---|

| | |
|---|---|
| Rhiant-lywodraethwyr<br><br>Enw'r ysgol a'r nifer fesul ysgol | |
| Pen(n)aeth(iaid) | |
| Staff-lywodraethwyr<br><br>Athro-lywodraethwyr | |
| Llywodraethwyr ALl | |
| Llywodraethwyr cymunedol<br><br>Llywodraethwyr Cymunedol Ychwanegol (pan fo ysgol gynradd sydd yn y ffederasiwn wedi ei lleoli mewn ardal cyngor cymuned) | |
| Llywodraethwyr sefydledig<br><br>Llywodraethwyr partneriaeth<br><br>Llywodraethwyr cynrychiadol<br><br>Noddwr-lywodraethwr | |

5. Cyfanswm y llywodraethwyr a benodwyd yn unol â Rhan 4 o'r Rheoliadau Ffedereiddio):………………..
*(Dylid cynnwys Noddwr-lywodraethwyr a Llywodraethwyr cymunedol ychwanegol yn y nifer hwn).*

6. Rhaid i ffederasiynau sy'n cynnwys ysgolion arbennig cymunedol benodi llywodraethwr cynrychiadol i gymryd lle llywodraethwr cymunedol. Y corff sydd â'r hawl i enwebu llywodraethwr cynrychiadol yw:……………………………

7 Y noddwr/noddwyr sydd â'r hawl i enwebu unigolyn/unigolion i'w benodi/penodi fel Noddwr-lywodraethwyr o dan Atodlen 5 i'r Rheoliadau Ffedereiddio yw:……………………………………

8. Enw unrhyw gorff sefydledig neu unigolyn sydd â'r hawl i benodi llywodraethwyr sefydledig. Os bydd hyn yn cynnwys mwy nag un person, nodwch ar ba sail y gwneir penodiadau……………………………………...

9. *Pan fo'n gymwys:*

Bydd deiliad y swydd ganlynol yn llywodraethwr *ex officio [enw'r swydd]*

Bydd gan y corff sefydledig neu'r unigolyn a enwir ym mharagraff 8 yr hawl i benodi llywodraethwr sefydledig i weithredu yn lle llywodraethwr sefydledig *ex officio* lle mae awdurdod llywodraethwr yn deillio o'r swydd a enwir yn (a) uchod,

10. Enw unrhyw un sydd â'r hawl i ofyn am i lywodraethwr sefydledig *ex officio* gael ei ddiswyddo ac i unrhyw lywodraethwr gael ei benodi yn ei le……………………………

11 Pan fo ysgol ffederal yn ysgol sefydledig neu'n ysgol wirfoddol a chanddi gymeriad crefyddol, disgrifiad o ethos yr ysgol………………………………………..

12 Cyfnod llywodraethwyr sefydledig yn y swydd pan fo'n llai na phedair blynedd

13. Daw'r offeryn hwn i rym ar……………………………………..

14 Gwnaed yr offeryn hwn drwy orchymyn xxxxxxxxxx ALl ar …………………………

15 Rhaid rhoi copi o'r offeryn i bob aelod o'r corff llywodraethu (a'r pennaeth os nad

yw'n llywodraethwr), unrhyw ymddiriedolwyr ac i'r corff crefyddol priodol os yw'n gymwys, ac i Weinidogion Cymru.

16 Rhaid i'r offeryn gydymffurfio ag unrhyw ymddiriedolaeth sy'n ymwneud â'r ysgol ffederal.

## Atodiad 8: Ffedereiddio – rôl a gweithgaredd yr ALlau/consortia yn ystod y broses ffedereiddio

| **Maes** | **Rôl a gweithgarwch** |
|---|---|
| Cynllunio Lleoedd mewn ysgolion | • Rhoi darlun strategol o Drefniadaeth Ysgolion, gan gynnwys ffedereiddio, ledled yr Awdurdod a chynllunio'r defnydd a wneir o adnoddau i gefnogi'r darlun strategol hwnnw.<br>• Sicrhau y bydd unrhyw adolygiad yn cynnwys effeithiau nifer y disgyblion a lleoedd dros ben yn ogystal ag unrhyw gynigion i gyfuno a chau ysgolion. |
| Gwasanaethau Gwella Ysgolion | • Rhoi cyngor a chymorth i ddatblygu ffocws clir ar weithgarwch gwella ysgolion a disgyblion fel rhan o'r camau cyflwyno adroddiadau yn y broses ffedereiddio<br>• Bod ar gael ar gyfer cyfarfodydd â'r penaethiaid a'r cyrff llywodraethu er mwyn sicrhau bod Gwella Ysgolion yn elfen allweddol o'r broses ffedereiddio.<br>• Helpu cyrff llywodraethu i ystyried trefniadaeth cwricwlwm ysgolion ar draws y ffederasiwn<br>. |

| | |
|---|---|
| Cymorth i Lywodraethwyr | • Swyddogion Cymorth Llywodraethwyr ym mhob ALl yn ymwybodol o'r darpariaethau yn Rheoliadau Ffedereiddio 2014 a Mesur Addysg (Cymru) 2011<br><br>• Bod yn llinell gyfathrebu gyntaf gydag unrhyw grwpiau o lywodraethwyr sy'n ystyried ffedereiddio.<br><br>• Gweithredu fel cydgysylltydd ar gyfer y ffederasiwn arfaethedig er mwyn sicrhau bod holl weithgareddau'r awdurdod ar gael ar yr adeg briodol<br><br>• Darparu cymorth a hyfforddiant parhaus i gyrff llywodraeth gan gydnabod y cyfrifoldebau ychwanegol a ymgymerir gan lywodraethwyr. |
| Gwasanaethau Data | • Dylai'r holl ddata sydd ym meddiant yr ALl ynglŷn â'r ysgolion gael eu cydgrynhoi mewn un ddogfen gyfansawdd, hawdd ei deall<br><br>• Dylai'r data hynny gynnwys cyrhaeddiad disgyblion; proffiliau ysgol; adnoddau, gan gynnwys niferoedd staff; arolwg cyflwr ysgolion, etc.<br><br>• Rhannu data rhwng ysgolion |

| | |
|---|---|
| Adnoddau Dynol | • Bydd angen cymorth ar lywodraethwyr i ddeall y polisïau personél a'u goblygiadau i'w hysgolion<br>• Bydd angen cyngor a chefnogaeth gan AD ynglŷn ag unrhyw newidiadau arfaethedig i'r strwythurau unigol a'r modd y trefnir y staff o fewn y ffederasiwn. |
| Cyllid | • Bydd angen gwneud trefniadau i sicrhau y cedwir cyfrifon pob ysgol ar wahân o fewn y ffederasiwn, tra'n caniatáu cyfuno'r adnoddau pan fo'n ofynnol gan y corff llywodraethu.<br>• Yr i adolygu eu fformiwlâu cyllido a'u diweddaru yn gyson, yn ogystal â darparu cyllidebau 3 blynedd<br>• Ystyried a oes costau ychwanegol yn gysylltiedig â ffedereiddio, ac a ddylid newid y fformiwla i adlewyrchu'r costau hynny |
| Gwasanaethu Eiddo | • Yr ALl i gynnal arolwg o gyflwr adeiladau'r ysgolion ffederal unigol, a diweddaru'r arolwg hwnnw'n gyson, gan nodi unrhyw waith sydd ei angen, neu sydd yn yr arfaeth. |
| Gwasanaethau Cyfreithiol | • Mae angen gwirio bod y broses a'r ddogfennaeth yn bodloni'r gofynion statudol<br>• Cymorth i ddrafftio'r Offeryn Llywodraethu. |

| | |
|---|---|
| Gwasanaethau Cyfieithu | Dichon y bydd angen mynediad i gyfleusterau cyfieithu ar gyfer y corff llywodraethu. f |

# Atodiad 9: Ffedereiddio – cwestiynau cyffredin

## C1. Beth yw ffederasiwn?

Strwythur llywodraethu cyfreithiol yw ffederasiwn, sy'n galluogi rhwng dwy a chwech o ysgolion i rannu un corff llywodraethu sengl. Bydd yr ysgolion yn cadw eu hunaniaeth, eu henw, eu hethos, eu cymeriad, eu cyllideb a'u gwisg ysgol eu hunain, ond bydd modd iddynt rannu adnoddau, cyfleusterau ac arfer da.

## C2. Pam y dylai ysgolion ffedereiddio?

Mae cydweithio trwy gorff llywodraethu sengl yn galluogi ysgolion i godi safonau a chynnal y ddarpariaeth addysg leol trwy rannu adnoddau, staff, arbenigedd a chyfleusterau, yn ogystal â'u harferion da. Bydd y corff llywodraethu sengl yn fecanwaith effeithiol ac atebol ar gyfer cyfuno adnoddau'r ysgolion, gan gynnwys y staff a'r cyllidebau, rhyddhau amser yr uwch reolwyr, manteisio ar ddarbodion maint a gwella effeithlonrwydd.

## C3. Beth yw manteision ffedereiddio?

Bydd ffedereiddio yn ei gwneud yn haws i ysgolion:

- ehangu a gwella ansawdd y ddarpariaeth,
- ymateb i anghenion ehangach y disgyblion,
- rhyddhau arweinwyr, athrawon a llywodraethwyr ein hysgolion cryfaf i gynorthwyo ysgolion sy'n perfformio'n wael,
- gwella'r cyfleoedd datblygiad proffesiynol i'r staff,
- darparu gwell gwerth am arian.

## C4. Pam y gallai ysgolion bach gael budd o ffedereiddio?

Gall ffedereiddio helpu ysgolion bach mewn ardaloedd gwledig i barhau'n gynaliadwy o fewn eu cymunedau. Bydd mecanwaith effeithiol ac atebol y corff llywodraethu sengl yn caniatáu i'r ysgolion gyfuno'u hadnoddau a'u staff a pharhau'n hyfyw drwy fanteisio ar well effeithlonrwydd a darbodion maint. Bydd ysgolion bach mewn ardaloedd

gwledig ac anhygyrch ar eu hennill hefyd o'r cyfleoedd i rannu gwasanaeth rheolwyr, llywodraethwyr ac arbenigwyr cwricwlaidd y ffederasiwn. Gellid cyfoethogi'r addysg a gynigir mewn ysgolion cynradd bach trwy rannu, er enghraifft, athro iaith arbenigol neu athro drama.

## C5. A gaiff gwahanol gategorïau/mathau o ysgolion ymuno yn yr un ffederasiwn, neu ffurfio ffederasiwn?

Na chânt. Ni chaiff ysgolion cymunedol ffedereiddio gydag ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir, ysgolion gwirfoddol a reolir nac ysgolion sefydledig. Fel y nodir ar dudalennau 35 a 36 o'r canllawiau, ystyrir bod cyrff llywodraethu'r ysgolion gwirfoddol a'r ysgolion sefydledig yn ymddiriedolaethau elusennol, na chânt weithredu ac eithrio i hyrwyddo dibenion eu helusen. Caiff ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir, gwirfoddol a reolir ac ysgolion sefydledig ffedereiddio â'i gilydd, ar yr amod y bodlonir y gofynion cyfreithiol ar gyfer uno elusennau. Ni chaiff ALl gynnig ffederasiwn o ysgolion gwirfoddol a sefydledig heb yn gyntaf ofyn am gydsyniad yr esgobaeth (yr Eglwys Gatholig neu'r Eglwys yng Nghymru) neu'r person(au) sy'n penodi llywodraethwyr a gofyn am gyngor gan y Comisiwn Elusennau.

## C6. A allai dwy ysgol ffydd o wahanol ffydd ffurfio Ffederasiwn?

Mewn egwyddor gallent. Os bydd unrhyw ysgolion yn ystyried gwneud hyn dylent drafod eu syniadau â'r awdurdodau lleol a'r awdurdodau esgobaethol perthnasol. Dylent hefyd ymgynghori â'r Comisiwn Elusennau.

## C7. A allai ysgolion mewn gwahanol awdurdodau lleol yng Nghymru ffedereiddio?

Mewn egwyddor gallent. Dylai unrhyw ysgolion sy'n ystyried hyn drafod eu cynlluniau â'r ddau awdurdod lleol er mwyn osgoi llwytho eu hunain â dwy set o drefniadau adrodd. Bydd angen i ysgolion wybod pa awdurdod lleol a fydd yn bennaf cyfrifol am y ffederasiwn a beth fydd y trefniadau ariannol a'r trefniadau cyllidebol.

### C8A allai dwy ysgol ffedereiddio er mwyn mynd i'r afael ag un mater yn unig, er enghraifft, dwy ysgol uwchradd sydd am gydweithio ar faterion 14-19 yn unig?

Na, nid dyma ddiben Ffedereiddio, sef ysgolion yn dod at ei gilydd o dan gorff llywodraethu sengl, er budd yr holl ddisgyblion ym mhob ysgol ac i wella perfformiad pob un o'r ysgolion, nid unrhyw un grŵp detholedig neu fater penodol. Dylai ysgolion sydd am gydweithio'n glòs gydag ysgol arall neu ysgolion eraill ar faterion penodol ystyried gwneud hynny'n ffurfiol drwy gydweithio o dan Reoliadau Cydlafurio Rhwng Cyrff Addysg (Cymru) 2012.

### C9. A gaiff ysgolion annibynnol ymuno â Ffederasiwn?

Na. Caiff yr ysgolion hyn gydweithio ag ysgolion a gynhelir ond ni chânt ymuno â ffederasiwn.

### C10. A all SABau ymuno â ffederasiwn?

Na chânt, ond cânt gydweithio yn unol â threfniadau cydweithio ffurfiol, yn enwedig i ddarparu'r cwricwlwm 14-19 gan roi gwell cyfle i ddisgyblion fanteisio ar gwricwlwm ehangach.

### C11. Beth yw'r manteision a'r risgiau sy'n gysylltiedig â sefydlu ffederasiwn?

Mae bod yn rhan o ffederasiwn yn cynnig nifer o fanteision i ysgolion gan gynnwys dysgu a phrofiadau cymdeithasol ehangach i blant sy'n arwain at wella perfformiad disgyblion. Bydd ysgolion yn gallu rhannu adnoddau, arfer gorau, cyfleusterau ac arbenigedd. Gellir rhoi mwy o bwyslais ar strwythurau arwain a rheoli strategol a bydd gan staff gyfleoedd newydd i gydweithio a lleihau ynysu. Gelir osgoi dyblygu ymdrech ac mae cyfle i hyrwyddo gwell arbedion maint.

Ymhlith rhai o'r risgiau mae anawsterau trefnu posibl o ran darparu cwricwlwm mewn nifer o ysgolion. Gall cyfathrebu â rheini a staff mewn gwahanol ysgolion fod yn her. Gall costau teithio fod yn uwch os bydd staff a disgyblion yn symud rhwng ysgolion i ddiwallu anghenion y cwricwlwm. Efallai y bydd materion sy'n ymwneud â

chydberthnasau ac ymddiriedaeth i lywodraethwyr, penaethiaid a staff sy'n gweithio rhwng ysgolion. Dylai'r corff llywodraethu ffederal fod yn ymwybodol o'r risgiau posibl a llunio strategaethau a chamau gweithredu i'w lliniaru.

## C12. A fydd fy ysgol yn colli ei hunaniaeth mewn ffederasiwn?

Ni fydd ysgolion mewn ffederasiwn yn colli eu hunaniaeth er y byddant yn rhannu corff llywodraethu sengl. Mae'r ysgolion yn cadw eu statws cyfreithiol ar wahân ac mae ganddynt eu dyraniadau cyllidebol eu hunain a bydd pob ysgol unigol yn cael ei harolygu gan ESTYN. Bydd yr ysgolion hefyd yn aros yn eu cymuned ac yn cadw eu cymeriad, eu henw, eu hethos a'u gwisg ysgol eu hunain. Er bod pob ysgol yn cael ei chyllideb unigol ei hun a bod yn rhaid iddi roi cyfrif amdani, mae cyfle, drwy'r corff llywodraethu sengl, i ddefnyddio cyllidebau a rennir ymhlith yr ysgolion yn y ffederasiwn. Mae ffedereiddio yn gweithio ar y sail bod gan bob ysgol ei chryfderau a'i manteision penodol ei hun, boed yn gyfleusterau, yn staff neu'n adnoddau.

## C13. Beth yw'r trefniadau ar gyfer arolygu ysgolion ffederal?

Mae dogfen Estyn ‘Pa bryd y cynhelir yr arolygiad nesaf o'r ysgol?’ yn nodi canllawiau ar arolygu ysgolion ffederal. Mae Rheoliadau Addysg (Arolygu Ysgolion) (Cymru) 2006 yn ei gwneud yn ofynnol i Estyn arolygu ysgolion a gynhelir bob chwe blynedd a llunio adroddiad unigol ar gyfer pob ysgol. Byddai hyn hefyd yn gymwys i ysgolion yn y ffederasiwn. Ni all Estyn symud arolygiad o ysgol i fod yn hwyrach na chwe blynedd ers ei harolygiad diwethaf ond gall gynnal arolygiadau mewn ffordd sy'n sicrhau bod yr ysgolion mewn ffederasiwn yn cael eu harolygu yn ystod yr un tymor, yn enwedig pan fydd gan yr ysgolion yr un pennaeth. Byddai Estyn hefyd yn ystyried ceisiadau gan gorff llywodraethu neu awdurdod lleol i arolygu ysgolion yn ystod yr un tymor. Byddai Estyn hefyd yn ceisio sicrhau bod aelodaeth y timau sy'n arolygu ysgolion mewn ffederasiwn yn gorgyffwrdd.

## C14. Beth sy'n digwydd i staff mewn Ffederasiwn? A fydd eu Hamodau Gwasanaeth yn newid?

Mewn ffederasiwn, byddai pob aelod o staff wedi'i gyflogi ar yr un amodau gwasanaeth â'r rhai presennol a chan yr un cyflogwr. Pwy bynnag yw'r cyflogwr staff presennol fydd y cyflogwr newydd o dan y contract cyflogaeth. Yn achos ysgolion

cymunedol, ysgolion gwirfoddol a reolir, ysgolion arbennig cymunedol ac ysgolion meithrin a gynhelir, yr awdurdod lleol yw'r cyflogwr o dan y contract cyflogaeth. Y corff llywodraethu yw'r cyflogwr o dan y contract cyflogaeth yn achos staff mewn ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion sefydledig.

Dylai gwaith cynllunio strategol ac ariannol ar y cyd olygu y gellir diogelu swyddi yn well mewn unrhyw gyfnod o gywasgu cyfunol ac y gellir gwneud y defnydd gorau o staff arbenigol, gan gydnabod pob gan bob aelod o staff cymorth ac addysgu sgiliau a gwybodaeth arbenigol. Byddai staff yn gallu dysgu oddi wrth ei gilydd o fewn ymagwedd gydlynol er mwyn sicrhau cymunedau dysgu proffesiynol sy'n defnyddio data a'r Model cenedlaethol er mwyn canolbwyntio ar welliannau i ysgolion sy'n cysylltu â blaenoriaethau cenedlaethol a chynlluniau datblygu eu hysgolion.

Gall corff llywodraethu'r ysgolion ffederal benodi aelodau newydd o staff i weithio ym mhob ysgol yn y ffederasiwn. Gallai hyn gynnwys penodi pennaeth sengl i fod yn gyfrifol am yr holl ysgolion yn y ffederasiwn, neu benodi Bwrsar neu berson sydd â sgiliau rheolaeth ariannol a/neu sgiliau rheoli busnes, i oruchwylio agweddau ar fusnes y ffederasiwn heblaw addysgu.

## C15. A oes modd i ffederasiwn gael un pennaeth sydd â chyfrifoldeb am yr holl ysgolion yn y ffederasiwn hwnnw?

Oes, os dyna yw dymuniad yr ysgolion; a gallai hynny fod yn opsiwn dichonadwy mewn ffederasiwn o ysgolion cynradd bach gwledig. Os dewisir yr opsiwn hwn ar gyfer ffederasiwn mwy, a fyddai'n cynnwys hyd at chwe ysgol, h.y. ysgol uwchradd a'r ysgolion cynradd sy'n ei bwydo, pan fo nifer fawr o ddisgyblion ym mhob un o'r ysgolion, dylai cyrff llywodraethu ac awdurdodau lleol ystyried sut y gellir rheoli trefniant o'r fath, a pha strwythur cymorth y byddai ei angen ar bennaeth sengl y ffederasiwn Byddai'n rhaid ystyried, er enghraifft , sut y gellid gweithredu strwythur rheoli sy'n bodloni anghenion unigol pob un o'r ysgolion, a hefyd yn cynnal parhad y cwricwlwm ledled y ffederasiwn. Gallai hynny olygu cael rhai staff ym mhob ysgol yn canolbwyntio ar addysgu a dysgu ynghyd â strwythur o swyddi eraill ar gyfer athrawon a fyddai'n gweithio ledled y ffederasiwn, a'r cyfan yn cael ei reoli gan bennaeth sengl.

Opsiwn arall y gallai cyrff llywodraethu ac awdurdodau lleol ei ystyried, fyddai cadw pennaeth ym mhob ysgol sy'n ffedereiddio, yn hytrach na phenodi pennaeth sengl.

O safbwynt gweithredu o ddydd i ddydd gallai ysgolion ddymuno mabwysiadu trydydd opsiwn, sef penodi pennaeth ar y ffederasiwn yn ogystal â chadw pennaeth ym mhob un o'r ysgolion. Pe cytunid ar y drefn honno ac os penodid pennaeth trosfwaol i fod yn gyfrifol am y ffederasiwn, byddai'r pennaeth hwnnw'n aelod o'r corff llywodraethu. Os na wneid penodiad o'r fath, gallai pennaeth pob un o'r ysgolion fod yn llywodraethwr.

## C16. A fyddai'r ‘pennaeth’ sydd â chyfrifoldeb cyffredinol am y ffederasiwn yn gyfrifol am reoli penaethiaid yr ysgolion unigol o fewn y ffederasiwn, pe cytunid ar y strwythur hwnnw?

Gallai’r corff llywodraethu ddewis penodi pennaeth ar y ffederasiwn gyda chyfrifoldeb llawn dros yr holl ysgolion yn y ffederasiwn, a chael uwch-aelod o'r staff neu ddirprwy bennaeth yn unig yn gofalu am bob ysgol unigol. Os na fyddai'r uwch-aelodau hynny'n brifathrawon cymwysedig ac yn cyflawni'r ystod llawn o ddyletswyddau statudol pennaeth ysgol, yna byddai pennaeth y ffederasiwn yn gyfrifol am reoli perfformiad yr uwch-aelodau hynny o'r staff. Y corff llywodraethu fyddai'n gyfrifol am reoli perfformiad pennaeth y ffederasiwn.

## C17. Sut y dylid talu i benaethiaid ffederasiynau?

Yn dilyn argymhelliad gan y Corff Adolygu Athrawon Ysgol (STRB) mae'r Adran Addysg yn Lloegr ar ganol diweddaru'r Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol i adlewyrchu taliadau interim i benaethiaid sy'n cymryd cyfrifoldeb am fwy nag un ysgol.

## C18. A gaiff rhiant-lywodraethwyr eu hethol gan y rhieni o'u hysgol yn unig neu gan rieni o bob ysgol yn y ffederasiwn?

Dylai'r cynnig i ffedereiddio ddatgan y nifer o riant-lywodraethwyr a fydd yn cynrychioli pob ysgol. Yn ôl y gyfraith, rhaid i bob ysgol gael o leiaf un rhiant-lywodraethwr a etholir gan y rhieni yn yr ysgol honno (neu a benodir gan y corff llywodraethu os nad oes rhiant yn sefyll i'w ethol), ond i chaniateir i ysgol gael mwy na dau riant-lywodraethwr. Mae'n rhesymol, felly, ar ôl penderfynu ar y nifer o riant-lywodraethwyr

a ganiateir i bob ysgol, mai'r rhieni yn yr ysgol dan sylw dyn unig ddylai bleidleisio yn yr etholiad i ethol y rhiant-lywodraethwyr.  Os penderfynir y dylai bob ysgol gael dau riant-lywodraethwr, ac os nad oes rhiant yn sefyll i'w ethol mewn ysgol benodol, neu os oes un yn unig yn sefyll, caiff y corff llywodraethu ffederal benodi rhiant-lywodraethwyr yn unol ag Atodlen 2 o Reoliadau Ffedereiddio 2014. golyga hynny y gallai'r corff llywodraethu benodi rhiant disgybl cofrestredig o'r ysgol; rhiant disgybl cofrestredig o ysgol arall yn y ffederasiwn; neu riant plentyn mewn oedran ysgol gorfodol (neu o dan oedran ysgol gorfodol yn achos ysgol feithrin ).

## C19. A ellir cyfyngu ar ffederasiwn o ran  amser?

Dylid ystyried bod ffedereiddio yn ymrwymiad hirdymor, ac nid ystryw dros dro. Bydd yr ALl neu'r cyrff llywodraethu wedi rhoi ystyriaeth ddofn i'r manteision a'r risg sy'n gysylltiedig â sefydlu ffederasiwn, gan gynnwys ei heffaith ar gyflawniad plant a phobl ifanc. Byddai ffederasiwn yn sefydlu cynlluniau strategol a gweithredol er mwyn sicrhau cynaliadwyedd a datblygiad yr ysgolion. Cynlluniau ar gyfer y tymor canol a'r tymor hir fyddai cynlluniau o'r fath. Er gwaethaf hynny, mae Rheoliadau Ffedereiddio 2014 yn caniatáu i ysgolion unigol adael ffederasiwn, ac yn darparu ar gyfer diddymu ffederasiwn.

## C20. Beth yw'r gwahaniaethau rhwng ffedereiddio ysgolion a chyfuno ysgolion?

Os bydd dwy ysgol yn uno, gallant barhau'n agored yn eu cymuned ond byddant wedyn yn un ysgol aml-safle, gydag un enw, un ethos, un gyllideb, un cymeriad ac un wisg ysgol. Un pennaeth fyddai gan yr ysgol ac y mae'n debyg y câi staff eu diswyddo neu y byddai angen iddynt ailymgeisio am swyddi yn yr ysgol newydd. Mewn ysgolion aml-safle, gallai'r ALl gau un o safleoedd yr ysgol a throsglwyddo'r disgyblion i'r safleoedd eraill, heb fynd trwy unrhyw broses statudol o gyhoeddi cynigion.

Mewn Ffederasiwn, bydd yr ysgolion yn parhau'n agored yn eu cymunedau ond byddant hefyd yn cadw eu hunaniaeth, eu henw, eu hethos, eu cymeriad, eu cyllideb a'u gwisg ysgol eu hunain. Byddai'r staff hefyd yn cadw eu swyddi a hwyrach yn cael cyfleoedd ehangach i ddatblygu yn broffesiynol drwy weithio ym mhob un o ysgolion y ffederasiwn Gall penaethiaid aros yn eu swyddi hefyd, er mai un pennaeth yn unig

sydd gan rai ffederasiynau. Gellir cau ysgolion mewn ffederasiwn fel rhan o gynigion i ad-drefnu ysgolion, ond byddai'n rhaid i'r ALl ddilyn proses statudol o gyflwyno cynigion er mwyn gwneud hynny.

## C21. Beth allai ddylanwadu ar ysgolion wrth benderfynu a ddylent uno neu ffedereiddio?

Mae'n bosibl bod gan yr ALl gynlluniau hirdymor ar gyfer ad-drefnu ysgolion o fewn ei ardal, a byddai angen i ysgolion ystyried y rhain a thrafod gyda'r ALl pa opsiwn yw'r mwyaf buddiol iddynt hwy ac sydd hefyd yn gydnaws â chynlluniau'r ALl.

## C22. A ddylem, fel cam cyntaf, ddechrau cydweithio ag ysgolion y gallem ffedereiddio gyda nhw?

Hwyrach y bydd cydweithio gydag ysgolion eraill yn meithrin ymddiriedaeth rhyngoch, a hynny'n eich galluogi i sefydlu perthynas waith dda, a fyddai'n yn ei gwneud yn haws cymryd y cam nesaf tuag at ffedereiddio. Bydd y broses ffedereiddio yn llwyddo os bydd y staff a'r llywodraethwyr wedi ymrwymo i gydweithio er budd cymunedau'r ysgolion.

## C23. A all ysgolion sefydlu corff llywodraethu ar y cyd cyn ffedereiddio'n ffurfiol?

Na - mae corff llywodraethu'r ysgolion ffederal yn dod i fodolaeth ar y dyddiad y daw'r Ffederasiwn i rym y mae'n rhaid iddo fod o leiaf 125 diwrnod o'r dyddiad y cyhoeddir y cynigion ar gyfer ffedereiddio (neu 100 diwrnod os ffedereiddir ysgolion bach). Golyga hyn y bydd cyrff llywodraethu'r ysgolion sy'n ffedereiddio wedi cynnal etholiadau ar gyfer y llywodraethwyr craidd h.y. rhieni, athrawon a staff a bydd yn rhaid i'r ALl fod wedi penodi llywodraethwyr sy'n cynrychioli'r ALl. Ar y dyddiad y daw'r Ffederasiwn i rym gall y corff llywodraethu sengl newydd gyfarfod a phenodi ei lywodraethwyr cymunedol. Fodd bynnag, gall yr ysgolion sefydlu cyd-weithgor o lywodraethwyr i oruchwylio'r broses Ffedereiddio os dymunant.

## C24. Pan fo dwy o ysgolion cynradd bach gwledig yn ffedereiddio a ellid ad-drefnu fel bod disgyblion un cyfnod allweddol i gyd yn mynd i ysgol X a'r gweddill yn mynd i ysgol Y?

Gan ddibynnu ar y categori o ysgolion, mater i'r awdurdod lleol (yn achos ysgolion cymunedol) a'r corff llywodraethu (yn achos ysgolion gwirfoddol ac ysgolion sefydledig) fyddai gwneud cynigion i newid ystod oedran ysgol, ar ôl ymgynghori â'r rhieni a phartïon eraill â diddordeb. Byddai angen i'r ysgolion fynd trwy'r broses statudol briodol er mwyn gwneud y newid.

## C25. Beth fyddai'n digwydd pe bai disgybl yn cael ei wahardd o un ysgol mewn ffederasiwn? A ellid ei roi mewn ysgol arall yn yr un Ffederasiwn?

Gellid – er bod ysgolion wedi'u ffedereiddio a'u bod yn rhannu corff llywodraethu mae'r ysgolion yn dal i fod yn endidau ar wahân fel na allai disgybl gael ei droi i ffwrdd gan un ysgol am ei fod wedi'i wahardd o ysgol arall yn yr un ffederasiwn.

Os bydd y disgybl wedyn yn cael ei wahardd yn barhaol o'r ail ysgol yn y ffederasiwn argymhellir y dylai'r pwyllgor disgyblu disgyblion sy'n cyfarfod i ystyried y gwaharddiad gynnwys aelodau'r corff llywodraethu nad ydynt yn gysylltiedig â'r ystyriaeth a roddwyd i'r gwaharddiad cyntaf.

Gwneir yr argymhelliad hwn er mwyn osgoi unrhyw ogwydd barn y gellid ei ystyried mewn perthynas â'r gwaharddiad cyntaf. Er na ellir bob amser ddarparu pwyllgor disgyblu cyflawn o aelodau newydd y corff llywodraethu dylid trafod unrhyw amgylchiadau o'r fath â'r awdurdod lleol yn y lle cyntaf.

## C26. A allem newid enw'r ysgol neu roi'r un enw i bob ysgol yn y ffederasiwn?

Un prif symbyliad i ffedereiddio, ac un o'i brif fanteision yw nad yw'r ysgolion yn colli eu hunaniaeth a'u henw, ond yn parhau'n sefydliadau ar wahân. Bydd enw pob ysgol sydd yn y ffederasiwn, yn ogystal ag enw'r ffederasiwn ei hunan, yn ymddangos r yr offeryn llywodraethu newydd. Pennir y  broses ar gyfer diwygio'r offeryn llywodraethu

a newid manylion megis enwau'r ysgolion yn Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005. Dylai'r ALl a'r corff llywodraethu ddod i gytundeb ynghylch y newidiadau arfaethedig. Os na allant gytuno, yr ALl gaiff wneud y penderfyniad terfynol, ar ôl sicrhau na fydd yr un o'r newidiadau yn gamarweiniol.

Rhaid i bob ysgol mewn ffederasiwn gadw ei rhif cyfeiriol unigryw gwreiddiol a'i chyllideb.  Gallai fod yn fater pur gymhleth a dyrys pe bai pob un o'r ysgolion yn penderfynu newid ei henw ac yn penderfynu mabwysiadu enw sengl tra'n gorfod  rhoi cyfrif am gyllidebau ar wahân.

# Atodiad 10: Gwybodaeth i rieni

Mae'n bosibl bod ysgol eich plentyn yn ystyried cydweithio'n agosach gydag ysgolion cyfagos trwy ddod yn rhan o ffederasiwn (neu fod yr ALl wedi dewis ysgol eich plentyn i gydweithio'n agosach gydag ysgolion eraill yn y gymdogaeth trwy ddod yn rhan o ffederasiwn). Mae'r daflen hon yn esbonio beth y mae hyn yn ei olygu i chi ac i'ch plentyn, ac i'r ysgol ei hunan.

## C1. Beth yw ffederasiwn?

Ffederasiwn yw'r gair a ddefnyddir i ddisgrifio ‘partneriaeth ffurfiol’ o ysgolion (rhwng dwy a chwech ohonynt) sef cytundeb cyfreithiol a ffurfiol rhwng ysgolion a fydd yn rhannu un corff llywodraethu rhyngddynt. Gall yr ysgolion sydd mewn ffederasiwn fod yn gymysgedd o ysgolion meithrin a gynhelir, ysgolion cynradd, ysgolion arbennig ac ysgolion uwchradd. Fodd bynnag, ni chaiff ysgolion a seiliwyd ar ffydd ffedereiddio, ac eithrio gydag ysgolion eraill sydd hefyd yn seiliedig ar ffydd.

Gwneir y penderfyniad i ffedereiddio naill ai gan gyrff llywodraethu'r ysgolion dan sylw neu gan yr ALl. Mae pob ysgol sydd mewn ffederasiwn yn parhau'n agored yn ei chymuned ac yn cadw ei chyllideb, ei chymeriad, ei gwisg ysgol, ei threfniadau derbyn a'i hethos ei hunan, a bydd yn cael arolygiad ei hunan gan Estyn.

Mewn ffederasiwn, gellir cael pennaeth ym mhob ysgol a/neu un pennaeth ar gyfer pob ysgol yn y ffederasiwn – y corff llywodraethu sydd i benderfynu.

Nid oes 'glasbrint' ar gyfer ffederasiynau. Bydd pob un yn cael ei theilwra yn benodol i fodloni anghenion gwahanol ysgolion a chymunedau. Gall ffederasiwn llwyddiannus gynnig cwricwlwm ehangach i'r plant, er mwyn cyfoethogi eu profiadau a darparu addysg o ansawdd uchel a fydd yn gwella'u cyrhaeddiad.

## C2. Pam y mae ffedereiddio, yn sydyn, wedi dod yn opsiwn ar gyfer eich ysgol chi?

Mae llawer o resymau pam y mae ysgolion o bob maint a math yn dymuno ffedereiddio, neu pam y mae'r ALl yn dymuno'u ffedereiddio. Rhannu adnoddau megis cyllidebau, yr athrawon ac arbenigedd addysgwyr, arweinyddiaeth ysgolion a chyfleusterau, a dysgu gan ein gilydd a rhannu arferion da, yw rhai, yn unig, o'r ystyriaethau sy'n sbarduno ffedereiddio.

Ar gyfer rhai ysgolion, bydd cydweithio'n agosach mewn ffederasiwn yn ffordd o rannu beichiau gwaith trwm ymhlith y staff, tra'n caniatáu i'r ysgolion barhau i gynnig cwricwlwm eang i'r disgyblion, a dewisiadau gwirioneddol, nad oes modd i ysgolion bach sydd â llai o staff eu cynnig.

Gall ffedereiddio hefyd gynnig cyfleoedd gyrfaol nad ydynt fel arfer ar gael i'r staff, megis gweithio mewn ysgol arall o fewn y ffederasiwn. Gall hyn fod yn gymorth i ddenu athrawon newydd, sydd â chymwysterau rhagorol, i weithio yn yr ysgol. Mae rhai ysgolion yn cael anhawster hefyd i ddenu penaethiaid da, ac mae ffedereiddio yn caniatáu i ysgolion ddyfeisio atebion mwy creadigol wrth benodi arweinwyr.

## C3. Pa fanteision y mae ffedereiddio'n eu cynnig i'r disgyblion?

Gall ffedereiddio gynnig llawer o fanteision, ond byddant yn dibynnu ar ffocws a phwrpas y ffedereiddio. Yn gyffredinol fodd bynnag, dylai ffedereiddio roi cyfleoedd i ddisgyblion o bob oedran a gallu i gyfarfod a gweithio fel rhan o grŵp mwy, a byddai hynny'n arbennig o fuddiol i rai o'r disgyblion hŷn, cymharol alluog, sydd mewn ysgolion bach. Manteision eraill fyddai cael mynediad i addysgu arbenigol, chwaraeon tîm, arbenigedd cwricwlaidd ehangach a gwell dewis o weithgareddau allgyrsiol a gweithgarwch a chlybiau y tu allan i oriau ysgol.

## C4. Sut y bydd ffedereiddio'n gweithio?

Bydd ffederasiynau'n gweithio mewn gwahanol ffyrdd. Y corff llywodraethu a'r penaethiaid neu'r pennaeth sengl (a hwyrach yn esgobaeth yn achos ysgolion

crefyddol) fydd yn penderfynu sut y caiff y ffederasiwn ei strwythuro a'i weithredu. Y bob hyn sydd yn y sefyllfa orau i wneud yn sicr bod gweithrediadau a threfniadau'r ffederasiwn yn cyfateb i anghenion pob un o'r ysgolion. Dylai pob ffederasiwn fod wedi paratoi cynllun gwaith manwl a chytuno ar strwythur staffio, a fydd yn fframwaith ar gyfer cynllunio mwy manwl a threfnu a rheoli'r ysgolion o dydd i ddydd.

## C5. A fydd y llywodraethwyr neu'r ALl yn gwrando ar farn y rhieni wrth ymgynghori ar y cynigion i ffedereiddio?

Mae'r gyfraith yn dweud bod rhaid i'r llywodraethwyr a'r ALlau ofyn barn rhanddeiliaid ynglŷn â'r cynigion i ffedereiddio. Y rhanddeiliaid yw'r rhieni, y staff, yr undebau, y disgyblion a phartneriaid eraill fel yr awdurdodau esgobaethol. Gellir casglu safbwyntiau mewn nifer o wahanol ffyrdd, gan gynnwys ymatebion ysgrifenedig, holiaduron, cymorthfeydd gwybodaeth a chyfarfodydd ffurfiol. Unwaith y bydd y safbwyntiau i gyd wedi eu cyflwyno i'r corff llywodraethu, rhaid i'r llywodraethwyr ystyried y pwyntiau a godwyd a gwneud eu penderfyniad ar sail mwyafrif o'r pleidleisiau a fwrir mewn cyfarfod o'r corff llywodraethu. Pan fo ALl yn sefydlu ffederasiwn, bydd yn ystyried yr ymatebion a geir ac yn gwneud penderfyniad.

## C6. A fydd yr athrawon a'r plant yn symud o ysgol i ysgol?

Mae'n fwyaf tebygol mai staff yr ysgolion fyddai'n symud o ysgol i ysgol, a'r plant fel arfer yn aros yn yr ysgol y'i cofrestrwyd ynddi. Fodd bynnag, hwyrach y daw cyfleoedd i blant o wahanol ysgolion gydweithio ar brosiectau ac mewn digwyddiadau arbennig lle y defnyddir, technoleg, cyfleusterau a chyfarpar chwaraeon, labordai gwyddoniaeth neu fideo-gynadledda.

## C7. Mae'n hysgol ni eisoes yn cydweithio gydag ysgolion eraill cyfagos, felly pam y mae'n rhaid iddi ffedereiddio?

Prif fantais ffedereiddio, yn hytrach na chydweithio yn unig, yw y bydd ansawdd y trefniadau cydweithio yn fwy cynaliadwy dros dymor hir, hyd yn oed pe bai newidiadau sylweddol yn digwydd mewn un ysgol. Mae ffedereiddio yn ffurfioli ymrwymiad pob un

o'r ysgolion, a'r drefn gyfunol o wneud penderfyniadau gan y corff llywodraethu sengl yn diogelu ansawdd addysg y plant, yn caniatáu blaenoriaethu adnoddau lle mae'r angen mwyaf, ac yn rhwystro ysgolion unigol rhag dargyfeirio adnoddau ar gyfer blaenoriaethau eraill er eu budd eu hunain.

### C8. Ai ymgais i arbed arian yw ffedereiddio?

Nage. Mae'n ymwneud â chyfuno adnoddau'r ysgolion er mwyn gwella perfformiad, codi safonau cyrhaeddiad a chyflawni rhagor er budd y plant — naill ai drwy ddarparu cyfleoedd a chyfleusterau na fyddent ar gael i'r plant fel arall, neu drwy ddarparu cyllid ar y cyd ar gyfer athro drama, dyweder, neu athrawon cymorth..

### C9. A fydd ffedereiddio'n golygu bydd ein hysgol yn cael llai o arian gan yr ALl?

Nac ydy. Ni fydd ffedereiddio'n effeithio ar y ffordd y cyfrifir cyllideb ysgol unigol – dylai pob ysgol yn y ffederasiwn barhau i gael ei chyllideb ei hun, ar sail y nifer o ddisgyblion cofrestredig yn yr ysgol plws unrhyw ffactorau eraill. Fodd bynnag, bydd modd i'r ysgolion gyfuno neu rannu eu cyllidebau. Er enghraifft, pe bai'r ysgolion rhyngddynt yn dymuno penodi athro drama, neu brynu neu uwchraddio cyfarpar chwaraeon, gallai pob ysgol cyfrannu rhan o'r gost allan o'i chyllideb.

Dylai corff llywodraethu'r ffederasiwn fod mewn sefyllfa i wneud penderfyniadau strategol ynglŷn â'r defnydd o'u hadnoddau, gan gynnwys cyllidebau, staff a chyfleusterau. Bydd rhaid i bob ysgol gynnal trywydd archwilio eglur a chyfrifon o'r modd y byddant yn gwario'u cyllideb.

### C10. Beth yw manteision ariannol ffedereiddio?

Gall ffederasiwn wella gallu'r ysgolion sydd ynddo i gyrraedd safonau uwch. Y canlynol yw rhai o'r manteision:

- ffordd fwy cost-effeithiol o wella argaeledd addysgu arbennig (pan fo'i angen),

ehangu'r cwricwlwm, a darparu gweithgareddau cwricwlaidd estynedig a chlybiau y tu allan i oriau ysgol,

- rhannu'r gost o brynu nwyddau a chyfleusterau etc,
- prynu mewn ffordd sy'n manteisio ar ddarbodion maint ac yn osgoi dyblygu,
- arbedion o ran y cwricwlwm, cynllunio strategol ac amser gweinyddu,
- cyfuno cyllid er mwyn gallu talu cyflogau uwch a denu staff mwy profiadol.